# Cyllideb Ddrafft 2025 i 2026: tystiolaeth i Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd

Tystiolaeth ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Rhagfyr 2024

Tystiolaeth ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Rhagfyr 2024

Llywodraeth Cymru

# Cais y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am dystiolaeth

## Tystiolaeth i lywio'r gwaith o graffu ar y Gyllideb Ddrafft 2025-26

Rhagfyr 2024

Mae'r ddogfen hon yn ymateb i gais y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am wybodaeth i lywio'r gwaith o graffu ar y Gyllideb Ddrafft 2025-26.

# Cynnwys


**1. Dyraniadau i Blant a Phobl Ifanc ....4**

**2. Portffolio Gweinidogol Newydd: Plant a Gofal Cymdeithasol 7**

Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar a Chwarae ....7

**3. Asesiadau Effaith ....9**

3.1 Asesiad cyfun o'r Effaith ar Hawliau Plant ar draws pob portffolio ....9

3.2 Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ....10

3.3 Effeithiau eraill ....10

**4. Y Rhaglen Lywodraethu ....12**

4.1 Gwasanaethau Eirioli ....12

4.2 Gwasanaethau Preswyl Rhanbarthol ....12

4.3 Dileu Elw Preifat ....14

4.4 Cefnogaeth ar gyfer Anghenion Cymhleth ....16

4.5 Y Gronfa Gofal Plant ....18

4.6 Ehangu'r Ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar ....18

4.7 Dechrau'n Deg ....22

**5. Gofal Cymdeithasol i Blant .... 24**

5.1 Gweithlu Gofal Cymdeithasol Plant ....24

5.1 Cynllun Grantiau Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy ....25

5.3 Cronfa Newid Plant sydd â Phrofiad o fod Mewn Gofal ....28

**6. Iechyd Plant ....29**

6.1 Mynd i'r afael ag Amseroedd Aros Pediatrig y GIG ....29

6.2 Iechyd y Cyhoedd ....32

6.3 Strategaeth Gordewdra ....33

6.4 Gwasanaethau Iechyd Meddwl ....34

6.5 Gwasanaethau Anhwylderau Bwyta ....36

6.6 Atal Hunanladdiad ....36

6.7 Camddefnyddio Sylweddau ....37

6.8 Gwasanaethau Niwroddatblygiadol ........ 38
6.9 Uned Ddiogel Hillside ........ 39
**7. Costau Byw ........ 40**
7.1 Y Byrddau Iechyd ........ 40
7.2 Y Gwasanaethau Cymdeithasol ........ 41
7.3 Tlodi Plant ........ 41
**8. Costau Deddfwriaeth ........ 42**
8.1 Goblygiadau Ariannol ........ 42
8.2 Effaith Ariannol ........ 42

# 1. Dyraniadau i Blant a Phobl Ifanc

## Dyraniadau ym Mhrif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd drwy Weithredu, a Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) (fel sy'n uniongyrchol berthnasol i blant a phobl ifanc):

- Cyllideb Ddrafft 2025-26;
- Dyraniadau Cyllideb Derfynol 2024-25;
- Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-25;
- Cyllideb ddangosol 2026-27 (os pennir);
- Disgrifiad o unrhyw newidiadau i'r llinell sylfaen yng Nghyllideb Ddrafft 2025/26 o'r Gyllideb Atodol Gyntaf, Mehefin 2024.

**Ymateb:**

Lluniwyd y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26 o amgylch blaenoriaethau allweddol mewn meysydd y mae'r Cabinet wedi nodi eu bod yn hanfodol ar gyfer cyflawni. Blaenoriaeth y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol yw 'Iechyd da' – *Cymru Iachach*.

Mae £435m o gyllid Adnoddau ychwanegol a £175m o gyllid Cyfalaf ychwanegol ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i helpu gyda'r gwaith parhaus i leihau amseroedd aros hir y GIG, gwella mynediad a gwella gwasanaethau ar gyfer iechyd menywod. Mae hyn yn adeiladu ar y cyllid ychwanegol y cytunwyd arno eisoes ar gyfer 2024-25.

Mae'r Prif Grŵp Gwariant Tai a Llywodraeth Leol yn cael cynnydd er mwyn hybu mynediad at ofal cymdeithasol drwy'r Grant Cynnal Refeniw i Awdurdodau Lleol.

Mae plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys yn ein maes blaenoriaeth, 'Iechyd da'/ *Cymru Iachach*.

Rydym yn cefnogi nifer o feysydd er mwyn gwella amseroedd aros sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc, gan gynnwys iechyd meddwl, a hefyd ar gyfer y teuluoedd hynny sy'n aros am asesiad mewn perthynas â niwrowahaniaeth.

Rydym hefyd yn parhau â'n cefnogaeth i deuluoedd gael mynediad at y rhaglenni Gofal Plant, Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf.

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol 2024-25 | Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-25 | Newidiadau ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2025-26 | Cyllideb Ddrafft 2025-26 |
|---|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m | £m |
| *Cymru Iachach* – (Y Blynyddoedd Cynnar) – BEL 0060 | 6.850 | 6.850 | 0.000 | 6.850 |
| Cymorth ar gyfer Gofal Plant a Chwarae – BEL 310 | 82.378 | 82.378 | 20.000 | 102.378 |
| Cymorth ar gyfer Hawliau Plant – BEL 311 | 1.445 | 1.445 | 0.000 | 1.445 |
| Cefnogi Plant – BEL 410 | 3.865 | 3.865 | 0.000 | 3.865 |
| Cefnogi Teuluoedd a Phlant – BEL 1085 | 5.535 | 5.535 | 0.000 | 5.535 |
| Grant Plant a Chymunedau – BEL 1087 | 179.583 | 179.583 | 0.000 | 179.583 |
| Cafcass Cymru – BEL 1268 | 15.873 | 15.873 | 0.804 | 16.677 |
| CYFANSWM | 295.529 | 295.529 | 20.804 | 316.333 |

**Cymorth ar gyfer Gofal Plant a Chwarae: BEL 310 - Cynnydd o £20m**

Yn unol â'n hymrwymiad i'r sector gofal plant, mae Swyddogion wedi cynnal adolygiad o'r gyfradd fesul awr ar gyfer y Cynnig Gofal Plant i Gymru. Roedd hyn yn cynnwys ymchwil maes a dadansoddi tystiolaeth i lywio sut beth fydd y gyfradd ddiwygiedig. Y gyfradd gyfredol yw £5 a bydd hyn yn cynyddu i £6 o fis Ebrill 2025 ymlaen. Bydd yr £20m yn cyflawni'r cynnydd hwn yn y gyfradd fesul awr ar gyfer y Cynnig Gofal Plant, sy'n cynnwys y gydran Addysg feithrin a chynnydd cyfatebol mewn gofal plant i blant dwyflwydd oed fel rhan o'r Rhaglen Dechrau'n Deg. Yn y tabl uchod dangosir y swm hwn yn BEL 0310, bydd elfennau'r cyllid hwn sy'n ymwneud ag addysg feithrin a Dechrau'n Deg yn cael eu dyrannu i linellau BEL perthnasol maes o law.   Ochr yn ochr â chynnydd arfaethedig, mae cwmpas yr adolygiad yn ystyried pa mor gyson fydd adolygiadau o gyfraddau'n digwydd yn y dyfodol ac yn cynnig cynnydd o 20 y cant yn y taliadau bwyd a ganiateir.

**Cafcass Cymru - BEL 1268 - Cynnydd o £0.804m**

Cynnydd o £0.804m yn y gyllideb sy'n ymwneud ag addasiad y llinell sylfaen ar gyfer dyfarniad cyflog 2024-25 i staff Cafcass ac effeithiau cysylltiedig SCAPE ar bensiynau.

## Cyllideb Ddangosol 2026-27

Mae setliad y gyllideb un flwyddyn ar gyfer 2025-26 yn unig, felly nid oes cyllidebau wedi'u pennu ar gyfer 2026-27.

# 2. Portffolio Gweinidogol Newydd: Plant a Gofal Cymdeithasol

## Esboniad naratif o rôl deiliad portffolio newydd y Gweinidog dros Blant a Gofal Cymdeithasol mewn perthynas â dyraniadau cyllideb ar gyfer plant ar draws y llywodraeth.

**Ymateb:**

Mae'r portffolio newydd yn cynnwys cyfrifoldeb arweiniol dros hawliau plant. Mae gwaith Llywodraeth Cymru ar hawliau plant yn seiliedig ar ein hymrwymiad i egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). O dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, mae Gweinidogion Cymru yn amodol ar y pedair dyletswydd ganlynol:

- rhoi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth arfer swyddogaethau Gweinidogol;
- cynhyrchu Cynllun Hawliau Plant sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer cydymffurfio â'r ddyletswydd sylw dyledus;
- cyhoeddi "adroddiad cydymffurfio" bob dwy flynedd a hanner, ar sut y mae Gweinidogion wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd sylw dyledus;
- cymryd camau priodol i hyrwyddo dealltwriaeth y cyhoedd o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb ar Hawliau Plant yn cefnogi holl Weinidogion Cymru i gyflawni'r dyletswyddau hyn, gan gynnwys cyllid grant i *Blant yng Nghymru* roi *Cymru Ifanc* ar waith. Mae *Cymru Ifanc* yn darparu model cyfranogiad cynrychioliadol er mwyn i leisiau plant a phobl ifanc gael eu clywed yn y broses o lunio polisïau/deddfwriaeth a gwneud penderfyniadau.

## Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar a Chwarae

Mae'r portffolio newydd yn cynnwys cyfrifoldeb dros: polisïau a deddfwriaeth y blynyddoedd cynnar a gofal plant; rhaglenni gofal plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru; cymorth teuluol a magu plant; arweiniad ar gyfer Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a dulliau sy'n Ystyriol o Drawma; a pholisïau

chwarae ar gyfer pob plentyn, sy'n ymestyn y tu hwnt i'w blynyddoedd cynnar. Rydym wedi ymrwymo i'r canlynol:

- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu system blynyddoedd cynnar fwy cydgysylltiedig ac ymatebol yng Nghymru.

- Cefnogi profiadau chwarae, dysgu a gofal hygyrch, cynhwysol o ansawdd uchel yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog.

- Cefnogi sector gofal plant a gwaith chwarae amrywiol, ffyniannus ac sy'n cael ei werthfawrogi.

- Torri'r cylch anfantais drwy ganolbwyntio ein hadnoddau ar ein cymunedau mwyaf difreintiedig drwy ein Rhaglen Dechrau'n Deg flaenllaw, sydd wedi'i thargedu.

- Cynyddu ymwybyddiaeth bod Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLC) yn 'fater i bawb' a sicrhau bod ymyriadau'n cael eu darparu'n gyffredinol pan fo angen.

- Cefnogi teuluoedd i dalu costau gofal plant drwy gynllun gofal plant a ariennir gan y llywodraeth (Cynnig Gofal Plant Cymru a Gofal Plant Dechrau'n Deg).
- Cefnogi rhieni a theuluoedd drwy bolisi magu plant a'n hymgyrch genedlaethol *Magu Plant–Rhowch amser iddo* a Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd a Teuluoedd yn Gyntaf.

- Lliniaru Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a'u heffaith a hyrwyddo Cymru sy'n Ystyriol o Drawma.

- Amddiffyn a hyrwyddo'r gallu i fod yn chwareus a bod pob plentyn yng Nghymru'n cael digon o gyfleoedd i chwarae yn eu hardaloedd.

# 3. Asesiadau Effaith

▪ Asesiad cyfun o'r Effaith ar Hawliau Plant ar draws pob portffolio: Yr Asesiad cyffredinol o'r Effaith ar Hawliau Plant a gynhaliwyd i lywio'r dyraniadau yng Nghyllideb ddrafft 2025-26.

▪ Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2025-26.

▪ Effeithiau eraill: Manylion a/neu enghreifftiau o unrhyw newidiadau a wnaed i ddyraniadau yn MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ôl ystyried cydraddoldeb, cynaliadwyedd, y Gymraeg, a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Ymateb:**

## 3.1 Asesiad cyfun o'r Effaith ar Hawliau Plant ar draws pob portffolio

Mae asesiadau effaith manwl, gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael eu cynnal fel rhan o'n gwaith parhaus o ddatblygu ac adolygu polisïau. Mae Asesiad Effaith Integredig Strategol yn un o gyfres o ddogfennau a gyhoeddir fel rhan o'r Gyllideb ddrafft ac mae'n hollbwysig i ganfod tueddiadau allweddol, effeithiau strategol a chronnol ar lefel portffolio, ar draws amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys rhoi ystyriaeth briodol ar draws y gofynion statudol.

Rydym yn parhau i gredu fod y dull integredig sy'n sail i'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn ein galluogi i gael gwell dealltwriaeth o effeithiau croestoriadol ac anfwriadol penderfyniadau gwario, ac i gynyddu effaith unrhyw gyllid sydd ar gael, gan leihau effeithiau anghymesur ar unrhyw grŵp neu ardal benodol. Mae perygl y bydd ystyried maes effaith ar ei ben ei hun yn arwain at

ganlyniadau anfwriadol, fel effaith negyddol mewn un maes yn cael ei sbarduno gan effaith gadarnhaol mewn maes arall.

## 3.2 Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Er ein bod yn disgwyl i'r rhagolygon ariannol ar gyfer y GIG, y flwyddyn nesaf, barhau i fod yn heriol iawn. Rydym yn buddsoddi £435m yn rhagor o gyllid adnoddau mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn 2025-26. Mae hyn yn golygu mai cyfanswm y cyllid adnoddau blynyddol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yw £11.915bn.

Bydd dros £400m o'r cyllid newydd hwn yn cefnogi amryw o ddyraniadau ychwanegol i'r GIG, gan gynnwys gweithgarwch i leihau amseroedd aros y GIG, iechyd menywod, hyfforddiant i'r gweithlu, buddsoddiadau digidol a chyflogau staff – gan adeiladu ar y cyllid ychwanegol a ddarparwyd yn 2024-25.

Rydym yn darparu cyllid cyfalaf ychwanegol i Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan olygu mai cyfanswm ein buddsoddiad cyfalaf yn y Gyllideb ddrafft hon yw £614m. Bydd y buddsoddiad hwn yn cynnal ac yn gwella seilwaith ystadau'r GIG, yn buddsoddi ymhellach yn y technolegau digidol diweddaraf, yn ogystal â sicrhau bod offer modern a dibynadwy ar gael sy'n addas i'r diben i gefnogi'r gwaith o atal colli cynhyrchiant yn y GIG a helpu i leihau amseroedd aros drwy fynd i'r afael â pha mor fregus a chynaliadwy yw'r seilwaith.  Nod y cyllid hwn yw helpu i wneud iawn am yr effeithiau mwyaf difrifol ar draws pob rhan o Gymru a darparu amddiffyniad i bawb, gan gynnwys plant, pobl anabl, pobl hŷn a phobl agored i niwed.

Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid o fewn y MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn mynd i'r GIG ac mae'n ddyraniad dewisol. Mae Byrddau Iechyd yn llunio eu cynlluniau i ddiwallu anghenion eu poblogaeth ac wrth wneud hynny byddant yn cwblhau asesiadau effaith, a fydd yn cynnwys ystyried yr effeithiau ar blant a phobl ifanc. Mewn meysydd polisi y tu allan i brif gyllid y GIG, er enghraifft ym maes Plant a'r Blynyddoedd Cynnar, mae Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael eu cwblhau wrth ddatblygu polisïau neu ddeddfwriaeth newydd. Mae'r rhain yn helpu i sicrhau bod buddiannau gorau plant yn cael eu hystyried yn ystod y broses o ddatblygu polisi a deddfwriaeth ac ystyried beth fydd effaith y dewisiadau hynny.

## 3.3 Effeithiau eraill

Gweledigaeth *Cymru Iachach* yw canolbwyntio mwy ar atal ac ymyrryd yn fuan. Rydym yn parhau i gefnogi hyn drwy gymorth cyffredinol a chymorth wedi'i dargedu. Yn nyraniad MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, caiff cyllid ei

ddyrannu i gefnogi ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu mewn cysylltiad â'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.

Mae ein cefnogaeth i'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yn cyfrannu at yr holl nodau llesiant, ac yn benodol at y rhai sy'n ymwneud â Chymru lewyrchus ac iachach. Mae buddsoddi mewn gofal plant a chwarae o ansawdd uchel yn gallu helpu plant ifanc i ddatblygu i fod yn oedolion iach ac egnïol. Mae'n datblygu eu llesiant gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol, ac yn lliniaru effeithiau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae gofal plant hefyd yn gallu galluogi rhieni i weithio a hyfforddi, ac yn codi teuluoedd allan o dlodi.

Mae ein Cynnig Gofal Plant yn cefnogi amcanion llesiant Llywodraeth Cymru, yn benodol i wneud y canlynol:

- Cefnogi pobl a busnesau i ysgogi ffyniant
- Hyrwyddo iechyd da a llesiant i bawb
- Helpu pobl ifanc i wneud y mwyaf o'u potensial
- Datblygu uchelgais ac annog dysgu i fyw

Rydym wedi parhau i lunio ein dyraniadau cyllideb i gyd-fynd â chamau gweithredu ataliol, gan ganolbwyntio ar ymyriadau cadarnhaol sy'n diogelu ac yn adeiladu ar y sylfeini presennol, gan gynnwys ein hymrwymiad i hawliau plant. Mae'n bwysig nodi, ar ôl cytuno ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2024-25, y bydd dyraniad yn cael ei roi i'r Byrddau Iechyd. Bydd y Byrddau Iechyd yn cynnal asesiadau effaith ar bopeth maes o law.

I sicrhau bod Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru'n cyflawni ei weledigaeth i ddarparu dull system gyfan teg, drwy weithlu iechyd a gofal cymdeithasol brwdfrydig a chynaliadwy, gan sicrhau canlyniadau iechyd mwy cyfartal i boblogaeth Cymru.

Byddwn yn gwneud hynny drwy barhau i weithio gyda Rhanddeiliaid a Phartneriaid i gyflawni'r Nodau a'r Camau Gweithredu perthnasol yn ein cynlluniau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Cenedlaethol nawr ac yn y dyfodol, gan gynnwys y rheini a gaiff eu disgrifio yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, y Cynllun Gweithredu LHDTC+ a'r Cynllun Gweithredu ar Anabledd arfaethedig.

Wrth wreiddio camau gweithredu cydraddoldeb yn ein hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu, rydym wedi sicrhau bod ein strategaethau a'n polisïau yn ystyried anghenion amrywiol pobl Cymru. Bydd Asesiadau Effaith Integredig sy'n cael eu cynnal gan feysydd polisi unigol yn parhau i sicrhau ffocws parhaus a chryfach ar gydraddoldeb a'r Gymraeg.

# 4. Y Rhaglen Lywodraethu

## Dyraniadau yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 a'r sefyllfa ddiweddaraf ar gyllid yng nghyd-destun Adroddiad Blynyddol diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gyfer:

### 4.1 Gwasanaethau Eirioli

*Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu} Gwasanaethau eirioli i rieni y mae eu plant mewn perygl o ymuno â r system ofal–*

Dyraniadau a naratif ategol yn nodi'r allbynnau a'r canlyniadau a ddymunir ar gyfer 2025-26.

**Ymateb:**

Dyrannwyd cyllid o £506,000 o'r Gronfa Newid Plant sy'n Derbyn Gofal yn 2025-26 i gefnogi'r gwaith o barhau i gyflwyno cymorth eiriolaeth annibynnol a phroffesiynol i rieni y mae eu plant ar gyrion gofal, gyda'r nod o leihau nifer y plant sy'n ymuno â'r system ofal yng Nghymru. Cyfanswm y cyllid a ddyrannwyd i'r ymrwymiad hwn ar draws pedair blynedd 2022-23-2025-26 yw £1,606,400.

Rydym wedi ymrwymo o hyd i eirioli gan rieni ac i barhau â'r cynnydd da y mae darparwyr eiriolaeth wedi'i wneud hyd yma wrth ddatblygu fframwaith canlyniadau, sefydlu llwybrau atgyfeirio a darpariaeth ar draws pob rhan o Gymru. Mae rhieni wedi cael cymorth gydag amrywiaeth o faterion gan gynnwys iechyd meddwl, cymorth gydag achosion gofal, cynadleddau amddiffyn plant, tai ac iechyd corfforol. Mae hyn wedi galluogi gwell dealltwriaeth o brosesau ac ymwybyddiaeth o hawliau rhieni. Mae rhieni'n teimlo eu bod wedi'u harfogi'n dda i hunaneirioli mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, ac mae teimlad bod lleisiau rhieni'n cael eu clywed a'u bod yn cael eu cymryd o ddifri ac mae gwell dealltwriaeth o sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a phwy sy'n eu gwneud. Byddwn hefyd yn sefydlu Fforwm Cenedlaethol ar gyfer Eirioli gan Rieni er mwyn dod â darparwyr a rhanddeiliaid at ei gilydd i drafod ymarferion cyson a rhannu'r hyn a ddysgwyd.

### 4.2 Gwasanaethau Preswyl Rhanbarthol

*Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu} Ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol ar gyfer plant ag anghenion cymhleth–*

## Dyraniadau a naratif ategol yn nodi'r allbynnau a'r canlyniadau a ddymunir ar gyfer 2025-26.

**Ymateb:**

Mae plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn aml wedi mynd drwy brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, ac mae gan lawer drawma heb ei ddatrys sy'n ailymddangos mewn ymddygiadau sy'n gwaethygu ac anawsterau mewn perthnasoedd personol. O ganlyniad, efallai y bydd lleoliadau nifer o blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn methu fwy nag unwaith oherwydd nad yw eu hanghenion wedi cael eu diwallu. Os na roddir sylw i'r anghenion hyn, mae'n bosibl mai pendraw hyn fydd cartref diogel neu leoliad arbenigol sy'n bell o'r bobl y maent yn eu hadnabod ac yn aml y tu allan i Gymru. Mae ymyrraeth gynnar yn hanfodol er mwyn torri'r cylch hwn gyda dull therapiwtig sydd wedi cael ei lywio gan drawma ac sy'n sicrhau canlyniadau gwell i'r plentyn.

Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i fuddsoddi'n helaeth yn y gwaith o ddatblygu llety preswyl therapiwtig a gwasanaethau arbenigol i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael mynediad at ffrydiau cyllid cyfalaf perthnasol fel y Gronfa Tai â Gofal (HCF) neu'r Gronfa Integreiddio ac Ailgydbwyso Cyfalaf (IRCF), a chyllid refeniw gan y Gronfa Integreiddio Ranbarthol neu'r Gronfa Dileu Elw o Ofalu am Blant.

Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn datblygu modelau gofal sy'n seiliedig ar lety i ddiwallu anghenion y boblogaeth hon. Fel arfer, gellir disgrifio'r math hwn o lety fel a ganlyn:

- Darpariaeth arbenigol camu i fyny neu gamu i lawr, sy'n darparu cymorth therapiwtig a chymorth sy'n seiliedig ar drawma, ac sy'n aml yn bwrpasol i anghenion y plentyn.

- Y nod yw helpu i reoleiddio ymddygiad ac atal achosion rhag gwaethygu a hwyluso'r broses o symud i lawr o ddarpariaeth cartref diogel neu ddarpariaeth iechyd meddwl haen pedwar i gleifion mewnol.

- Ei nod yw llenwi bylchau yn y ddarpariaeth leol i atal plant rhag cael eu lleoli y tu allan i'r sir neu'r tu allan i Gymru neu i ddod â nhw'n ôl yn nes at adref.

Hyd yma yn 2024-25, mae pum gwasanaeth preswyl newydd ar gyfer plant ag anghenion cymhleth wedi agor gan ddarparu 18 o welyau newydd, ac mae'r gwaith o ddatblygu 25 o gartrefi eraill ar gyfer plant ag anghenion cymhleth ac

mae disgwyl iddynt gael eu cwblhau erbyn mis Mawrth 2025, gan ddarparu 88 o welyau ychwanegol.

Mae gennym gyllideb ddangosol o £605m ar gyfer y Gronfa Tai â Gofal yn 2025-26. Plant ag anghenion cymhleth yw un o nifer o grwpiau blaenoriaeth a wasanaethir gan y Gronfa. Byddwn yn parhau i gefnogi'r grŵp hwn o ddefnyddwyr drwy'r Gronfa yn 2025-26. Fodd bynnag, dylid nodi mai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sy'n gyfrifol yn y pen draw am bennu blaenoriaethau yn eu rhanbarthau.

O drafodaethau gyda'n partneriaid rhanbarthol, mae prosiectau'r Gronfa Tai â Gofal ar y gweill ar gyfer plant ag anghenion cymhleth yn 2025-26 a thu hwnt, a byddwn yn asesu'r ceisiadau hyn ar ôl iddynt gael eu cwblhau a'u cyflwyno. Byddwn hefyd yn parhau i gysylltu â thîm y Gronfa Integreiddio ac Ailgydbwyso Cyfalaf i sicrhau y manteisir i'r eithaf ar y ddwy ffrwd ariannu er mwyn cyflawni ar gyfer y grŵp blaenoriaeth hwn.

Mae gan y Gronfa gyllideb flynyddol o £70m y flwyddyn tan 2026-27. Mae gan y gronfa dair blaenoriaeth ariannu, ac un ohonynt yw cefnogi prosiectau a fydd yn dileu elw o ofalu am blant sy'n derbyn gofal a bydd yn cefnogi twf darpariaeth gofal preswyl nid-er-elw i blant. Fel rhan o'u Cynlluniau Cyfalaf Strategol, gofynnir i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol nodi prosiectau sy'n cefnogi'r agenda dileu elw, a fydd yn sail i'r gofyniad cyllido ar gyfer 2025-27. Wedyn, gellir ystyried hyn ochr yn ochr â'r blaenoriaethau eraill y mae'r gronfa'n eu cefnogi.

Mae Gwasanaethau Plant Awdurdodau Lleol yn dweud wrthym ei bod yn ymddangos bod anghenion cymhleth yn codi'n amlach nag erioed o'r blaen gyda phlant sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Oherwydd prinder, bydd y plant hyn yn aml yn derbyn gofal y tu allan i'r ardal neu y tu allan i Gymru mewn darpariaeth breifat gostus. Felly, mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu llety i blant ag anghenion cymhleth, ac yn ymarferol, mae hyn hefyd yn cefnogi'r agenda dileu elw ac yn sicrhau bod plant yn cael gofal yn nes at adref.

## 4.3 Dileu Elw Preifat

*Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu} Dileu elw preifat o ofalu am blant sy n derbyn gofal–*

Dadansoddiad o'r ymrwymiad o £68m yn ystod 2022-23, 2023-24 a 2024-25)

• Dyraniadau a gwariant fesul blwyddyn

• Allbynnau / lleoliadau newydd fesul awdurdod lleol ar ddiwedd y cyfnod o dair blynedd

**Ymateb:**

| Dadansoddiad Blynyddol o'r ymrwymiad o £68m | | | |
|---|---|---|---|
| | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
| Dileu Elw | £10m | £16m | £20m |
| Diwygio Radical | £3m | £10m | £9m |
| **Cyfanswm** | **£13m** | **£26m** | **£29m** |

Fel y nodwyd yn y papur tystiolaeth a gyflwynwyd ar gyfer ymarferiad y llynedd yn 2022-23 gofynnwyd i awdurdodau lleol gyflwyno ceisiadau tair blynedd am gyllid (2022-23 a 2024-25) i'w helpu i gyflawni'r ymrwymiad i ddileu elw a'u helpu i leihau nifer y plant mewn gofal a chefnogi plant sy'n derbyn gofal, a'u teuluoedd. Rhannwyd y cyllid ar draws dau grant ar gyfer hyn – y grant dileu elw a'r grant diwygio radical.

Cafodd ceisiadau eu hasesu gan swyddogion a'u defnyddio i bennu dyraniad y £68m dros y tair blynedd i awdurdodau lleol yng Nghymru. Roedd y ceisiadau'n canolbwyntio'n glir ar adeiladu darpariaeth gofal preswyl a maeth mewnol neu nid-er-elw, ar symud plant allan o ofal preswyl yn ôl i leoliad teulu, ar ddarparu gwasanaethau lleol wedi'u dylunio, gan gynnwys darpariaeth arbenigol i blant ag anghenion mwy cymhleth ac, yn anad dim, ar wella canlyniadau i blant. Dyma rai enghreifftiau o'r mathau hyn o gynigion a gafwyd:

- Gwell cymorth i ofalwyr maeth, gan gynnwys datblygu gwasanaethau cefnogi arbenigol.
- Gwella'r ystod o ddewisiadau gofal maeth i blant.
- Mwy o recriwtio ac asesu gofalwyr maeth awdurdodau lleol.
- Lleoliadau maeth Camu i Lawr.
- Adeiladu darpariaeth a gwytnwch gofal preswyl mewnol, gan gynnwys uwchsgilio staff ac ymarferwyr awdurdodau lleol.
- Datblygu gwasanaethau seibiant byr mewnol.
- Trosi Lleoliadau gyda Rhieni yn Orchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig.
- Datblygu/Ehangu Timau Cymorth mewn Argyfwng.

- Diddymu Gorchmynion Gofal.

Yn 2022-23 a 2023-24, cafodd y cyllid a ddyrannwyd ei wario'n llawn ar y gweithgareddau hyn i gefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddileu elw. Yn ddiweddar, mae swyddogion wedi cwblhau cyfarfodydd monitro gyda phob un o'r 22 awdurdod lleol i wirio'r cynnydd presennol, a rhagwelir y bydd cyllid yn cael ei ddefnyddio'n llawn unwaith eto yn 2024-25.

O ran allbynnau, defnyddiwyd cyllid ar gyfer amrywiaeth o ddibenion unigol o ystyried cynlluniau awdurdodau lleol unigol mewn perthynas â dileu elw. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf wedi defnyddio cyllid er mwyn cefnogi eu darpariaeth gofal maeth a gofal preswyl yn eu hardaloedd. Yn benodol, mae'r cyllid wedi cefnogi costau staffio sy'n gysylltiedig â datblygu darpariaeth breswyl fewnol newydd i awdurdodau lleol, ac i gefnogi'r gwaith o ddatblygu eu gwasanaethau maethu gyda mentrau fel ehangu cymorth lles a chwnsela gofal maeth ac ehangu gwaith ymgysylltu i dargedu darpar ofalwyr maeth.

Bydd y cyllid hwn yn cael ei gynnal ar gyfer 2025-26.

## 4.4 Cefnogaeth ar gyfer Anghenion Cymhleth

*Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu} Cymorth arbenigol i blant ag anghenion cymhleth a allai fod ar gyrion y system ofal–*

### Dyraniadau a naratif ategol yn nodi'r allbynnau a'r canlyniadau a ddymunir ar gyfer 2025-26.

**Ymateb:**

Mewn ymateb i adborth gan bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal am yr angen am well cymorth iechyd meddwl a lles, mae swyddogion ar hyn o bryd yn gweithio ar fanyleb gwasanaeth drafft ar gyfer darparu cymorth therapiwtig i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Gwnaed gwaith ymgysylltu gyda'r sector, teuluoedd a gwahanol feysydd polisi i lywio'r fanyleb a bydd rhagor o waith ymgysylltu'n cael ei wneud â phlant a phobl ifanc. Nod manyleb y gwasanaeth fydd sicrhau darpariaeth gyfartal ac o ansawdd da ar gyfer cymorth therapiwtig i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal ledled Cymru. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu ddechrau 2025.

Gan ddefnyddio'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gweithio i'r model gofal 'Cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel, a rhoi cymorth therapiwtig i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal'. I gefnogi'r gwaith hwn, rydym wedi sefydlu Cymuned Ymarfer sy'n canolbwyntio ar y cyd ar ddatblygu gweithrediad pellach NYTH/NEST, ynghyd â'r model gofal

sy'n cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel. Mae'r Gymuned Ymarfer yn hwyluso'r broses o rannu arferion gorau ac yn annog dysgu ar y cyd ar draws rhanbarthau Cymru.

Cyfanswm y dyraniad rhagamcanol ar gyfer 2024-25 erbyn diwedd y flwyddyn yw £21.3m, ac rydym yn rhagweld y bydd yn debyg ar gyfer 2025-26. Rhennir y dyraniad fel a ganlyn:

Caerdydd a'r Fro - £2.7m

- Cymorth iawn, yr amser iawn, y person iawn
- Plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth – cymuned

Cwm Taf Morgannwg - £100,000

- Model Newid Systemig
- Cefnogi Newid ac Ymarfer Systematig

Gwent - £3.1m

- Iechyd a Datblygiad Emosiynol Plant
- Ymyrraeth Gynnar a Chadernid i Blant

Gogledd Cymru - £10.4m

- Ymyrraeth gynnar
- Gwasanaethau dychwelyd ac atal
- Meithrin gwytnwch teuluoedd i atal problemau rhag dwysáu
- Cymorth preswyl dwys i blant ag anghenion cymhleth
- Cymorth arbenigol i blant ag anghenion cymhleth / arbenigol
- Timau cymorth dwys i blant ag anghenion cymhleth

Powys – £754k

- Ar gyrion gofal
- Powys Ynghyd

Gorllewin Morgannwg - £2.7m

- Rhaglenni Plant a Phobl Ifanc

Gorllewin Cymru - £1.4m

- Tyfu'ch Bwyd eich Hunan

- Ar gyrion gofal
- Anghenion cymhleth.
- Y Blynyddoedd Cynnar
- Iechyd emosiynol a llesiant Plant a Phobl Ifanc.

## 4.5 Y Gronfa Gofal Plant

*Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu}Ariannu gofal plant i fwy o deuluoedd lle mae rhieni mewn addysg a hyfforddiant neu ar gyrion gwaith–*

Dyraniadau a naratif ategol yn nodi'r allbynnau a'r canlyniadau a ddymunir ar gyfer 2025-26.

**Ymateb:**

Ym mis Ebrill 2022, ehangwyd cymhwysedd ar gyfer y Cynnig Gofal Plant i Gymru i gynnwys rhieni mewn addysg a hyfforddiant. Mae ehangu'r Cynnig yn caniatáu i rieni gael mynediad at y rhaglen os ydynt

- Wedi cofrestru ar gwrs Addysg Uwch (AU) israddedig neu ôl-raddedig sy'n para o leiaf 10 wythnos. Mae hyn yn cynnwys cyrsiau a ddarperir drwy drefniant dysgu o bell.

- Wedi cofrestru ar gwrs sy'n para o leiaf 10 wythnos ac sy'n cael ei gyflwyno mewn sefydliad Addysg Bellach.

Nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ehangu cymhwysedd. Byddwn yn canolbwyntio yn 2025-26 ar godi ymwybyddiaeth o gymhwysedd a symleiddio systemau.

## 4.6 Ehangu'r Ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar

*Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu}Mynd ati n raddol i ehangu r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar er mwyn cynnwys pob plentyn dwyĄwydd oed[gan roi pwyslais penodol ar gryfhau r ddarpariaeth Gymraeg–*

Dyraniadau a naratif ategol yn nodi'r allbynnau a'r canlyniadau a ddymunir ar gyfer 2025-26.

Gofal Plant Dechrau'n Deg: Amcangyfrif o'r plant 2 flwydd oed sydd ar hyn o bryd yn cael y cynnig 15 awr fesul awdurdod lleol.

## Gofal Plant Dechrau'n Deg: amserlen ar gyfer cyflwyno'r cynllun hyd 2026 ar gyfer pob awdurdod lleol, o'r llinell sylfaen bresennol.

**Ymateb:**

Mae gofal plant Dechrau'n Deg yn cynnig 12.5 awr o ddarpariaeth gofal plant o ansawdd uchel i blant dwy flwydd oed.

Mae'r tabl isod yn nodi nifer y plant a gyrhaeddwyd ar bob cam o'r broses o ehangu Dechrau'n Deg.

| Cam Rhaglen Ehangu a Dechrau'n Deg | Cynnig lleoedd gofal plant | Niferoedd Gofal Plant Cronnus |
|---|---|---|
| Rhaglen Dechrau'n Deg graidd (Mae hyn bellach yn cynnwys cam 1 yr ehangiad) | 9137<br>(Nodyn 1) | 9137 |
| Cam 2 yr Ehangiad | 5522<br>(Nodyn 2) | 14659 |

**Nodiadau:** Sylwch mai amcangyfrifon yw'r ffigurau hyn – mae dadansoddwyr wedi defnyddio'r amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn diweddaraf sydd ar gael (ar gyfer 2023) – dyma'r amcangyfrif agosaf y gellir ei gyfrifo.

- **Nodyn 1** – Ffynhonnell: Ystadegau swyddogol Dechrau'n Deg. Ewch i: https://statscymru.llyw.cymru/v/QTad
- **Nodyn 2** - Mae Cam 2 yn dal i gael ei gyflwyno felly mae dadansoddwyr wedi defnyddio'r ffigur targed o ran y lleoedd a ariennir sydd ar gael ar gyfer Cam 2 yr ehangid (5,522).
- Mae union nifer y lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg a fydd yn cael eu cynnig ym mhob blwyddyn yn debygol o fod yn uwch. Yn ystod y flwyddyn gyntaf ers ei gyflwyno (2023-24), y targed oedd 4,919 ond nifer y lleoedd gofal plant a gynigiwyd oedd 6,885. Ewch i: https://www.llyw.cymru/dechraun-deg-ebrill-2023-i-fawrth-2024

Mae'r tablau isod yn dadansoddi'r wybodaeth hon fesul ALl.

| | |
|---|---|
| Ynys Môn | 176 |
| Gwynedd | 297 |
| Conwy | 258 |

| | |
|---|---|
| Sir Ddinbych | 209 |
| Sir y Fflint | 286 |
| Wrecsam | 361 |
| Powys | 222 |
| Ceredigion | 142 |
| Sir Benfro | 298 |
| Sir Gaerfyrddin | 509 |
| Abertawe | 843 |
| Castell-nedd Port Talbot | 577 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 377 |
| Bro Morgannwg | 326 |
| Caerdydd | 1060 |
| Rhondda Cynon Taf | 736 |
| Merthyr Tudful | 340 |
| Caerffili | 598 |
| Blaenau Gwent | 359 |
| Torfaen | 322 |
| Sir Fynwy | 68 |
| Casnewydd | 773 |
| **Cymru** | **9,137** |

Nifer targed y lleoedd gofal plant ar gyfer lleoliadau gofal plant ar gyfer cyfnod 2 y cynnig Dechrau'n Deg 2024-25

| | |
|---|---|
| Ynys Môn | 109 |
| Blaenau Gwent | 163 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 241 |
| Caerffili | 379 |

| | |
|---|---|
| Caerdydd | 747 |
| Sir Gaerfyrddin | 279 |
| Ceredigion | 80 |
| Conwy | 163 |
| Sir Ddinbych | 156 |
| Sir y Fflint | 214 |
| Gwynedd | 161 |
| Merthyr Tudful | 184 |
| Sir Fynwy | 85 |
| Castell-nedd Port Talbot | 282 |
| Casnewydd | 413 |
| Sir Benfro | 187 |
| Powys | 133 |
| Rhondda Cynon Taf | 499 |
| Abertawe | 443 |
| Torfaen | 194 |
| Bro Morgannwg | 185 |
| Wrecsam | 224 |
| **Cymru** | **5,522** |

Bydd Cam 3 yr ehangu'n golygu ehangu'r ddarpariaeth gofal plant ymhellach o'r sefyllfa a gyrhaeddwyd ar ddiwedd Cam 2 (diwedd Mawrth 2025) nes bydd darpariaeth ar gael i bob plentyn dwyflwydd oed.

Nid yw'n bosibl darparu amserlen benodol ar gyfer Cam 3 yr ehangu. Dechreuodd pob Awdurdod Lleol mewn sefyllfa wahanol ac maent yn wynebu heriau gwahanol wrth roi'r rhaglen ehangu ar waith. Rydym yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol a'r sector gofal plant i sicrhau ein bod yn ehangu'r ddarpariaeth mewn modd cynaliadwy a bod y seilwaith priodol ar waith i gefnogi darpariaeth effeithiol.

Er mwyn cyfrannu at gynnydd pellach yn y maes hwn, fe wnaethom gomisiynu pob awdurdod lleol i baratoi cynlluniau ehangu ar gyfer Cam 3 y drefn gyflwyno –

ar gyfer gweddill ardaloedd eu hawdurdodau lleol. Mae swyddogion yn adolygu'r cynlluniau hyn ar hyn o bryd gan drafod â'r Awdurdodau Lleol. Bydd y cynlluniau hyn ar gyfer y cam nesaf yn eu helpu i fynd ati'n gyflym ac yn effeithiol i ehangu ymhellach pan fydd cyllid ar gael.

## 4.7 Dechrau'n Deg

*Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu} Dechrau n Deg ,y pedwar hawl«←*

### Dyraniadau a naratif ategol yn nodi'r allbynnau a'r canlyniadau a ddymunir ar gyfer 2025-26 (refeniw a chyfalaf).

**Ymateb:**

Mae Dechrau'n Deg wedi cael ei ariannu drwy'r Grant Plant a Chymunedau sy'n ceisio mynd i'r afael ag anghenion cymorth y plant a'r oedolion mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas drwy amrywiaeth o ddulliau ymyrryd yn gynnar, atal, a chefnogi. Nod y rhaglenni yn y grant hwn yw lliniaru neu ddileu anfanteision pobl agored i niwed i'w galluogi i gael yr un cyfleoedd mewn bywyd ag eraill, a chyfrannu drwy hynny at Gymru sy'n fwy cyfartal. Dyraniad y Grant Plant a Chymunedau ar gyfer 2025-26 yw £19.583M sy'n ariannu wyth rhaglen gysylltiedig sy'n cael eu cyflwyno gan awdurdodau lleol. Yn y tabl yn 1.1 uchod dangosir y swm ychwanegol o £20m yn BEL 0310, mae hyn yn cynnwys elfen o gyllid sy'n ymwneud â chynnydd mewn cyllid ar gyfer addysg feithrin a Dechrau'n Deg. Bydd hyn yn cael ei ddyrannu i linellau perthnasol y BEL maes o law.

Rydym yn parhau i fuddsoddi'n Dechrau'n Deg, sy'n cynnwys pedair elfen graidd: gofal plant o ansawdd wedi'i ariannu'n llawn, cymorth magu plant, cymorth dwys i ymwelwyr iechyd, a chefnogaeth ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu (SLC). Fe wnaethom ragori ar ein targed cyflawni yn 2023-24, gan sicrhau bod y rhaglen yn rhoi cymorth i dros 41,000 o blant a theuluoedd.

Rydym newydd ddechrau ar werthusiad tair blynedd o'r Rhaglen Dechrau'n Deg, sy'n cynnwys gwerthusiad effaith ar Dechrau'n Deg. Rydym hefyd yn parhau i weithio gydag Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd i gyflwyno data Dechrau'n Deg ar lefel unigol i'r gronfa ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) ac rydym yn bwriadu defnyddio'r data hwn ar gyfer y dadansoddiad effaith. Rydym yn bwriadu dangos canlyniadau tymor hir y rhaglen Dechrau'n Deg i helpu'r rheini yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.

Rhaglen Gyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar

Rhoddwyd y Rhaglen Cyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar gwerth £70m ar waith ym mis Hydref 2022 a bydd yn para tan Wanwyn 2025 (gan gynnwys y tair blynedd ariannol 2022-23, 2023-24 a 2024-25). Pwrpas y cyllid cyfalaf hwn yw cefnogi meini prawf cyllido Llywodraeth Cymru ar gyfer y tymor hwn a chynnal a gwella seilwaith gofal plant newydd a phresennol (gan gynnwys Dechrau'n Deg).

Mae dwy elfen i'r rhaglen: Grantiau bach a gwaith adeiladau mawr ag arian cyfalaf. Mae'r Cyllid Grantiau Bach yn cael ei ddyrannu i awdurdodau lleol er mwyn i bob darparwr gofal plant a chwarae cofrestredig (gan gynnwys lleoliadau Dechrau'n Deg) allu cyflwyno ceisiadau ar gyfer mân brosiectau cyfalaf. Mae'r cyllid Cyfalaf Mawr yn agored i awdurdodau lleol er wyn gwella, ehangu a chryfhau seilwaith gofal plant (gan gynnwys lleoliadau Dechrau'n Deg) gan ystyried eu hasesiad digonolrwydd gofal plant.

Nod y rhan fwyaf o'r ceisiadau am gyllid cyfalaf mawr a wnaed gan awdurdodau lleol yn ystod y rhaglen bresennol yw cefnogi darpariaethau Dechrau'n Deg.

Bydd gan y Rhaglen Gyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar ddyraniad cyllideb o £25m ar gyfer blwyddyn ariannu 2025-26. Bydd y Rhaglen yn parhau i gefnogi'r seilwaith Dechrau'n Deg presennol gan roi pwyslais penodol ar ehangu Cam 3.

# 5. Gofal Cymdeithasol i Blant

- Gweithlu Gofal Cymdeithasol i Blant: Unrhyw ddyraniadau sy'n gysylltiedig â chymorth ychwanegol i awdurdodau lleol i fynd i'r afael ag ansefydlogrwydd y gweithlu ym maes gofal cymdeithasol plant, fel cyfraddau swyddi gwag a defnyddio staff asiantaeth.

- Cynllun Grantiau Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Cyfanswm y Cynllun a dadansoddiad o'r holl grantiau sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc.

- Cronfa Newid Plant sydd â Phrofiad o fod mewn Gofal: Cyfanswm y Gronfa a dadansoddiad o'r holl ddyraniadau.

**Ymateb:**

## 5.1 Gweithlu Gofal Cymdeithasol Plant

Fel llywodraeth, rydym yn dal i weithio i greu sylfaen gadarn i adeiladu ein gweithlu gofal cymdeithasol arni. Nod ein cyllid sylweddol o tua £28m drwy Gofal Cymdeithasol Cymru yw arwain a chefnogi gwelliannau mewn gofal cymdeithasol drwy recriwtio a chadw gweithlu proffesiynol o ansawdd uchel. Mae'r meysydd gwaith gyda chyllid wedi'i ddyrannu sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol i blant yn cynnwys:

Buddsoddiad o £10m dros dair blynedd yn y bwrsari i weithwyr cymdeithasol i sicrhau bod y radd mewn gwaith cymdeithasol yn gyraeddadwy yn ariannol, ac yn yrfa ddeniadol.

Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r grant hwn ar gael i gefnogi awdurdodau lleol ac mae'n cynnig cyfleoedd i ariannu rhaglenni ardderchog fel y 'cynllun datblygu eich hun' sy'n cefnogi cyflogaeth am dâl a

hyfforddiant gwaith cymdeithasol wedi'i ariannu. Bu cynnydd blynyddol yn y nifer sy'n manteisio ar y cynllun hwn.

I gydnabod y rôl bwysig y mae awdurdodau lleol yn ei chwarae o ran darparu gwasanaethau cymdeithasol craidd, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid rheolaidd i'r sector ar ffurf grant Gweithlu a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Mae'r meini prawf ar gyfer defnyddio'r grant wedi'u gosod yn fras. Mae awdurdodau lleol wedi gallu defnyddio'r cyllid i gefnogi codiadau cyflog, ond hefyd ar gyfer ymyriadau eraill sydd â'r nod o gefnogi darpariaeth gwasanaethau gofal cymdeithasol cynaliadwy i sicrhau eu bod mewn sefyllfa well i ateb galw cynyddol neu annisgwyl. Y dyraniad i awdurdodau lleol ar gyfer 2025-26 yw £45m.

Daw'r rhaglenni gwaith cadarnhaol hyn gyda'r realaeth y bydd yn cymryd amser i deimlo'r effaith yn y gweithlu, ond mae hyn yn addawol ar gyfer dyfodol gofal cymdeithasol plant.

## 5.1 Cynllun Grantiau Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy

Cyfanswm gwerth y cyllid drwy'r Cynllun Grantiau Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy yn 2025-26 yw £9,301,738, ac mae £2,912,429 ohono'n ymwneud â grantiau sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc

Dyma ddadansoddiad o'r grantiau hyn:

| Enw'r Sefydliad | Teitl y Prosiect – a nod y prosiect | Dyfarniad dangosol 2025-26 |
|---|---|---|
| Gweithredu dros Blant | Skills PLUS (Skills+): Gwasanaeth ar gyfer pobl ifanc 14-24 oed sydd â phrofiad o fod mewn gofal yw Skills+. Bydd y prosiect yn darparu Llwybrau pwrpasol sy'n helpu pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal i bontio i fod yn oedolyn, drwy amrywiaeth o ymyriadau cysylltiedig sydd wedi'u cynllunio'n benodol i leihau eu gwendidau a rhoi'r gwytnwch a'r sgiliau/adnoddau iddynt i'w helpu i ymdopi'n gadarnhaol â heriau byw'n annibynnol. | £599,747 |
| Cymorth i Fenywod Cyfannol | Ar Trac: Bydd Ar Trac yn cefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi profi cam-drin domestig neu wedi bod yn dyst i hynny, ac sy'n dangos anawsterau o ran eu perthynas â'u teulu a'u cyfoedion. Drwy | £619,762 |

| | | |
|---|---|---|
| | fynd i'r afael â'r anawsterau hyn ac adeiladu ar gryfderau yn ystod plentyndod, nod Ar Trac yw lleihau effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig a gwella llesiant corfforol a meddyliol yn nes ymlaen mewn bywyd.<br><br>Mae'r prosiect yn cael ei ddarparu gan asiantaethau cam-drin domestig lleol sydd â chyfoeth o brofiad a dealltwriaeth o'u cymunedau lleol, ac a fydd yn gallu addasu'r prosiect yn lleol i fodloni anghenion plant a phobl ifanc yn well. | |
| Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig Cymru | Cefnogi Plant a Phobl Ifanc Du ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru: Nod y gwasanaeth yw gwella canlyniadau llesiant Plant a Phobl Ifanc Du ac Ethnig Leiafrifol sydd ag anghenion gofal cymdeithasol drwy wasanaeth cymorth sy'n ystyriol o hil, ffydd a diwylliant, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n seiliedig ar hawliau, gan adeiladu ar waith Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig Cymru gyda Phlant a Phobl Ifanc Du ac Ethnig Leiafrifol yn Abertawe.<br><br>Mae'r gwasanaethau'n wasanaeth atgyfeirio i Blant a Phobl Ifanc Du a Lleiafrifoedd Ethnig o ddim i 25 oed sydd ag anghenion cymorth 'ychwanegol' neu 'luosog', gan weithio'n uniongyrchol gyda nhw drwy ymyrraeth gynnar ac atal i gyflawni canlyniadau llesiant penodol: sicrhau hawliau, gwella iechyd corfforol a meddyliol, cefnogi'r broses o bontio i fod yn oedolyn annibynnol, a diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod. | £138,552 |
| Sefydliad Lucy Faithfull | Cadw Plant yn Ddiogel rhag Cam-drin Rhywiol – addysg, hyfforddiant ac adnoddau cyhoeddus i wella gallu rhieni, gofalwyr a'r rheini sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd i atal niwed rhywiol, a chymryd camau priodol os oes ganddynt bryder | £94,612 |
| Sefydliad Lucy Faithfull | Ymyrraeth gynnar i deuluoedd agored i niwed neu sydd mewn perygl: prosiect atal a gweithredu'n gynnar ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin plant yn rhywiol: Cadw plant yn ddiogel rhag cam-drin rhywiol – addysg, hyfforddiant ac adnoddau cyhoeddus i wella gallu rhieni, gofalwyr a'r rheini sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd i atal niwed rhywiol, a chymryd camau priodol os oes ganddynt bryder | £97,153 |

| | | |
|---|---|---|
| Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol | Rhaglen Eiriolaeth Rhieni: Cefnogi cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu cymorth ymyriadau teuluol gyda'r nod o leihau nifer y plant sy'n ymuno â'r system ofal yng Nghymru. Prif nod y prosiect yw ymyrraeth ataliol a sicrhau bod hawliau'r plentyn yn cael eu cynnal yn llawn. | £297,399 |
| Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol | Project Unity: Torri'r cylch o blant mamau sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cael eu rhoi mewn gofal, ac atal plant rhag bod yn destun prosesau diogelu plant. Drwy ddarparu cymorth cofleidiol dwys a meithrin rhwydweithiau cymorth gan gymheiriaid. | £343,707 |
| Platfform (yn flaenorol - Gofal ) | Prosiect Pobl Ifanc 13-16 oed: Bydd Prosiect Pobl Ifanc Platfform, mewn cydweithrediad â Vibe Youth a Barod, yn darparu lle diogel i bobl ifanc 13-16 oed gael saib, anadlu a chysylltu. Drwy ddarparu rhaglen llesiant 12 wythnos, cymorth gan gymheiriaid a chymorth un-i-un, bydd cyfle i bobl ifanc ystyried beth mae iechyd meddwl a llesiant yn ei olygu iddyn nhw. Bydd cyfle i bobl ifanc gwrdd ag eraill sy'n wynebu heriau tebyg ac i rannu straeon am adfer a strategaethau dydd i ddydd ar gyfer llesiant. Bydd y prosiect yn rhoi cyfle i bobl ifanc hyfforddi i fod yn fentoriaid cymheiriaid ac yn rhoi llwyfan i bobl ifanc ddylanwadu ar gyfeiriad y prosiect. | £362,397 |
| Y Rhwydwaith Maethu | Cymunedau Maethu: Mae Cymunedau Maethu yn ddull system gyfan o gefnogi plant sy'n derbyn gofal a'u teuluoedd maeth ar hyd a lled Cymru. Wrth ei wraidd mae model arloesol, cydgynhyrchu, sy'n hwyluso dull rhannu pŵer o ddylunio, darparu a gwerthuso rhaglenni. Bydd y prosiect yn grymuso'r gymuned faethu i wella canlyniadau llesiant i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal o fewn y fframwaith llesiant cenedlaethol | £279,429 |
| Whizz-Kidz | Moving On: Gwella bodlonrwydd a hapusrwydd bywyd pobl ifanc sy'n defnyddio cadair olwyn yng Nghymru drwy raglenni sgiliau chwaraeon a seiliedig ar symudiadau mewn lleoliadau iechyd ac addysg. | £79,671 |

## 5.3 Cronfa Newid Plant sydd â Phrofiad o fod Mewn Gofal

| | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflwyno Eiriolaeth Rhieni | £88,400 | £506,000 | £506,000 | £506,000 | **£1,606,400** |
| Cynigion am Wasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | £340,042 | £638,639 | £669,492 | | **£1,648,173** |
| Cyllid Ychwanegol i Maethu Cymru | £181,048 | £1,890,829 | £2,074,999 | £199,756 | **£4,346,632** |
| Prosiect Camu i Fyny a Chamu i Lawr y Rhwydwaith Maethu | | £263,300 | £301,300 | £314,800 | **£879,400** |
| Prosiect Maethu Lles | £225,129 | £284,170 | £269,062 | £272,753 | **£1,051,114** |
| Cyfanswm Cost | £834,619 | £3,682,938 | £3,920,853 | £1,293,309 | £9,731,719 |

# 6. Iechyd Plant

## Dyraniadau yng Nghyllideb Ddrafft 2025-25 a'r sefyllfa ddiweddaraf o ran cyllid ar gyfer y canlynol:

▪ Mynd i'r afael ag amseroedd aros pediatrig y GIG

▪ Iechyd y cyhoedd fel y mae'n berthnasol i blant a phobl ifanc, gan gynnwys brechu.

▪ Strategaeth gordewdra

▪ Gwasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc, a gwasanaethau i gefnogi iechyd meddwl amenedigol a pherthnasoedd rhwng rhieni a phlant

▪ Gwasanaethau anhwylderau bwyta

▪ Atal hunanladdiad fel y mae'n berthnasol i blant a phobl ifanc

▪ Camddefnyddio sylweddau, gan gynnwys fepio ymysg plant a phobl ifanc

▪ Gwasanaethau niwroddatblygiadol

▪ Unrhyw newidiadau yng nghyllid Llywodraeth Cymru sy'n deillio o'r trefniadau newydd ar gyfer iechyd meddwl yn Uned Ddiogel Hillside. *Yn ddiweddar[fe wnaethoch chi gadarnhau n ysgrifenedig y bydd Cytundeb Lefel Gwasanaeth ,CLG«ar waith rhwng Hillside a Bae Abertawe o Ās Chwefror ₉₇₉ 2ymlaen )a fydd yn galluogi dull mwy cyfannol o ymdrin ag anghenion iechyd meddwl y bobl ifanc sy n byw yn Hillside–*

**Ymateb:**

### 6.1 Mynd i'r afael ag Amseroedd Aros Pediatrig y GIG

Gellir rhoi gwybod am yr holl amseroedd aros Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth, amseroedd aros Diagnostig a therapi yn ôl oedran wedi'u rhannu i grwpiau sero i 16 oed ac 17 oed ac iau, 18 oed ac 18 oed a hŷn.

Mae'r data hwn wedi dangos gwelliant o ran mynediad at wasanaethau gofal pediatrig wedi'u cynllunio.

- **Gostyngodd amseroedd aros Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth bediatrig o dros ddwy flynedd** o 5,043 ddiwedd mis Ebrill 2022, gan ddechau adfer i 1,154, **gwelliant o 77 y cant** yn fwy na chyfanswm y gostyngiad oedran.

- Bu gostyngiad yn nifer yr arbenigeddau lle mae rhestrau aros o fwy na dwy flynedd o 26 ym mis Ebrill 2022 i 13 ym mis Medi 2024.

- Bu gwelliant ym mhob bwrdd iechyd ac mae hyn yn amrywio o 38 y cant ym Mhrifysgol Betsi Cadwaladr i 98 y cant ym Mae Abertawe.

- **Cleifion allanol pediatrig yn aros dros 52 wythnos** – yn gyffredinol bu gwelliant o 33 y cant ym mis Medi 2024 o'i gymharu â mis Ebrill 2022. Mae gwelliant o 74 y cant o ran y gostyngiad yn nifer y cleifion allanol sy'n aros dros ddwy flynedd.

- **Amseroedd aros o fwy nag 8 wythnos am ddiagnosis pediatrig** - wedi cynyddu'n gyffredinol o 127 arhosiad gyda'r effaith fwyaf yng Nghaerdydd a'r Fro. Ond, fel canran o arosiadau dros wyth wythnos mae wedi gostwng o 37 y cant i 35 y cant.

- **Aros yn fwy na 14 wythnos am therapi pediatrig** – bu gwelliant cyffredinol o 69 ym mis Medi 2024 o'i gymharu â mis Ebrill 2022, dangosodd pum bwrdd iechyd welliant, a dim ond Aneurin Bevan a Hywel Dda gynyddodd eu hamseroedd aros dros 14 wythnos.

- Mae rhwydwaith Pediatrig newydd yn cael ei sefydlu gyda rheolwr rhwydwaith newydd yn y swydd.

- Bydd bwrdd comisiynu ar y cyd newydd yn gallu darparu gwybodaeth fwy penodol am fynediad at lawdriniaethau pediatrig arbenigol yn Lloegr. Dim ond manylion darparwyr yng Nghymru sydd gennym.

## Aros am asesiadau niwrowahaniaeth

Ceir tystiolaeth o'r twf esbonyddol yn y galw am asesu niwrowahaniaeth yn yr *Adolygiad o'r Galw, Capasiti a Chynllun Gwasanaethau Niwroddatblygiadol: Adroddiad Llawn,* (Hottom a Jones, 2022).

Er mwyn cyfrannu at y Rhaglen Gwella Gwasanaethau Niwroamrywiaeth, cynhaliodd Gweithrediaeth y GIG adolygiad o'r gwasanaethau

niwroddatblygiadol i blant a ddarparwyd gan Fyrddau Iechyd Lleol yn 2023, a rhannwyd y canfyddiadau ym mis Chwefror 2024

Mae'r *Adolygiad Cymru Gyfan o Wasanaethau Niwroddatblygiadol i Blant a Phobl Ifanc;* (Gweithrediaeth y GIG, 2024) yn nodi tystiolaeth o ymdrechion gan wasanaethau niwroddatblygiadol plant i reoli'r galw. Fodd bynnag, mae cynnydd parhaus mewn atgyfeiriadau wedi arwain at sefyllfa gritigol gan wneud gwasanaethau'n fwy bregus.

Ym mis Medi 2024, roedd 20,770 o blant ar y rhestr aros. Mae'r rhagamcanion dangosol a ddarparwyd gan Weithrediaeth y GIG yn dangos tuedd anghynaladwy sy'n peri pryder. Gan ddefnyddio data galw a gweithgarwch hyd at fis Mawrth 2024, mae'r modelau'n awgrymu y rhagwelir y bydd y nifer hwn yn parhau i gynyddu ar yr un raddfa, neu ar gyfradd hyd yn oed uwch oni cheir ymyrraeth bellach.

Er mwyn mynd i'r afael â'r amseroedd aros hiraf ledled Cymru, mae'r Cabinet wedi cytuno i ryddhau hyd at £3m i gefnogi Byrddau Iechyd i gyflawni cynlluniau lleihau rhestrau aros yn ystod gweddill 2024-25. Mae Byrddau Iechyd wedi cyflwyno cynlluniau a byddant yn derbyn cyllid yn dibynnu ar ba mor debygol ydynt o gyflawni'r cynlluniau. Anfonwyd llythyrau dyrannu at y Byrddau Iechyd ym mis Tachwedd 2024.

Y Camau sy'n Cael eu Cymryd:

- Bydd Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth y GIG yn monitro'r ddarpariaeth yn ofalus.
- Mae cyfarfodydd mannau cyswllt wythnosol yn cael eu trefnu gyda phob Bwrdd Iechyd i dracio cynnydd, trafod heriau ac ati.
- Bydd gofyn i Fyrddau Iechyd gyflwyno adroddiadau data misol ar weithgarwch gwirioneddol.
- Cysylltwyd â phob Bwrdd Iechyd, rhoddwyd gwybod iddynt am y trefniadau monitro a gofynnwyd iddynt ddarparu cyswllt cyfrifol a enwir.
- Bydd cyllid ond yn cael ei ryddhau i'r Byrddau Iechyd ar ôl cael cadarnhad eu bod wedi'i ddarparu.

Mae risgiau ynghlwm o ran cyflawni, a allai olygu na fydd yr effaith a ragwelir yn cael ei chyflawni'n llawn. Mae'r risgiau'n cynnwys prosesau caffael ar gyfer contractwyr allanol, absenoldebau staff, argaeledd staff medrus ac ati. Rhagwelir hefyd y bydd y galw am atgyfeiriadau'n parhau i gynyddu yn ystod y cyfnod hwn, felly mae'r darlun cyffredinol yn annhebygol o newid yn sylweddol o ran lefel yr

her a nifer y plant sy'n aros. Y teuluoedd hynny sydd wedi bod yn aros hiraf fydd yn teimlo'r effaith gadarnhaol fwyaf.

Dim ond rhan o'r ateb yw hyn ac mae angen atebion tymor hirach i fynd i'r afael â'r ôl-groniad presennol ac ailgynllunio llwybrau.

Mae rhagor o waith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r galw parhaus am atgyfeirio ac amseroedd aros h.y. y Digwyddiad Cynllunio Carlam ar 27 a 28 Tachwedd 2024. Disgwylir i Fyrddau Iechyd ymgysylltu â'r gwaith newydd hwn ochr yn ochr â'r trefniadau presennol o dan y Rhaglen Gwella Niwroamrywiaeth.

## 6.2 Iechyd y Cyhoedd

### Brechiadau

Cyfrifoldeb sefydliadau'r GIG yw rheoli'r cyllid a sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n briodol i ddarparu cynnig brechu teg i bawb sy'n gymwys, yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol.

Rhaglen Frechu Cymru (Gweithrediaeth y GIG) sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr holl raglenni'n cael eu cynllunio a'u cyflwyno yn unol ag egwyddorion ac uchelgeisiau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol. Bydd cynnydd o £2m yn y cyllid ar gyfer rhaglenni brechu ar gyfer 2025-26.

### Rhaglen Plant Iach Cymru

Rhaglen Plant Iach Cymru (HCWP) yw un o ymrwymiadau allweddol Llywodraeth Cymru, sy'n gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer byrddau iechyd i ddarparu rhaglen ymweliadau iechyd gyffredinol i bob teulu yng Nghymru.

Mae'r Rhaglen yn ymestyn o drosglwyddo gwasanaethau mamolaeth i'r blynyddoedd cyntaf yn yr ysgol, gyda gwasanaethau wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion unigol. Mae'n chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o wella canlyniadau iechyd a hybu lles plant yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi data bob chwarter ar Raglen Hybu Iechyd Cymru ac mae'n disgwyl i fyrddau iechyd adolygu eu gweithrediadau a'u mecanweithiau darparu i sicrhau gwell darpariaeth ym mhob pwynt cyswllt.

Mae swyddogion yn edrych ar opsiynau i adolygu egwyddorion sylfaenol y rhaglen a'i chyfyngiadau presennol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi model gweithredu unedig newydd i ategu'r fframweithiau nyrsio presennol mewn ysgolion yng Nghymru. Bydd y model gweithredu'n ymestyn darpariaeth iechyd cyhoeddus gyffredinol rhaglen Plant Iach Cymru i bob plentyn oedran ysgol gorfodol, beth bynnag fo'u lleoliad. Bydd gan GIG Cymru ddwy flynedd i roi'r model ar waith yn llawn ledled Cymru.

Dechrau'n Deg a Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu

Mae Dechrau'n Deg yn cael ei ariannu drwy'r Grant Plant a Chymunedau. Dyraniad y Grant Plant a Chymunedau ar gyfer 2025-26 yw £179.583M sy'n ariannu wyth rhaglen gysylltiedig sy'n cael eu cyflwyno gan awdurdodau lleol. Mae plant a theuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn gymwys i gael lefel uwch o gymorth gan ymwelwyr iechyd. Mae hybu negeseuon allweddol ynghylch iechyd y cyhoedd a ffordd iach o fyw yn rhan allweddol o gymorth iechyd ychwanegol Dechrau'n Deg sy'n cael ei gynnig gan ymwelwyr iechyd a'r gweithlu ehangach.

Mae data darpariaeth Dechrau'n Deg ar gyfer 2023-24 yn dangos bod 41,328 o blant wedi elwa o wasanaethau Dechrau'n Deg, sef tua 35 y cant o'r plant dan bedair oed yng Nghymru ac mae 17 y cant yn uwch na 2022-23.

Yn ogystal â'r gefnogaeth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu ar gyfer plant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, rydym yn mabwysiadu dull strategol o ymdrin â lleferydd, iaith a chyfathrebu drwy'r cynllun cyflawni Siarad gyda Fi. Dyraniad y gyllideb ar gyfer hyn yn 2025-26 yw £1.1m (o BEL 0310).

## 6.3 Strategaeth Gordewdra

Rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach i fynd i'r afael â gorbwysau a gordewdra, gyda £4.042m yn cael ei ddyrannu i gefnogi rhaglenni a gweithgareddau, fel ein tri chynllun peilot Plant a Theuluoedd, a gwaith dull system gyfan ar draws ardaloedd yr holl fyrddau iechyd.

Sefydlwyd cynlluniau peilot Plant a Theuluoedd (gyda'r brand PIPYN) yng Nghaerdydd, Merthyr ac ar Ynys Môn. Mae'r cynlluniau peilot yn cynnwys 'ymyriad nyth' sy'n darparu cymorth un-i-un i deuluoedd â phlant ifanc (rhwng tair a saith mlwydd oed) sy'n byw gyda gordewdra. Gall teuluoedd hefyd gymryd rhan mewn digwyddiadau lleol rhad ac am ddim, sy'n cael eu cynnal mewn partneriaeth â thîm PIPYN, i fod yn egnïol a dysgu am fwyta'n iach. Mae'r rhaglen hefyd yn rhan o ddull systemau ehangach i ddarparu lleoliadau ac amgylcheddau iachach i blant ifanc a'u teuluoedd.

Mae timau dull gweithredu system gyfan ym mhob bwrdd iechyd lleol, dan arweiniad cenedlaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn gwreiddio dull gweithredu traws-sector ar lefel ranbarthol i alluogi canlyniadau cynaliadwy tymor hir.

## 6.4 Gwasanaethau Iechyd Meddwl

Rydym yn parhau i glustnodi cyllid iechyd meddwl ar gyfer y GIG ac yn 2025-26 bydd y cyllid hwn yn fwy na £820m, gan gynnwys cynnydd i ystyried y galw a phwysau chwyddiant, gan gynnal ein buddsoddiad mewn gwasanaethau iechyd meddwl. Rydym hefyd wedi parhau i fuddsoddi mewn datblygiadau fel 111 a phwyso 2 i ac opsiynau eraill yn lle derbyniadau sy'n elfennau allweddol o'n blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn buddsoddi £2.2m y flwyddyn yng Ngweithrediaeth y GIG ar y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl, sy'n darparu adnodd pwrpasol i GIG Cymru i sbarduno gwelliannau mewn perfformiad, ansawdd a diogelwch. Mae hyn yn rhan o'n rhaglen waith sylweddol i wella iechyd meddwl a llesiant, er enghraifft drwy ein Dull Ysgol Gyfan, NEST/NYTH a'n Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol.

Ar ôl cyhoeddi ein hadroddiadau cryno ar iechyd meddwl a lles a strategaethau atal hunanladdiad a hunan-niweidio, mae Llywodraeth Cymru'n parhau i ddatblygu'r strategaethau a'r cynlluniau cyflawni terfynol. Mae datganiad gweledigaeth pedwar yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl di-dor – yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn cael ei arwain gan anghenion ac yn cael ei arwain at y cymorth iawn y tro cyntaf, heb unrhyw oedi Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc, a gwasanaethau i gefnogi iechyd meddwl amenedigol.

Gan y bydd y strategaethau hyn yn pennu cyfeiriad polisi ar gyfer y 10 mlynedd nesaf, mae'n hanfodol eu bod yn ymgorffori'r safbwyntiau a ddarperir yn ystod yr ymgynghoriad ac yn adlewyrchu'r cyd-destun polisi ehangach y byddant yn gweithredu ynddo. I gyflawni hyn, rhagwelir y bydd y cyhoeddiad yn cyd-fynd â'r flwyddyn ariannol newydd rhwng 2025 a 2026.

Datblygwyd y strategaethau yn y cyd-destun ariannol presennol a'u nod yw darparu cyfeiriad i'r system er mwyn targedu adnoddau'n well ac nid ydynt yn dibynnu ar gyllid newydd / ychwanegol. Ochr yn ochr â'r strategaeth a gyhoeddwyd, bydd cyfres o gynlluniau cyflawni a fydd yn cael ei adnewyddu dros oes y strategaeth. Bydd hyn yn rhoi cyfle i nodi buddsoddiadau newydd pe bai'r sefyllfa economaidd yn newid.

Hefyd, drwy ddatblygu'r strategaeth iechyd meddwl a lles, rydym wedi cadarnhau ein hymrwymiad i gryfhau'r gefnogaeth ar gyfer gwaith ar y berthynas rhwng rhieni a phlant bach yng Nghymru. Ein nod yw cyhoeddi'r strategaeth derfynol a'r cynllun cyflawni cysylltiedig yn y flwyddyn newydd, yn unol â'r flwyddyn ariannol newydd. Bydd y cynllun cyflawni'n cynnwys ein camau blaenoriaeth y byddwn yn eu cyflawni dros y tair blynedd nesaf.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd penodol 1,000 diwrnod cyntaf bywyd plentyn i'w lesiant drwy gydol ei oes a'r effaith gadarnhaol y gall ymyrraeth ataliol gynnar, yn ystod y cyfnod hwn o fagu perthnasoedd, ei chael ar iechyd a lles corfforol a meddyliol yn y dyfodol.

Mae ein fframwaith NYTH yn nodi'r egwyddorion cyffredin i'r rheini sy'n gweithio gyda babanod a'u teuluoedd i fabwysiadu dull system gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant drwy gydol eu plentyndod.

Mae ein Cronfa Integreiddio Rhanbarthol yn ariannu prosiectau sy'n gweithio gyda rhieni a babanod ar fagu perthynas, ymlyniad ac iechyd meddwl ac rydym wedi ymrwymo i barhau â'r gwaith hwn gan ei fod yn dangos gwelliannau tymor byr a thymor hir pwysig i fywydau plant a theuluoedd.

Mae ein rhaglenni Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf yn darparu ymyriadau i helpu i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant; meithrin eu gwytnwch a'u hyder; a sicrhau lles cadarnhaol. Mae'r rhaglenni'n rhoi pwyslais ar gymorth cynnar ac atal ac yn teilwra cymorth i ddiwallu anghenion plant a'u teuluoedd. Mae staff Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf, ar y cyd â gweithwyr proffesiynol amlasiantaeth eraill (fel rhan o'r tîm o amgylch y teulu), yn hanfodol i fynd ati'n gynnar i ganfod pryderon sy'n ymwneud â phrofiadau niweidiol a thrawma yn ystod plentyndod, a gallant chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o liniaru eu heffaith ar blant.

Mae Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf yn rhan o'r Grant Plant a Chymunedau sy'n ceisio mynd i'r afael ag anghenion cymorth y plant a'r oedolion mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas drwy amrywiaeth o ddulliau ymyrryd yn gynnar, atal, a chefnogi. Dyraniad y Grant Plant a Chymunedau ar gyfer 2025-26 yw £179.583M sy'n ariannu wyth rhaglen gysylltiedig sy'n cael eu cyflwyno gan awdurdodau lleol.

Nod y rhaglenni yn y grant hwn yw lliniaru neu ddileu anfanteision pobl agored i niwed i'w galluogi i gael yr un cyfleoedd mewn bywyd ag eraill, a chyfrannu drwy hynny at Gymru sy'n fwy cyfartal. Mae'r Grant Cymorth Ymyrraeth Gynnar i Rieni, sydd yn rhan o'r Grant Plant a Chymunedau, yn darparu cyllid i awdurdodau lleol i helpu i ateb y galw cynyddol a gwella'r modd y maent yn darparu gwasanaethau cymorth magu plant. Gwneir hyn drwy gynyddu sgiliau a gwybodaeth y gweithlu magu plant a'r gweithlu ehangach, yn ogystal â chynyddu nifer y gweithwyr cymorth i fagu plant, i gefnogi rhieni yn gyffredinol yn ogystal â chefnogi perthnasoedd iach a rheoli gwrthdaro rhwng rhieni.

Mae'r gefnogaeth drwy'r Grant Plant a Chymunedau'n chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddatblygu cysylltiadau ymlyniad a magu perthnasau diogel ac iach rhwng babanod a rhieni. Mae'r rhaglenni wedi'u cynllunio i ddarparu cymorth

cynhwysfawr i rieni a theuluoedd, yn enwedig y rheini sy'n wynebu heriau, a all arwain at gynyddu hyder a hunan-barch rhieni a chefnogaeth gymdeithasol iddynt a sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd.

Gan gydnabod pwysigrwydd hanfodol lles meddyliol yn ystod ac ar ôl beichiogrwydd, mae'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn cynnig cymorth i famau beichiog/ mamau a thadau newydd sy'n wynebu heriau iechyd meddwl. Drwy gydweithio amlasiantaethol, mae gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda theuluoedd i ddarparu ymyrraeth gynnar a chymorth wedi'i deilwra, gan helpu i liniaru effeithiau problemau iechyd meddwl amenedigol. Mae'r ffocws hwn ar iechyd meddwl yn sicrhau bod rhieni a'u teuluoedd yn cael gofal cynhwysfawr sy'n hyrwyddo llesiant a gwytnwch cyffredinol teuluoedd.

Mae ein hymgyrch Magu Plant. Rhowch amser iddo yn darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth gadarnhaol i rieni sydd â phlant hyd at 18 oed ar bob agwedd ar fagu plant, gan gynnwys cyngor ymarferol ar dechnegau magu plant i gefnogi magu perthynas ac ymlyniad er mwyn datblygu'r berthynas rhwng y rhiant a'r plentyn, yn ogystal â chefnogaeth emosiynol i'r rhieni eu hunain. Mae'r ymgyrch yn cysylltu â'n hymgyrch teuluoedd a magu plant, Teulu Cymru.

## 6.5 Gwasanaethau Anhwylderau Bwyta

Mewn ymateb i 6.4, mae datganiad gweledigaeth pedwar yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl di-dor – yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn cael ei harwain gan anghenion ac yn cael ei harwain at y math iawn o gymorth ar y tro cyntaf, heb unrhyw oedi Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau anhwylderau bwyta. Gweithrediaeth y GIG ar y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl, sy'n darparu adnodd pwrpasol i GIG Cymru i sbarduno gwelliannau mewn perfformiad, ansawdd a diogelwch a hefyd yn cynnwys canolbwyntio ar wasanaethau anhwylder. Cefnogir hyn gan rwydwaith gweithredu clinigol

## 6.6 Atal Hunanladdiad

Rydym wedi defnyddio dull gweithredu pob oed i ddatblygu'r mesurau atal hunanladdiad a hunan-niweidio ac iechyd meddwl a lles i sicrhau bod gennym system a fydd yn cefnogi pawb, a'i bod yn hyrwyddo gwell integreiddio rhwng gwasanaethau.

Er ei fod yn defnyddio dull gweithredu ar gyfer pob oed, mae'n nodi lle mae angen ffocws penodol arnom ar bobl ifanc neu oedolion hŷn, ac mae ein dadansoddiad o'r ymgynghoriad wedi rhoi adborth ar sut gallwn gryfhau'r dull

hwn o weithredu. Ond yr hyn sy'n hanfodol yn ein dull gweithredu yw bod angen i'n gwasanaethau gael eu harwain gan anghenion a chanolbwyntio ar yr unigolyn, yn hytrach na chael eu harwain gan oedran. Fel rhan o'r ymgynghoriad, fe wnaethom hefyd gyhoeddi asesiadau effaith drafft ac rydym wedi cynnig y cyfle drwy'r ymgynghoriad i ofyn a oedd yn glir ynghylch sut mae'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed a'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Lles yn cyflawni ar gyfer pob grŵp oedran. Mae'r wybodaeth hon nawr yn cael ei defnyddio i gasglu rhagor o dystiolaeth o effaith yn y meysydd hyn a dyma yn ei dro fydd yn sail i'r asesiadau effaith terfynol a'r cynlluniau / strategaethau cyflawni.

Mae cysylltiad cryf rhwng dod i gysylltiad â thrallod a thrawma yn ystod plentyndod, datblygu ymddygiad  sy'n niweidiol i iechyd yn ystod y glasoed, ac iechyd a lles corfforol a meddyliol gwaeth. Byddwn yn cynnal ein buddsoddiad presennol yn natblygiad gwasanaethau sy'n ymwybodol o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a thrawma a mabwysiadu arferion sy'n seiliedig ar drawma yn 2025-26 (£1m).

## 6.7 Camddefnyddio Sylweddau

Fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26, byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein hagenda camddefnyddio sylweddau. Mae hyn yn gyfanswm o £67m, ac mae dros £41m ohono'n mynd i'n Byrddau Cynllunio Ardal drwy ein Cronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau.

Cymorth i blant a theuluoedd yw un o flaenoriaethau ein hagenda Camddefnyddio Sylweddau gan ein bod yn gwybod drwy'r gwaith ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) ei bod yn bosibl fod plant sy'n cael eu magu mewn cartrefi lle mae problem gyda defnyddio sylweddau yn fwy tebygol o gael canlyniadau niweidiol yn nes ymlaen yn eu bywydau. Drwy'r Gronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau i Fyrddau Cynllunio Ardal, mae Llywodraeth Cymru'n buddsoddi £6.25 miliwn o arian wedi'i glustnodi ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc. Mae'r Fframwaith yn crynhoi tystiolaeth a'r arferion gorau i arwain y rhai sy'n cefnogi Plant a Phobl Ifanc sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau. Rydym hefyd wedi cyhoeddi fersiynau o'r Fframwaith sy'n addas i blant.

### Y Gwasanaeth Di-waith

Mae'r Gwasanaeth Di-waith yn cefnogi pobl sy'n gwella ar ôl camddefnyddio sylweddau a/neu salwch meddwl sy'n 25 oed neu'n hŷn tuag at gyflogaeth neu

waith, neu bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant (NEET) i gael addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Rhwng mis Hydref 2022, pan ddechreuodd y gwasanaeth presennol, a mis Medi 2024, cofrestrodd dros 2,000 o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed â'r gwasanaeth. O'r rhain:

- Mae dros 550 wedi ennill cymhwyster neu dystysgrif sy'n gysylltiedig â gwaith;
- Mae 170 wedi mynd ymlaen i ddysgu pellach;
- Mae bron i 300 wedi cwblhau profiad gwaith neu gyfleoedd gwirfoddoli; ac
- Mae 160 wedi cael swyddi.

Buddsoddwyd £13m i ddarparu'r Gwasanaeth Tu Allan i Oriau Gwaith rhwng 2022-23 a 2024-25, gan gynnwys £5.4m yn 2024-25. Erbyn mis Mawrth 2025, bydd y Gwasanaeth wedi cefnogi hyd at 10,000 o bobl.

Mae'r Gwasanaeth yn cyflawni nifer o ymrwymiadau strategol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â rhoi cymorth i bobl sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau a/neu iechyd meddwl, nid yn unig drwy driniaeth strwythuredig a gofal iechyd, ond drwy amrywiaeth o fesurau eraill hefyd. Mae hyn wedi'i nodi mewn amrywiaeth o strategaethau allweddol gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach – Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau, a chyflawni'r Warant i Bobl Ifanc.

Byddwn yn ystyried opsiynau i ymestyn y contractau presennol sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2025 i 2026-27.

## 6.8 Gwasanaethau Niwroddatblygiadol

I gefnogi'r gwaith o ddarparu gwelliannau i wasanaethau niwrowahaniaeth, darparwyd £11.5m yn ystod 2022-25. Mae hyn yn cynnwys cymorth i'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol ac mae'n darparu cyngor a chymorth i deuluoedd a gofalwyr. Rydym hefyd yn gweithredu'r Cod Ymarfer Awtistiaeth a gyhoeddwyd ym mis Medi 2021, gan gynnwys diweddaru'r cod i gynnwys cyflyrau Niwroddatblygiadol eraill. Yn 2022 darparwyd £12m arall ar gyfer rhaglen Gwella Niwroddatblygiad i fynd i'r afael â'r bregusrwydd critigol mewn gwasanaethau Niwroddatblygiadol gan fod y galw'n llawer mwy na'r capasiti i ymateb. Mae'r rhaglen hon yn gwneud cynnydd da o ran cefnogi arloesi a gwella gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, gweithio ar y cyd â Gweithrediaeth y GIG i drefnu digwyddiad ail-gynllunio gwasanaeth

Niwroddatblygiadol i blant ar 27-28 Tachwedd, gyda 170 o weithwyr proffesiynol a phobl â phrofiad uniongyrchol.

Dyrannwyd £3m arall i fyrddau iechyd yn 2024-25 i leihau'r amseroedd aros hiraf ar gyfer gwasanaethau Niwroddatblygiadol i blant, gan ddarparu hyd at 2,000 o asesiadau ychwanegol erbyn diwedd mis Mawrth 2025. Bydd y gwaith hwn a chanlyniadau'r rhaglen Niwroddatblygiadol, gan gynnwys y digwyddiad ail-gynllunio'r gwasanaeth Niwroddatblygiadol i blant ym mis Tachwedd 2024, yn darparu tystiolaeth ar gyfer cynllunio a chyflawni polisi Niwroddatblygiad ar ôl 2025.

Mae parhad y cyllid sylfaenol presennol ar gyfer Niwroddatblygiad yn cael ei ystyried, byddai hyn yn cefnogi'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol ac yn cwblhau'r Cod Ymarfer Statudol wedi'i ddiweddaru ar Wasanaethau Niwroddatblygiadol sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Mae cynigion hefyd yn cael eu hystyried ar gyfer ymestyn y Rhaglen Gwella Niwroddatblygiad am ddwy flynedd arall hyd at fis Mawrth 2027.

## 6.9 Uned Ddiogel Hillside

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu swm sylweddol o gyllid cyfalaf i Gyngor Castell-nedd Port Talbot i wella Cartref Diogel i Blant Hillside dros y degawd diwethaf. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu tuag at y gwasanaethau (costau rhedeg) sy'n cael eu darparu yn Hillside – Cyngor Castell-nedd Port Talbot sy'n talu costau o'r refeniw a gynhyrchir o'r "prisiau gwelyau" y mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa ac Awdurdodau Lleol yn eu talu.

# 7. Costau Byw

## Sylwadau cyffredinol am effaith costau byw ar y canlynol:

▪ Y Byrddau Iechyd: gwasanaethau sy'n cael eu darparu i blant a phobl ifanc gan y Byrddau Iechyd yng Nghymru ac effaith costau cynyddol ynni ar y ddarpariaeth hon.

▪ Y Gwasanaethau cymdeithasol: holl ddarpariaeth gweithgareddau gwasanaethau cymdeithasol Awdurdodau Lleol yng Nghymru ac unrhyw drafodaethau cysylltiedig gyda'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol.

▪ Tlodi plant: manylion pa drafodaethau sydd wedi'u cynnal gyda chydweithwyr perthnasol eraill yn y cabinet ynghylch dyraniadau sy'n cael effaith sylweddol ar iechyd a gofal cymdeithasol plant, er enghraifft Ysgrifennydd y Cabinet ar Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip o ran cyllideb Comisiynydd Plant Cymru a materion polisi ehangach, fel tlodi plant.

**Ymateb:**

## 7.1 Y Byrddau Iechyd

Yn yr un modd â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, mae pwysau chwyddiant ar gostau heb fod yn gostau staff, gan gynnwys costau ynni wedi bod yn her sylweddol i'r GIG yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys yn 2024-25. Rhoddwyd cynnydd i'r Byrddau Iechyd Lleol ar gyfer 2024-25 i dalu am y twf yn y galw ac am chwyddiant. Maent hefyd wedi wynebu pwysau cyflog sylweddol a chyfnodau o weithredu diwydiannol.

Roedd y cynlluniau a gyflwynwyd ganddynt yn gynharach eleni yn nodi sefyllfa o ddiffyg cyfunol o £220m. Mae amrywiaeth o ffactorau cost y tu ôl i'r diffyg cynllunio, ond bydd pwysau chwyddiant a thwf yn y galw am wasanaethau yn amlwg i'w weld. Er na allwn wahanu'r sefyllfa ar gyfer plant a'r gwasanaethau y mae'r GIG yn eu darparu ar eu cyfer, mae'n anochel y byddant yn wynebu'r effeithiau hyn.

## 7.2 Y Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae'r rhan fwyaf o gymorth ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau plant yn cael ei ddarparu drwy'r setliad refeniw llywodraeth leol heb ei neilltuo, er bod ffrydiau cyllid grant penodol sylweddol hefyd. Roedd cynnydd o 7.9 y cant yn y setliad Llywodraeth Leol ar gyfer 2023-24, ar ôl cynnydd o 9.4 y cant yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

Lefel y cymorth ar gyfer 2024-25 yw £5.688bn, cynnydd o 3.1 y cant. Bydd Awdurdodau Lleol wedi gweld cynnydd sylweddol o ran chwyddiant a'r galw ar draws eu holl swyddogaethau yn 2023-24, a bydd cyfran sylweddol ohonynt yn cael eu defnyddio fel llinell sylfaen gan eu bod yn ymwneud â chostau staff boed yn fewnol neu drwy wasanaethau a gomisiynir.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ar ran llywodraeth leol, yn darparu ei hasesiad o'r pwysau, y blaenoriaethau a'r cyfleoedd i awdurdodau lleol bob blwyddyn i'w trafod gan yr Is-grŵp Cyllid. Bydd Awdurdodau Lleol hefyd yn ystyried lefel y dreth gyngor y mae pob un yn dymuno ei gosod ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd Awdurdodau Lleol yn pennu eu cyllidebau eu hunain ar gyfer pob gwasanaeth cyn 10 Mawrth 2025.

Cyhoeddir manylion gwariant awdurdodau lleol fesul gwasanaeth yn flynyddol. Y duedd dros y blynyddoedd diwethaf yw bod gwasanaethau cymdeithasol ac addysg yn cael cyfran gynyddol o gyfanswm gwariant refeniw awdurdodau lleol, gyda gwasanaethau cymdeithasol wedi gweld y cynnydd mwyaf mewn gwariant yn 2022-23.

Mae'r Gweinidogion yn mynd ati'n rheolaidd i drafod pwysau, gan gynnwys mewn perthynas â gofal cymdeithasol, gan gynnwys gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol.

## 7.3 Tlodi Plant

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael sgyrsiau rheolaidd â chydweithwyr yn y Cabinet ar faterion sy'n effeithio ar iechyd a gofal cymdeithasol plant. Er enghraifft, yn ddiweddar cyfarfu ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip i drafod y blaenoriaethau trawslywodraethol ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a thlodi; yn benodol cynnydd ar yr ymrwymiadau sy'n dod o fewn y portffolio iechyd a gofal cymdeithasol yn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol diwygiedig, canlyniad y Tasglu Hawliau Pobl Anabl, a'r Strategaeth Tlodi Plant.

# 8. Costau Deddfwriaeth

▪ Goblygiadau ariannol neu'r rhai a ragwelir ar gyfer unrhyw is-ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc ym mhortffolio'r Gweinidog.

▪ Gwybodaeth am effaith ariannol unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol gan Senedd y DU.

**Ymateb:**

## 8.1 Goblygiadau Ariannol

Nid oes is-ddeddfwriaeth yn ymwneud â chostau perthnasol wedi'i nodi.

## 8.2 Effaith Ariannol

Ni oes unrhyw effeithiau ariannol wedi eu nodi yn sgil deddfwriaeth Senedd y DU.

Llywodraeth Cymru

# Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

## Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 – Y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg

Sesiwn dystiolaeth: 16/01/25 09:30 – 11:00

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gynigion y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg a amlinellir yng Nghyllideb ddrafft 2025-26, a gyhoeddwyd ar 10 Rhagfyr 2024. Mae hefyd yn rhoi diweddariad ar feysydd o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor.

# Cynnwys

**1. Meysydd Trawsbynciol ....................................................... 4**

Tryloywder y cyflwyniad o'r gyllideb ....................................................... 4

Sylwadau ar Gamau Gweithredu a manylion dyraniadau'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb ....................................................... 6

Blaenoriaethau addysg a blaenoriaethau strategol eraill ....................................................... 6

Hawliau plant ac ystyriaethau trawsbynciol eraill ....................................................... 9

Costau deddfwriaeth ....................................................... 9

Effaith pandemig COVID-19 ....................................................... 10

Effaith pwysau costau byw ar ddarparu gwasanaethau addysg ....................................................... 11

Monitro cyllidebau a'r cyd-destun ariannol presennol ....................................................... 11

**2. Meysydd penodol ....................................................... 13**

Cyllid ar gyfer cyllidebau ysgolion ....................................................... 13

Cyllid ar gyfer gwella ysgolion a chodi safonau ....................................................... 14

Costau byw a lleihau effaith amddifadedd ar ddeilliannau addysgol ....................................................... 16

Y gweithlu addysg ....................................................... 19

Diwygio'r Cwricwlwm ....................................................... 23

Iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc ....................................................... 24

Absenoldeb disgyblion ....................................................... 25

Chwaraeon a gweithgarwch corfforol ....................................................... 25

Cymorth ar gyfer dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr ....................................................... 26

Anghenion Dysgu Ychwanegol ....................................................... 27

Estyn ....................................................... 28

Cymwysterau ....................................................... 29

Cymraeg mewn Addysg ....................................................... 29

Addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant ....................................................... 32

Gwaith ieuenctid ....................................................... 33

Dysgu ar gyfer Troseddwyr ....................................................... 34

Addysg bellach, chweched dosbarth a dysgu oedolion yn y gymuned ..... 34
Cymorth ariannol i fyfyrwyr addysg uwch ac ôl-16 ..... 35
Darpariaeth addysg ôl-16 arall ..... 37
Y Warant i Bobl Ifanc ..... 37
Cyllid cyfalaf ar gyfer seilwaith ysgolion a cholegau ..... 38
Cyllid cyfalaf ar gyfer gofal plant ..... 39
Cyllid cyfalaf ar gyfer y fenter Ysgolion Bro ..... 40
**3. Crynodeb ..... 41**
**4. Atodiadau ..... 42**
ATODIAD A – Dadansoddiad o'r MEG Addysg yn ôl Camau Gweithredu a Llinellau Gwariant yn y Gyllideb ar gyfer 2023-24, 2024-25 a 2025-26 ..... 42
Atodiad B – Dyraniadau refeniw'r MEG Addysg ar gyfer 2025-26 ..... 51
Atodiad C – Dyraniadau'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol 2024-25 yn ôl elfen ac awdurdod lleol ..... 52
Atodiad D – Dyraniadau Prydau Ysgol am Ddim i holl blant Ysgolion Cynradd 2024-25 yn ôl awdurdod lleol ..... 53

# 1. Meysydd Trawsbynciol

## Tryloywder y cyflwyniad o'r gyllideb

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o gynlluniau'r MEG Addysg yng Nghyllideb ddrafft 2025-26 ar 10 Rhagfyr. Mae'n cadarnhau cynnydd o £83.5m (4.9%) mewn adnoddau cyllidol (refeniw) ac £28m (8.1%) mewn cyfalaf cyffredinol a gostyngiad o £13.3m (4.8%) mewn adnoddau anghyllidol (nad ydynt yn arian parod) ac £1.7m mewn Cyfalaf Trafodiadau Ariannol o gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig 2025-26.

| MEG Addysg | Cynlluniau fel y'u nodwyd yng Nghyllideb Derfynol 2024-25 a Ailddatganwyd ym mis Medi 2024 | Addasiadau i'r Llinell Sylfaen | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig | Dyraniadau Ychwanegol | Newidiadau Eraill | Cyllideb Ddrafft (Rhagfyr 2024) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | | | | | |
| Adnoddau anghyllidol (refeniw) | 1,697,506 | 18,665 | 1,716,171 | 83,560 | -50 | 1,799,681 |
| Adnoddau anghyllidol (nad ydynt yn arian parod) | 518,507 | -237,569 | 280,938 | 3,131 | -16,475 | 267,594 |
| Cyfanswm yr Adnoddau | 2,216,013 | -218,904 | 1,997,109 | 86,691 | -16,525 | 2,067,275 |
| Cyfalaf | 346,500 | 0 | 346,500 | 28,000 | 0 | 374,500 |
| Cyfalaf – Trafodiadau Ariannol | 2,102 | -2,102 | 0 | 0 | -1,701 | -1,701 |
| Cyfanswm Cyfalaf | 348,602 | -2,102 | 346,500 | 28,000 | -1,701 | 372,799 |
| Cyfanswm yr Adnoddau a'r Cyfalaf | 2,564,615 | -221,006 | 2,343,609 | 114,691 | -18,226 | 2,440,074 |
| AME Adnoddau | 6,584 | - | 6,584 | - | -107,426 | -100,842 |
| AME Cyfalaf | 1,285,227 | - | 1,285,227 | - | 67,936 | 1,353,163 |
| Cyfanswm yr AME | 1,291,811 | 0 | 1,291,811 | 0 | -39,490 | 1,252,321 |
| Cyfanswm – MEG Addysg | 3,856,426 | -221,006 | 3,635,420 | 114,691 | -57,716 | 3,692,395 |

Y llinell sylfaen a ddefnyddiwyd ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2025-26 yw Cyllideb Derfynol 2024-25 (a ailddatganwyd ym mis Mis 2024) wedi'i haddasu yn ôl addasiadau cylchol i'r llinell sylfaen ar gyfer 2024-25 i gefnogi dyfarniad cyflog y sector cyhoeddus 2024-25 a chynnydd mewn cyfraniadau pensiwn o fis Ebrill 2024 oherwydd newid yn y gyfradd a elwir yn Gyfraniadau Blwydd-dal wedi'u Haddasu ar gyfer Profiad y Gorffennol (SCAPE). Mae addasiadau pellach i'r llinell sylfaen sy'n gysylltiedig â chyllideb darpariaeth nad yw'n arian parod ar gyfer benthyciadau i fyfyrwyr yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2024-25 a chyllid anghylchol ar gyfer Cyfalaf Trafodiadau Ariannol. Ceir dadansoddiad o'r addasiadau i'r llinell sylfaen yn y crynodeb o'r MEG Addysg yn Atodiad A.

### *Adnoddau anghyllidol ‚refeniw«*

Dyrennir refeniw cylchol ychwanegol gwerth £73m i'r MEG Addysg yn 2025-26. Mae dyraniadau anghylchol pellach o £10.6m wedi'u dyrannu, gan gynnwys £3.7m sydd wedi'i glustnodi ar gyfer iawndal TAW ar leoliadau arbenigol ôl-16 mewn colegau arbennig preifat a fydd yn atebol i dalu TAW o 20% o 1 Ionawr 2025 a £6.9m i ariannu'r taliadau gwasanaeth blynyddol ar gyfer prosiectau Model Buddsoddi Cydfuddiannol Addysg.

Yn unol â chais y Pwyllgor, rhoddir crynodeb o ddyraniadau o gronfeydd wrth gefn canolog yn Atodiad B.

### *Adnoddau anghyllidol ‚nad ydynt yn arian parod«*

Mae a wnelo'r gostyngiad o £13.3m yn y gyllideb nad yw'n arian parod ar gyfer y MEG Addysg â'r £15.6m ar gyfer Benthyciadau i Fyfyrwyr a ddychwelwyd i gronfeydd wrth gefn, sy'n adlewyrchu rhagolygon diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a'r effaith ar y tâl Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau ar gyfer y gost amcangyfrifedig i ariannu'r system cyllid myfyrwyr.

Heb gynnwys y trosglwyddiad hwn, mae trosglwyddiad net gwerth £2.3m i mewn o gronfeydd wrth gefn, sy'n adlewyrchu rhagolygon ar gyfer costau dibrisiant ac amorteiddio gan gyrff a noddir a'r costau sy'n gysylltiedig ag ailddosbarthu cyllidebau sy'n gysylltiedig â'r safon gyfrifyddu ar gyfer prydlesi (IFRS16) a fabwysiadwyd o 1 Ebrill 2022. Hyd yma, mae'r trosglwyddiadau hyn wedi'u ffurfioli fel rhan o gyllideb atodol.

### *Cyfalaf*

Rydym yn buddsoddi £28m ychwanegol o gyfalaf yn y MEG Addysg yn 2025-26, y bydd y mwyafrif ohono (£27.6m) yn parhau i ariannu ein Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy lwyddiannus i ysgolion a cholegau. Dyrennir £0.4m pellach i ariannu gofynion cyfalaf Medr, sef y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

Nid oes unrhyw ddyraniadau trafodiadau ariannol yn y gyllideb hon ar gyfer y MEG Addysg ac mae'r gostyngiad o £1.7m yn adlewyrchu'r proffiliau ad-dalu y cytunwyd arnynt mewn perthynas â benthyciadau a roddwyd mewn blynyddoedd blaenorol o dan y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

### *Gwariant a Reolir yn Flynyddol ‚AME«*

Mae a wnelo'r gyllideb hon â benthyciadau i fyfyrwyr, sy'n seiliedig ar alw ac yn sensitif i gyfraddau llog a ffactorau macro-economaidd eraill. Cytunir ar y gyllideb hon â'r Trysorlys bob blwyddyn ac mae ffigurau'r AME ddrafft yn adlewyrchu'r rhagolygon a gyflwynwyd i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Medi 2024.

## Sylwadau ar Gamau Gweithredu a manylion dyraniadau'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb

Ceir dadansoddiad o'r MEG Addysg yn ôl Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb yn Atodiad A. Yn unol â chais y Pwyllgor, mae'r dadansoddiad hwn yn rhoi manylion ar ddyraniadau ar gyfer Cyllideb Derfynol 2024-25, Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-25, alldro a ragwelir 2024-25 (cyfnod 6) ac alldro terfynol 2023-24. Fel y nodwyd, mae'r crynodeb hefyd yn cynnwys y newidiadau i'r llinell sylfaen a'r gyllideb at ddibenion cymharu.

Nid oes sylwadau ar wahân yn ôl Cam Gweithredu wedi'u darparu eleni am fod y newidiadau allweddol o 2024-25 yn cael eu hadlewyrchu yn Atodiad A ac Atodiad B, ynghyd â sylwadau ar y newidiadau a adlewyrchir yn adrannau 'trawsbynciol' a 'meysydd penodol' y papur hwn. Rydym yn fwy na pharod i ddarparu sylwadau i'r Pwyllgor yn ddiweddarach os bydd eu hangen o hyd.

## Blaenoriaethau addysg a blaenoriaethau strategol eraill

Mae ein penderfyniadau cyllido yn y gyllideb ddrafft hon yn seiliedig ar flaenoriaethau'r Llywodraeth. Mae eglurder ynghylch y ffordd rydym yn defnyddio ein hadnoddau'n effeithiol yn ganolog i gyflawni ein blaenoriaethau. Mae ein blaenoriaethau ar gyfer Addysg yn glir: gwella cyrhaeddiad er mwyn codi safonau yn ein hysgolion a'n colegau a chynyddu lefelau presenoldeb fel ffordd o wella cyrhaeddiad i bob plentyn a pherson ifanc. Mae diwygio'r cwricwlwm ac ADY yn parhau'n ganolog i hyn. Er mwyn cefnogi ein blaenoriaethau rydym wedi blaenoriaethu cyllid ar gyfer 2025-26 yn y gyllideb hon:

- Dyrennir £7m ychwanegol i gefnogi presenoldeb mewn ysgolion er mwyn galluogi pecyn o ymyriadau y bwriedir iddynt fynd i'r afael â dadrithiad, ymgysylltu â theuluoedd a helpu dysgwyr i fynychu addysg. Mae hyn yn cynnwys £6m i gynyddu cyllid i awdurdodau lleol drwy'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol, er mwyn cynyddu nifer y Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd, darparu cyllid i Ysgolion Bro ac ariannu gweithgareddau cyfoethogi ac ymgysylltu ychwanegol. Caiff £1m arall ei ddyrannu er mwyn ehangu Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf yn unol â'r ymrwymiad yn ein Rhaglen Lywodraethu, gyda'r rhaglen bellach yn werth £5.8 miliwn y flwyddyn nesaf. Mae hyn yn tanlinellu'r ymrwymiad i gynyddu cyfraddau presenoldeb i'r lefelau roeddent arnynt cyn y pandemig o leiaf.

- Llythrennedd a rhifedd yw sylfeini dysgu ac rydym yn buddsoddi £10m ychwanegol i gefnogi dysgu a chyrhaeddiad yn y meysydd hyn. Bydd hyn yn darparu cyllid hanfodol ar gyfer rhaglenni cymorth cenedlaethol er mwyn gwella addysgu mewn llythrennedd a rhifedd, gan gynnwys cymorth ffoneg, ynghyd ag ymyriadau penodol ac wedi'u targedu i gefnogi dysgwyr sy'n cael

anawsterau gyda llythrennedd a rhifedd. Mae hyn yn cydnabod pwysigrwydd dysgu proffesiynol cyson o ansawdd uchel i godi safonau i bob plentyn. Bydd hefyd yn cynnwys cyllido mentrau y bwriedir iddynt gynyddu cwmpas ac ansawdd gwybodaeth sydd ar gael yn genedlaethol am gyrhaeddiad dysgwyr. O'r pecyn hwn o gymorth ychwanegol, caiff £2.5m ei ddyrannu i awdurdodau lleol drwy'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol er mwyn cynyddu eu capasiti i gefnogi ysgolion yn lleol ac ymgorffori dulliau gweithredu a gyflwynir drwy'r rhaglenni cenedlaethol.

- Bydd **£14.3m** ychwanegol yn helpu i ariannu darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), gan gynnwys £10m drwy elfen diwygio'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol, £2m i sicrhau cysondeb cenedlaethol ac uwchsgilio'r gweithlu drwy gyfleoedd dysgu proffesiynol cenedlaethol a £2.3m i gefnogi dysgwyr mewn lleoliadau ôl-16 arbenigol annibynnol.

- Cynnydd mewn cyllid ar gyfer safonau ysgol er mwyn helpu i gadw staff addysgu ac aelodau eraill o staff ysgolion gyda **£7.8m** ychwanegol drwy elfen Safonau Ysgolion y Grant Addysg Awdurdodau Lleol.

- Ar gyfer addysg drydyddol, dyrennir **£31.6m** ychwanegol, gan gynnwys £29.2m ychwanegol drwy Medr i ariannu cynnydd rhagamcanol mewn addysg ôl-16 a sicrhau parhad cydraddoldeb cyflog rhwng ysgolion a cholegau, er mwyn cynnal y safonau a'r ansawdd dysgu uchaf ble bynnag mae dysgwyr yn ymgymryd â'u haddysg ôl-16. Bydd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu cymorth llesiant ac iechyd meddwl mewn addysg bellach ac addysg uwch ymhellach, er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael y cymorth gorau posibl i aros mewn addysg.

- Mae **£1.6m** ychwanegol yn cael ei fuddsoddi er mwyn cefnogi rhaglen genedlaethol Hwb, gan sicrhau bod adnoddau a gwasanaethau digidol priodol ar gael i bob dysgwr ac ymarferydd mewn ysgolion a gynhelir.

- Bydd y cyfalaf ychwanegol gwerth **£28m** yn ein hystad addysgol yn helpu i gynnal safonau drwy ddarparu amgylchedd sy'n annog lefelau uwch o bresenoldeb a chyrhaeddiad a chefnogi cymunedau ledled Cymru.

Mae'r cyllid ychwanegol yn 2025-26 yn adeiladu ar y cyllid ychwanegol a ddyrannwyd yn 2024-25 i gefnogi ein blaenoriaethau ym maes Addysg.

Rydym wedi clywed yn rheolaidd gan athrawon a staff ysgolion. Bydd ein blaenoriaethau gwella i'r sector cyfan wrth wraidd y gwelliannau yr hoffai pob un ohonom eu gweld ac sy'n cael eu cefnogi gan y gyllideb hon. Bydd y set glir hon o

flaenoriaethau yn ein helpu i reoli llwyth gwaith, blaenoriaethu anoddau a chanolbwyntio ein hymdrechion ar y cyd ar alluogi gwelliannau gwirioneddol i bobl ifanc.

Mae'r cynigion cyllidebol hyn yn adlewyrchu fy ymrwymiad parhaus i ddiogelu a blaenoriaethu buddsoddiad sy'n cefnogi mesurau ataliol cymaint â phosibl. Yn ogystal ag ystyried y ffordd orau o ateb y galw presennol am wasanaethau mae'r penderfyniadau ynghylch gwariant hefyd wedi canolbwyntio ar gefnogi ymyriadau a all atal problemau rhag codi yn y dyfodol. Mae'r dull ataliol hwn yn rhan bwysig o'n gwaith cynllunio ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, nawr ac yn y dyfodol.

Rydym yn cydnabod y pwysau sylweddol ar ysgolion ac awdurdodau ac yn gwerthfawrogi ymdrechion mawr y gweithlu ysgolion wrth iddynt barhau i weithredu o dan amgylchiadau mor heriol. Fel rhan o'r paratoadau cyllidebol, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg a minnau, ochr yn ochr â chydweithwyr yn y Cabinet, wedi trafod lefel yr adnoddau i gefnogi addysg, gan gynnwys cyllid rheng flaen i ysgolion. Er mwyn diogelu cyllid craidd i ysgolion cymaint â phosibl, rydym wedi parhau i flaenoriaethu cyllid drwy gynnydd o £253m (4.3%) i'r setliad Llywodraeth Leol yn 2025-26. Mae hyn yn cydnabod y pwyntiau pwerus y mae awdurdodau lleol partner a'n hysgolion wedi'u gwneud ynglŷn â phwysau i gyflawni'r cyfrifoldeb statudol am ADY a darpariaeth addysg ehangach.

Mae'r cyllid ychwanegol a fuddsoddwyd yn parhau i gefnogi'r Rhaglen Lywodraethu ac rydym yn parhau â'n hymrwymiad i leihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol, er mwyn eu galluogi i ganolbwyntio ar eu gwaith hollbwysig wrth ddarparu gwasanaethau. Gwnaeth ein dull newydd o ymdrin â grantiau symleiddio cyllid i awdurdodau lleol ac ysgolion yn unol â chenhadaeth ein cenedl i sicrhau safonau a dyheadau uchel i bawb. Bydd y grant hwn yn parhau ym mlwyddyn ariannol 2025-26, gan sicrhau bod gan awdurdodau lleol lai o waith i'w wneud o ran gweinyddu grantiau ac, ar yr un pryd, gwella tryloywder a rhoi hyblygrwydd i gyflawni blaenoriaethau. Wrth gefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol, rydym wedi cynyddu'r cyllid ychwanegol rydym yn ei ddarparu drwy'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol 5.5% o gymharu â 2024-25.

Drwy'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol rydym wedi diogelu cyllid ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion (PDG) sy'n ariannu ysgolion i gefnogi'r dysgwyr mwyaf agored i niwed yn economaidd, drwy elfen Tegwch y Grant Addysg Awdurdodau Lleol. Rydym hefyd yn cynnal y gyllideb o £93.5m i ariannu'r gwaith o ddarparu Prydau Ysgol am Ddim i holl blant Ysgolion Cynradd, gan sicrhau y bydd pob dysgwr ysgol gynradd yn parhau i gael prydau ysgol am ddim.

Rydym yn cyflwyno rhaglen cymorth grant newydd ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru er mwyn rhoi cymorth penodol i ysgolion a lleoliadau o fis Ebrill 2025. Mae'r dull strategol newydd hwn o ymdrin â chymorth cwricwlaidd a ariennir gan grant yn blaenoriaethu cyllid ehangach (nad yw'n Grant Addysg Awdurdodau Lleol) ar gyfer ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu, megis ein cwricwlwm gweddnewidiol, y gwasanaeth cerddoriaeth cenedlaethol a chynyddu cyfleoedd i ddysgu ieithoedd rhyngwladol, yn ogystal â chefnogi blaenoriaethau ar gyfer llythrennedd a rhifedd.

Mewn addysg drydyddol, bydd £1.5m ychwanegol yn helpu i gynyddu ac ehangu cyfranogiad mewn addysg ôl-16, gan gynnwys ehangu mynediad i raglen Seren er mwyn helpu dysgwyr difreintiedig i ymgymryd ag astudiaethau uwch. Bydd swm rhagamcanol o £2.9m (y mae £0.9m ohono yn ddyraniad ychwanegol i'r gyllideb cymorth i fyfyrwyr) yn cefnogi cynnydd yn y trothwyon incwm aelwydydd ar gyfer y Lwfans Cynhaliaeth Addysg o flwyddyn academaidd 2025/26 ymlaen.

## Hawliau plant ac ystyriaethau trawsbynciol eraill

### *Asesiad o‑r Effaith ar Hawliau Plant*

Cynhelir asesiadau effaith manwl, gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, fel rhan o'n gwaith parhaus i ddatblygu ac adolygu polisïau. Mae Asesiad Effaith Integredig Strategol yn un o gyfres o ddogfennau a gyhoeddir fel rhan o'r Gyllideb ddrafft ac mae'n hanfodol i nodi tueddiadau allweddol ac effeithiau strategol a chyfunol ar lefel portffolio, ar draws amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys rhoi ystyriaeth ddyledus i'r gofynion statudol.

### *Deddf Llesiant Cenedlaethau r Dyfodol , Cymru«9782*

Mae pob Ysgrifennydd Cabinet yn ymrwymedig i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i wella'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau ynghylch llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Ein nod yw sicrhau ein bod yn adlewyrchu egwyddor datblygu cynaliadwy a bwriedir i'n cynlluniau gwario sicrhau cydbwysedd rhwng blaenoriaethau byrdymor a blaenoriaethau hirdymor. Rydym yn cydnabod bod angen inni gydweithio â'n partneriaid a defnyddio ein hadnoddau cyfunol yn effeithiol i gynllunio ar gyfer y dewisiadau anodd sydd i ddod.

## Costau deddfwriaeth

### *Manylion y dyraniadau yng nghyllideb 9792?93 ar gyfer rhoi deddfwriaeth sylfaenol ar waith–*

Caiff hyd at £0.345m ei gyllidebu yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Polisi Addysg Drydyddol a Gweithredu yn 2025-26 er mwyn ariannu costau gweithredu Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, sy'n ymwneud yn bennaf â

datblygiad parhaus is-ddeddfwriaeth. Ceir rhagor o fanylion am Medr yn yr adran ar Gymorth ariannol i fyfyrwyr Addysg Uwch ac ôl-16.

Mae'r costau sy'n gysylltiedig â rhoi Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ar waith wedi'u nodi yn yr adran ar ddiwygio'r cwricwlwm.

Mae'r costau sy'n gysylltiedig â rhoi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ar waith yn 2025-26 wedi'u nodi yn adran ar ADY.

*Gwybodaeth am effaith ariannol unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol gan Senedd y DU–*

Ni wyddom am unrhyw ddeddfwriaeth gan Senedd y DU a all effeithio ar ein cyllideb ar gyfer 2025-26. Fodd bynnag, rydym yn parhau i fonitro Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU a byddwn yn rhoi'r wybodaeth i'r Senedd lle bo angen.

*Goblygiadau ariannol unrhyw is?ddeddfwriaeth berthnasol yn 9792?93–*

Bydd y gyllideb yn parhau i ystyried is-ddeddfwriaeth yn 2025-26. Mae asesu costau rhoi deddfwriaeth ar waith a'r effaith ar y rheini mae'n effeithio arnynt yn hanfodol er mwyn sicrhau y dilynir egwyddorion "Cyfraith Dda". Mae rheoliadau drafft yn destun asesiad cadarn o gostau a buddiannau, a gynhelir drwy ymgynghori ac ymgysylltu â'n rhanddeiliaid, wrth ddatblygu'r Asesiadau Effaith Rheoleiddiol. Diben hyn yw sicrhau bod ein penderfyniadau'n cael eu llywio gan y bobl y byddant yn effeithio arnynt.

## Effaith pandemig COVID-19

*Gwybodaeth am unrhyw ddarpariaeth sy n weddill yn y MEG Addysg yn 9791?92 a 9792?93 ar gyfer ymdrin ag effaith y pandemig ac adfer ar ei ôl[er enghraifft a yw r rhaglen )Recriwtio[Adfer a Chodi Safonau  yn parhau yn 9792?93–*

Fel y'i hamlinellwyd i'r Pwyllgor y llynedd, bwriadwyd i gyllid ar gyfer y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau bara am gyfnod penodol. Fodd bynnag, gan gydnabod bod effeithiau pellgyrhaeddol pandemig COVID-19 yn bodoli o hyd, cyfunwyd cyllid gwerth £28.5m ar gyfer y Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau yn elfen Safonau Ysgolion y Grant Addysg Awdurdodau Lleol o 2024-25, ynghyd â chynydd pellach o £10.9m i'r grant cyffredinol. Er nad yw'r Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau ffurfiol yn bodoli mwyach, cynhelir y cyllid a drosglwyddwyd i'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol ar gyfer 2025-26 ynghyd â chynnydd pellach o £7.8m ar gyfer yr elfen Safonau Ysgolion er mwyn darparu cymorth pellach i ysgolion yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Byddwn yn dyrannu ychydig o dan £0.2m o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Datblygu a Chefnogi Athrawon yn 2025-26 er mwyn parhau i ariannu ymchwilwyr i arwain astudiaeth hirdymor a fydd yn olrhain effeithiau pandemig COVID-19 yn y

byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor. Bydd yr astudiaeth hon yn nodi effeithiau presennol, a rhai sy'n dod i'r amlwg, ar ddeilliannau dysgu a chanlyniadau llesiant plant a phobl ifanc a bydd yn ei gwneud yn bosibl i unrhyw ymyriadau lliniaru gael eu monitro a'u hasesu'n effeithiol.

## Effaith pwysau costau byw ar ddarparu gwasanaethau addysg

Fel pob gwasanaeth sy'n cael ei ariannu'n gyhoeddus, mae ysgolion, colegau, prifysgolion a darparwyr hyfforddiant yn parhau i weithredu o dan gyfyngiadau cost sylweddol, yn arbennig mewn perthynas â chyflogau, ynni a nwyddau traul. Nid oes unrhyw atebion hawdd i ddarparu ar gyfer y costau cynyddol hyn yn y setliad cyllidebol presennol, yn enwedig ar gyfer darparwyr addysg sydd wedi wynebu gostyngiad sylweddol mewn ffynonellau incwm anllywodraethol (megis prifysgolion). Bydd angen i ddarparwyr ddod o hyd i ffyrdd o weithredu'n effeithlon ac â meintiau elw llai, er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian cyhoeddus. Rydym yn cydnabod effaith y pwysau hyn ac yn parhau i ymgysylltu'n agos â'n rhanddeiliaid ynghylch y materion hyn.

Yn ystod y Cynllun Cyllid Seilwaith 3 Blynedd presennol, bydd mwy nag £1bn o gyfalaf wedi'i fuddsoddi mewn adeiladau ysgolion a cholegau drwy'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Mae'r buddsoddiad hwn yn helpu ysgolion a cholegau i wella adeiladau o ansawdd gwael neu godi adeiladau newydd yn eu lle i safon carbon sero net y Rhaglen, gan ddarparu mwy o amgylcheddau dysgu sy'n effeithlon o ran ynni ledled Cymru a, thrwy hynny, leihau costau refeniw.

## Monitro cyllidebau a'r cyd-destun ariannol presennol

*Gwybodaeth am y prosesau sydd ar waith ar gyfer monitro cyllidebau o fewn y MEG Addysg drwy gydol y Ąwyddyn–*

Mae rheolaeth ariannol ofalus yn hanfodol o ystyried y pwysau ariannol a wynebir gan wasanaethau cyhoeddus. Parheir i fonitro a herio'r holl gyllidebau'n fisol yn ystod 2024-25, er mwyn ystyried y rhagolygon diweddaraf a throsglwyddiadau mewn cyllidebau yn ôl yr angen a sicrhau alldro cytbwys erbyn diwedd y flwyddyn. Rwy'n cael diweddariadau ariannol ar y rhagolygon ar gyfer y MEG Addysg er mwyn sicrhau bod cyllidebau yn parhau ar y trywydd cywir i gyflawni blaenoriaethau.

*Manylion unrhyw newidiadau i MEG Addysg 979 1?92 a ddisgwylir eisoes yn yr Ail Gyllideb Atodol–*

Mae'r addasiadau i'r llinell sylfaen ar gyfer 2025-26 er mwyn ariannu dyfarniad cyflog y sector cyhoeddus 2024-25 a chynnydd mewn cyfraniadau pensiwn (oherwydd SCAPE) o fis Ebrill 2024 yn adlewyrchu'r newidiadau a ddisgwylir eisoes yn yr Ail Gyllideb Atodol. Mae hyn yn cynnwys cyllid i ariannu dyfarniad cyflog

athrawon 2024/25 a sicrhau cydraddoldeb cyflog ar gyfer addysg ôl-16. Cytunwyd ar £5m arall o gyfalaf er mwyn ariannu'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, sy'n dilyn y gostyngiad mewn cyfalaf o £10m fel rhan o gyllideb y flwyddyn ddiwethaf.

Caiff y cyllid ychwanegol yn 2024-25 i gefnogi ein blaenoriaethau ym maes Addysg eu ffurfioli hefyd drwy broses y gyllideb atodol.

*Goblygiadau Cyllideb Llywodraeth y DU ar 30 Hydref 2024 i'r MEG Addysg*

Darparodd Cyllideb Llywodraeth y DU ar 30 Hydref fuddsoddiad ar gyfer Cymru a oedd i'w groesawu'n fawr, gyda setliad sydd £1.7bn yn fwy na'n setliad yn 2024-25 a 2025-26. Mae hyn yn cynnwys adnodd ychwanegol gwerth £774m (a fydd yn cynnwys cytundebau cyflog y sector cyhoeddus) a chyfalaf gwerth £49m yn 2024-25 a chynnydd pellach o £695m mewn adnoddau ac o £235m mewn cyfalaf yn 2025-26. Er bod y newidiadau i gyllid yn Lloegr ar raglenni sydd wedi'u datganoli yng Nghymru yn arwain at newidiadau i'n grant bloc drwy fformiwla Barnett, mater i Weinidogion Cymru yw penderfynu sut i ddyrannu cyllid yn unol â'r blaenoriaethau i Gymru. Yn y gyllideb hon, mae'r cyllid ychwanegol drwy Gyllideb y DU wedi ariannu buddsoddiad ychwanegol ym mlaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Ar gyfer Addysg, mae'r cyllid hwn wedi darparu cymorth ychwanegol yn 2024-25 ar gyfer cyflog a phensiynau athrawon, gan sicrhau cydraddoldeb i golegau, ynghyd â chynnydd ategol mewn cyflog a phensiynau i'n Cyrff Hyd Braich. Mae hefyd wedi darparu cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn i gefnogi ein blaenoriaethau. Yn 2025-26 mae cyllid wedi ariannu'r cynnydd o £73m mewn refeniw a'r cynnydd o £28m mewn cyfalaf i'r MEG. Fel y nodwyd, yn ogystal â chyllid drwy'r gyllideb Addysg, bydd y cynnydd yn y setliad Llywodraeth Leol hefyd yn darparu cymorth ychwanegol i ysgolion, gan gefnogi darpariaeth addysg ehangach.

# 2. Meysydd penodol

Mae'r adran hon yn rhoi diweddariad ar feysydd penodol ar gais y Pwyllgor.

## Cyllid ar gyfer cyllidebau ysgolion

*Esboniad o-r ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu cyllid ar gyfer ysgolion yng Nghyllideb Ddrafft 979 2?9 3, yn y MEG Tai a Llywodraeth Leol a-r MEG Addysg« ac wedi ystyried adolygiad Sibieta o wariant ysgolion wrth bennu-r gyllideb hon–*

Y brif ffynhonnell cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i ysgolion yw'r cyllid a roddir i awdurdodau lleol drwy'r setliad Llywodraeth Leol. Fel y nodwyd, rydym wedi darparu cynnydd o £253m neu 4.3% drwy'r setliad heb ei neilltuo 2025-26.

Ers i'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol wedi'i symleiddio gael ei gyflwyno ym mis Ebrill 2024, rydym wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid ar fecanweithiau cyllido newydd. Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n Ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn adolygu'r effaith yn y sector.

Ar gyfer 2025-26, caiff ychydig o dan £400m ei fuddsoddi drwy'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol, sef cynnydd o 5.5% o gymharu â 2024-25. Mae ein cynlluniau sy'n seiliedig ar alw yn parhau i fod y tu hwnt i hyn, am fod hawliadau penodol ar alw gwirioneddol yn angenrheidiol at ddibenion talu; mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd, Hanfodion Ysgol a Lleoliadau Arbenigol Ôl-16.

Pwysleisiodd yr *Adolygiad o Wariant Ysgolion yng Nghymru* gymhlethdod diangen ein system, ac mae symleiddio ein grantiau wedi gwneud tipyn i leihau cymhlethdod a sicrhau tryloywder cyllid ar gyfer ysgolion yng Nghymru.

*Diweddariad ar yr adolygiad y mae Llywodraeth Cymru yn ei gynnal o gyllid ysgolion prif ffrwd awdurdodau lleol[ a diwygiadau posibl i Reoliadau Ariannu Ysgolion ,Cymru«9 7 87 –*

Mae cynnydd yn parhau i gael ei wneud yn erbyn argymhellion yr Adolygiad o Gyllido Ysgolion. Rydym wedi bod yn ystyried diwygiadau arfaethedig i'r rheoliadau cyllido ysgolion, ac fel rhan o hyn rydym wedi adolygu fformiwlâu cyllido ysgolion y 22 o awdurdodau lleol ledled Cymru er mwyn eu deall yn well.

Daeth cam cyntaf y gwaith hwn, a oedd yn cynnwys dadansoddiad manwl a chynhwysfawr o fformiwla cyllid ysgolion pob awdurdod lleol unigol, i ben yn ystod Hydref 2024.

Bydd y camau nesaf ar gyfer y rhaglen waith hon yn cychwyn ar ddechrau 2025.

*Safbwynt y Gweinidog ar lefel y cronfeydd wrth gefn yn y gyllideb ysgolion[yng nghyd?destun data 08 Mawrth 9791 y disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi ddiwedd mis Hydref 9791–*

Roeddem bob amser yn maentumio y byddai lefel uchel o gronfeydd wrth gefn a welwyd gan ysgolion yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn rhywbeth dros dro, ac mae'r data diweddaraf yn adlewyrchu hyn. Mae hyn yn cadarnhau bod lefelau cronfeydd wrth gefn ysgolion wedi gostwng 45% i £115m rhwng mis Mawrth 2023 a mis Mawrth 2024. Byddwn yn parhau i gefnogi awdurdodau lleol i weithio gyda'u hysgolion i reoli eu cyllidebau mewn modd hyblyg yng ngoleuni'r amgylchiadau presennol.

## Cyllid ar gyfer gwella ysgolion a chodi safonau

*Esboniad o·r modd y mae Cyllideb Ddrafft 9792?93 yn helpu i wella ysgolion a chodi safonau addysg–*

Rwy'n canolbwyntio ar ein blaenoriaethau gwella i'r sector cyfan a fydd wrth wraidd y gwelliannau yr hoffai pob un ohonom eu gweld ac sy'n cael eu cefnogi gan y gyllideb hon. Bydd y set glir hon o flaenoriaethau yn ein helpu i reoli llwyth gwaith, blaenoriaethu anoddau a chanolbwyntio ein hymdrechion ar y cyd ar alluogi gwelliannau gwirioneddol i bobl ifanc.

Rydym yn dal i ganolbwyntio ar bresenoldeb, llythrennedd a rhifedd er mwyn helpu i wella ysgolion a chodi safonau. Gwyddom fod cysylltiad cryf rhwng presenoldeb yn yr ysgol a chyrhaeddiad. Mae'r adran ar Flaenoriaethau Addysg yn amlinellu'r cyllid ychwanegol rydym yn ei fuddsoddi yn y meysydd hyn er mwyn codi safonau ysgolion.

Darperir gwasanaethau gwella ysgolion drwy awdurdodau lleol a bydd y cynnydd yn y setliad llywodraeth leol yn darparu cyllid craidd i ysgolion er mwyn codi safonau.

Mae symleiddio ein grantiau yn 2024-25 wedi helpu i sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu a'u darparu yn y ffyrdd mwyaf priodol, effeithlon ac effeithiol. Drwy elfen Safonau Ysgolion y Grant Addysg Awdurdodau Lleol, byddwn yn cyfeirio mwy nag £167m o gyllid at ysgolion a lleoliadau eraill er mwyn helpu i wella ysgolion a helpu dysgwyr i adfer ar ôl y pandemig er mwyn codi safonau.

*Manylion y Grant Addysg Awdurdodau Lleol yn 9792?93[ gan gynnwys dadansoddiad o·i bedair elfen–*

Darperir ychydig o dan £400m yn 2025-26 drwy'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol er mwyn cefnogi ein hysgolion a'n hawdurdodau lleol (heb gynnwys ein cynlluniau seiliedig ar alw).R Rhoddir dadansoddiad o'r cyllid sydd i'w ddyfarnu drwy'r pedair elfen isod.

| Elfen o'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol | £000 |
|---|---|
| Safonau Ysgolion | 167,689 |
| Tegwch | 156,250 |
| Diwygio | 67,261 |
| Cymraeg 2050 | 8,600 |
| Cyfanswm y Grant Addysg Awdurdodau Lleol 2025-26 | 399,800 |

*Manylion faint o Grant Addysg Awdurdodau Lleol a dalwyd i bob awdurdod lleol yn 9791?92[gan gynnwys dadansoddiad yn ôl y pedair elfen–*

Mae cyfanswm o £379m yn cael ei ddarparu yn 2024-25 drwy'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol er mwyn cefnogi ein hysgolion a'n hawdurdodau lleol (heb gynnwys ein cynlluniau seiliedig ar alw). Ceir dadansoddiad o'r cyllid a ddyfarnwyd yn Atodiad C.

*Unrhyw asesiad a gynhaliwyd i weld a yw cyfunor grantiau unigol â r Grant Addysg Awdurdodau Lleol yn 9791?92 wedi arwain at wanhau unrhyw weithgareddau ac ymyriadau a oedd wedi u neilltuo-n Ąaenorol–*

Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n gweithio gyda rhanddeiliaid i adolygu effaith y trefniadau cyfuno grantiau a gyflwynwyd yn 2024-25. Mae fy swyddogion wedi parhau i ymgysylltu'n agos ag awdurdodau lleol, eu partneriaethau a chonsortia addysg rhanbarthol yn ystod 2024-25, yn arbennig mewn perthynas â meysydd sy'n parhau i gael eu datblygu, megis elfen diwygio'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol. Mae'r gwaith hwn yn meithrin dealltwriaeth a rennir o flaenoriaethau megis y cwricwlwm (gan gynnwys ar gyfer llythrennedd a rhifedd) ac ADY. Ar gyfer elfen diwygio'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol, nodwyd yn benodol fod 2024-25 yn flwyddyn bontio a'n bod yn parhau i gydweithio wrth i gynlluniau ddatblygu tuag at 2025-26 a thu hwnt.

Er nad ydym wedi cael ein hysbysu o unrhyw faterion o bwys na materion sy'n achosi pryder, byddwn yn adolygu'r sefyllfa hon fel rhan o'n hadborth drwy ein gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd.

*Gwybodaeth am ddyraniadau cyllideb i gefnogi ymdrechion i wella safonau llythrennedd a rhifedd ac unrhyw asesiad sydd wedi-i wneud o-u heffeithiolrwydd a gwerth am arian–*

Nododd fy Natganiad Ysgrifenedig dyddiedig 4 Hydref y camau rydym yn eu cymryd i gefnogi llythrennedd a rhifedd o dan y Cwricwlwm i Gymru. Mae gwelliant parhaus mewn safonau addysg yn un o brif flaenoriaethau'r Llywodraeth hon, ac mae llythrennedd a rhifedd yn allweddol i gyflawni hyn. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod cymorth ac adnoddau proffesiynol o ansawdd uchel ar gael i ysgolion a lleoliadau.

Darperir cyllid ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion drwy dair elfen ein Cyllideb ddrafft a'r setliad Llywodraeth Leol i awdurdodau lleol yw ein buddsoddiad mwyaf sylweddol mewn addysg a gwasanaethau lleol.

Yn ogystal â'r setliad, mae elfen diwygio'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol yn cynnwys cyllid ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd i ysgolion ac awdurdodau lleol a'u partneriaethau. Rydym yn cynnal £6m i ysgolion ar gyfer gwella'r cwricwlwm. Yn y gyllideb drafft hon, rwy'n cynyddu cyfanswm ein buddsoddiad ar gyfer cefnogi llythrennedd a rhifedd £10m. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn darparu cymorth cenedlaethol hanfodol ar gyfer addysgu llythrennedd a rhifedd, ymyriadau wedi'u targedu i ddysgwyr sy'n cael anawsterau yn y meysyddd hyn, ac mae'n cynnwys cynyddu cyllid y Grant Addysg Awdurdodau Lleol ar gyfer llythrennedd a rhifedd £2.5m er mwyn ategu cyllid presennol a chynyddu capasiti awdurdodau lleol i gynnal safonau mewn llythrennedd a rhifedd yn eu hysgolion a'u lleoliadau. Mae hefyd yn cynnwys cyllid i wella ansawdd ac argaeledd gwybodaeth genedlaethol am ba mor dda y mae dysgwyr yn dysgu.

Fel y nodwyd, cyflwynir rhaglen cymorth grant newydd y Cwricwlwm i Gymru o fis Ebrill 2025. Caiff y rhaglen hon ei hariannu drwy'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Cwricwlwm ac Asesu a bydd yn dwyn ynghyd grantiau a ddyfernir yn y dyfodol i gefnogi'r cwricwlwm (heblaw'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol) o dan ddull gweithredu tymor hwy cyffredin. Bydd hefyd yn sicrhau bod cymorth yn cyd-fynd yn agosach â'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol a nodwyd yn y datganiad llafar dyddiedig 2 Gorffennaf 2024. Mae cymorth ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm, cynnydd ac asesu, yn ogystal â llythrennedd a rhifedd, yn flaenoriaethau allweddol o dan y rhaglen grant newydd hon.

## Costau byw a lleihau effaith amddifadedd ar ddeilliannau addysgol

*Gwybodaeth am y modd y mae adnoddau o fewn y MEG Addysg yn cael eu defnyddio i gyąawni ymrwymiad hirdymor Llywodraeth Cymru i leihau effaith amddifadedd ar ddeilliannau addysgol ‹ gan gynnwys o r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer )Mynd i r Afael â Rhwystrau i Gyrhaeddiad neu o r Grant Addysg Awdurdodau Lleol–*

Mae gan y Grant Datblygu Disgyblion ran allweddol i'w chwarae o ran cyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru i sicrhau safonau a dyheadau uchel i bawb. O flwyddyn i flwyddyn, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi yn y Grant Datblygu Disgyblion. Dyrannwyd tua £128m o gyllid i'r Grant Datblygu Disgyblion yn 2024-25 a chynhelir y cyllid yn 2025-26. Mae'r Grant Datblygu Disgyblion bellach yn cael ei ddyrannu drwy elfen Tegwch y Grant Addysg Awdurdodau Lleol, ac mae'n ofynnol i awdurdodau lleol drosglwyddo cyllid y Grant Datblygu Disgyblion

yn llawn i ysgolion a lleoliadau fel y nodir yn y dyraniadau ar lefel ysgol cyhoeddedig.

Yn y flwyddyn academaidd hon, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi comisiynu prosiect peilot Diogelu rhag Tlodi i ddarparu cymorth uniongyrchol i ysgolion er mwyn iddynt allu mynd i'r afael â gwahaniaethau addysgol a lleihau rhwystrau a stigma sy'n gysylltiedig â thlodi. At hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi set o ganllawiau 'Pris Tlodi Disgyblion' ac astudiaethau achos wedi'u diweddaru, sy'n cynnwys adnodd sy'n canolbwyntio ar atal bwlio sy'n gysylltiedig â thlodi.

*Gwybodaeth am y ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer y Grant Hanfodion Ysgolion a gwariant yn 2024-25 a'r ddarpariaeth a ragwelir yn 2025-26.*

Mae'r Grant Hanfodion Ysgol wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i lawer o deuluoedd incwm isel ledled Cymru, drwy helpu i leddfu gofidiau ynglŷn â phrynu gwisg ysgol ac offer, galluogi plant i fynychu'r ysgol a chymryd rhan mewn gweithgareddau ar yr un lefel â'u cyfoedion.

Cafodd mwy na 90,000 o ddysgwyr cymwys fudd o'r Grant Hanfodion Ysgol yn 2023-24. Yn 2024-25, darparwyd £13.1m ar gyfer y Grant Hanfodion Ysgol ac rydym yn monitro nifer y dysgwyr sy'n derbyn y grant hwn bob chwarter. Cynhelir y gyllideb ar y lefel hon yn 2025-26.

*Gwybodaeth am sut mae adnoddau o fewn y MEG Addysg yn cael eu defnyddio i helpu dysgwyr mewn addysg ôl-16 i ymdopi ag effeithiau costau byw, ac i fynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar ddeilliannau (gan gynnwys, er enghraifft, drwy gyllid caledi ychwanegol ar gyfer darparwyr, neu drwy gyllid cymorth i fyfyrwyr presennol fel y Lwfans Cynhaliaeth Addysg).*

Rydym yn cydnabod bod costau byw cynyddol yn rhwystr i gyfranogi mewn addysg drydyddol, yn enwedig i ddysgwyr o gefndiroedd incwm isel. Dyna pam ein bod wedi penderfynu cynyddu'r trothwy incwm aelwydydd ar gyfer y Lwfans Cynhaliaeth Addysg, yn unol ag argymhellion adolygiad diweddar, gyda chyllid ychwanegol yn cael ei ddyrannu i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr er mwyn cefnogi'r newid hwn. Amcangyfrifir y bydd y cynnydd yn nhrothwyon incwm aelwydydd y Lwfans Cynhaliaeth Addysg yn sicrhau bod 3,500 o ddysgwyr ôl-16 ychwanegol yn cael y lwfans, sy'n golygu y bydd cyfanswm y gwariant ar y Lwfans Cynhaliaeth Addysg oddeutu £19.7m yn 2025-26. Caiff manylion llawn y trothwyon incwm aelwydydd uwch i ddysgwyr eu cyhoeddi pan gaiff ceisiadau am y Lwfans Cynhaliaeth Addysg eu lansio yn y gwanwyn.

Bydd Medr yn parhau i ddyrannu cyllid o'r Gronfa Ariannol wrth Gefn i ddarparwyr ôl-16, sy'n cefnogi dysgwyr cymwys sy'n wynebu anawsterau ariannol neu sy'n wynebu risg o adael addysg. Mae'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn yn helpu i dalu costau fel ffioedd, costau sy'n gysylltiedig â'r cwrs, trafnidiaeth, prydau bwyd, a

chostau gofal plant. Cyhoeddir rhagor o fanylion pan fydd Medr yn cyhoeddi ei ddyraniadau cyllid.

Rydym yn parhau i ddarparu system cyllid myfyrwyr addysg uwch flaengar, gyda'r lefelau uchaf o gymorth grant nad oes rhaid ei ad-dalu yn cael eu darparu i'r rhai mwyaf anghenus, a'r lefelau cyffredinol uchaf o gymorth cynhaliaeth i israddedigion yn y DU.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i ehangu mynediad i addysg uwch ac wedi gofyn i Medr bennu targedau uchelgeisiol i brifysgolion a cholegau er mwyn lleihau'r annhegwch o ran mynediad at addysg drydyddol a chynyddu nifer y myfyrwyr a dderbynnir i brifysgolion a cholegau.

*Darpariaeth gyllidebol ar gyfer cyflwyno prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd yn 2024-25 ac a oes angen unrhyw gyllideb ar gyfer hyn yn 2025-26, o ystyried bod y broses o'i gyflwyno wedi'i gwblhau ym mis Medi 2024.*

Dyrannwyd refeniw gwerth cyfanswm o £93.5m yn 2024-25 er mwyn darparu prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd.  Er i'r broses o gyflwyno'r ddarpariaeth gael ei chwblhau ym mis Medi, mae gofyniad cyllidebol parhaus i gefnogi awdurdodau lleol i barhau â'r ddarpariaeth hon. Felly, cynhelir y gyllideb yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Bwyd a Maeth mewn Ysgolion ar £93.5m yn 2025-26. Ar ddechrau mis Medi, roedd 174,500 o ddysgwyr newydd yn gymwys i gael pryd, ac mae mwy na 30 miliwn o brydau ychwanegol wedi'u darparu ers i'r cynllun gael ei lansio ym mis Medi 2022.

*Dadansoddiad pellach o'r cyllid a ddarparwyd i awdurdodau lleol yn 2024-25 ar gyfer darparu prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd.*

Darparwyd cyfanswm o £92.8m i awdurdodau lleol ledled Cymru yn 2024-25 fel rhan o'u dyraniad grant ar gyfer darparu prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd. Mae Atodiad D yn rhoi dadansoddiad o ddyraniadau i awdurdodau lleol.

*Unrhyw gyllid arall o fewn y MEG Addysg ar gyfer mentrau i fynd i'r afael â chostau byw a'r gydberthynas negyddol rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad, er enghraifft rhaglen gwella gwyliau'r haf/haf o hwyl/prosiectau bwyd a hwyl, gan gynnwys esboniad o sut mae'r prosiectau hyn a'r ffrydiau ariannu yn ymwneud â'i gilydd.*

Rydym wedi dyrannu £1m ychwanegol i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Bwyd a Maeth mewn Ysgolion er mwyn ehangu Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf, a elwir hefyd yn 'Bwyd a Hwyl', gan gynnyddu cyfanswm y ddarpariaeth gyllidebol i £5.8m yn 2025-26. Bydd y cyllid yn helpu i gynyddu nifer y carfanau sydd ar gael hyd at tua 380.

Gwyddom fod ymgysylltu cadarnhaol ag ysgolion yn hanfodol i feithrin ymdeimlad o berthyn a phresenoldeb a bod ymgysylltu yn aml yn cael ei feithrin drwy brofiadau cadarnhaol a diddorol y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Ynghyd â'r £0.3m ychwanegol yn 2024-25, rydym yn dyrannu £2m ychwanegol yn 2025-26 er mwyn helpu ysgolion i ddarparu neu wella darpariaeth gyfoethogi naill ai yn ystod gwyliau'r ysgol neu yn ystod y tymor. Bydd y cyllid hwn yn gwella sgiliau cymdeithasol a phersonol, ym meithrin hyder ac yn rhoi cymhelliant i ddysgwyr sydd wedi ymddieithrio ddychwelyd i'r ysgol, sy'n hanfodol i fynd i'r afael â phroblem dysgwyr sy'n colli'r ysgol.

## Y gweithlu addysg

*Manylion dyraniadau r gyllideb i ariannu Addysg Gychwynnol Athrawon ,AGA«[ gan gynnwys cyllid a mentrau sydd wedi u targedu at fynd i r afael â phrinder mewn pynciau neu feysydd penodol[ ac unrhyw asesiad sydd wedi i wneud o u heffeithiolrwydd a u gwerth am arian–*

Mae cyllid penodol yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Datblygu a Chefnogi Athrawon o hyd i gefnogi AGA:

- £2.85m i gyflwyno'r llwybrau AGA amgen ar gyfer TAR Rhan-Amser a TAR Cyflogedig, sef ymrwymiadau o dan gynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg a chynllun Cymru Wrth-hiliol. Mae'r cyllid yn darparu grantiau, sy'n cynnwys grantiau hyfforddi i fyfyrwyr a grantiau cyfraniad cyflog i ysgolion sy'n cefnogi athro dan hyfforddiant ar y TAR cyflogedig. Mae'r gyllideb yn seiliedig ar alw ac mae'r gwariant yn dibynnu'n fawr ar lefelau recriwtio i'r rhaglen. Mae gwaith a wnaed gan ein partner cyflawni, sef y Brifysgol Agored, wedi dangos bod yr athrawon dan hyfforddiant ar y rhaglen hon yn garfan wirioneddol unigryw na fyddai wedi gallu ymgymryd ag AGA nac ymuno â'r gweithlu addysgu drwy gymhwyster amser llawn 'traddodiadol'.
- £2.72m i barhau i gynnig cynlluniau cymhelliant ar gyfer Pynciau â Blaenoriaeth a Phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol y bwriedir iddynt helpu i recriwtio i'r proffesiwn drwy AGA. Mae'r gyllideb yn seiliedig ar alw ac yn dibynnu'n fawr ar lefelau recriwtio i'r rhaglenni AGA amser llawn a rhan-amser.
- £0.745m ar gyfer cynllun cymhelliant cyfrwng Cymraeg Iaith Athrawon Yfory, sydd wedi'i anelu at athrawon dan hyfforddiant sy'n paratoi i addysgu pynciau uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg, neu'r Gymraeg fel pwnc. Unwaith eto mae'r gyllideb hon yn seiliedig ar alw ac yn dibynnu'n fawr ar lefelau recriwtio i'r rhaglenni AGA amser llawn a rhan-amser.
- Bydd £0.160m yn parhau i fod ar gael yn 2025-26 i gefnogi costau sy'n gysylltiedig â datblygu polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn parhau i gefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i greu sector AGA o ansawdd uchel.

Bydd y cyllid hwn yn parhau i gefnogi'r gwaith parhaus o recriwtio myfyrwyr dan hyfforddiant o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol i AGA, gwerthusiad o'r polisi i gefnogi AGA yng Nghymru a digwyddiadau i randdeiliaid er mwyn helpu'r sector AGA i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

- Caiff hyd at £0.250m ei ddyrannu unwaith eto yn 2025-26 i barhau â'r ymgyrch cyfathrebu a marchnata ar gyfer Addysgu Cymru'. Mae'r ymgyrch yn parhau i ddatblygu yn seiliedig ar wybodaeth am y gynulleidfa ac ymchwil iddi.

Cynhelir gwerthusiad o'r polisi i gefnogi AGA yng Nghymru yn 2025 a chyhoeddir adroddiad arno yn 2026; bydd hyn yn cynnwys ymchwil i effeithiolrwydd darparu cymhellion.

*Manylion dyraniadau r gyllideb i gefnogi dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon presennol[gan gynnwys yng ngoleuni-r diwygiadau addysg parhaus–*

Rydym am i bob ymarferydd gael cyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel. Ym mis Hydref 2024, cyhoeddais fy mwriad i ddod â rhai o swyddogaethau presennol y consortia rhanbarthol a'r partneriaethau ag awdurdodau lleol a'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol ynghyd mewn un corff cenedlaethol. Bydd y corff yn gyfrifol am lunio a chyflwyno cyfleoedd dysgu proffesiynol a chymorth arwain yn genedlaethol mewn ymateb i'r angen i sicrhau darpariaeth fwy cyson ac eglur. Y nod yw i'r corff cenedlaethol gael ei sefydlu erbyn 1 Ebrill 2025 a bod yn weithredol o flwyddyn academaidd 2025/26. Bydd y flwyddyn gyntaf yn flwyddyn bontio.

Unwaith eto yn 2025-26, byddwn yn dyrannu tua £35m er mwyn helpu i ddatblygu a chynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol.

Bydd tua £18.8m yn aros yn elfen Diwygio'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol. Mae hyn yn lleihad o £2.465m o gymharu â 2024-25 er mwyn adlewyrchu'r ffaith y bydd y cyfrifoldeb am gyflwyno cyfleoedd dysgu proffesiynol yn cael ei drosglwyddo i'r corff cenedlaethol (gyda chyllid yn cael ei drosglwyddo i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Datblygu a Chefnogi Athrawon). O'r £18.8m sy'n weddill yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer elfen Diwygio'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol:

- caiff £13.5m ei ddyrannu'n uniongyrchol i ysgolion (sef cynnydd o £1.5m o gymharu â 2024-25), a
- bydd £5.3m ar gael i awdurdodau lleol er mwyn hwyluso cyfleoedd dysgu proffesiynol lleol.

Bydd £1.4m pellach yn aros yn elfen Cymraeg 2050 y Grant Addysg Awdurdodau Lleol er mwyn cefnogi dysgu proffesiynol Cymraeg a chyfrwng Cymraeg yn unol â bwriadau Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru). Mae hwn yn lleihad o £1.1m o

gymharu â 2024-25 am fod y cyllid yn cael ei drosglwyddo i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Datblygu a Chefnogi Athrawon i'w ddyrannu i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r corff dysgu proffesiynol newydd er mwyn datblygu a chyflwyno cyfleoedd dysgu proffesiynol cenedlaethol i ymarferwyr cyfrwng Cymraeg a datblygu sgiliau iaith pob ymarferydd (gweler isod).

O'r £14.8m sy'n weddill caiff tua £5.7m ei ddyrannu i'r corff cenedlaethol ar gyfer amrywiaeth o raglenni dysgu proffesiynol gan gynnwys y rhaglen cynorthwywyr dysgu, y rhaglen arweinyddiaeth, rhaglen y Gymraeg a'r rhaglen addysgeg. Bydd tua £9.1m yn aros gyda Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn bontio er mwyn ariannu cyfleoedd dysgu proffesiynol cenedlaethol eraill gan gynnwys y rhaglen sefydlu i Athrawon Newydd Gymhwyso, y radd Meistr genedlaethol a'r Ddoethuriaeth Genedlaethol mewn addysg, cyfleoedd dysgu proffesiynol i ddatblygu sgiliau ymholi ymarferwyr a chyfleoedd dysgu proffesiynol er mwyn helpu ymarferwyr i ddatblygu sgiliau Cymraeg ac ar gyfer defnyddio technoleg ddigidol ymhlith eraill.

*Gwybodaeth am gyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i Gyngor y Gweithlu Addysg–*

Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Datblygu a Chefnogi Athrawon yn cynnwys cyllid craidd net gwerth £0.944m i Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA) ar gyfer 2025-26, y mae £0.263m ohono'n refeniw i gefnogi'r gwaith o hyrwyddo gyrfaoedd a £0.681m nad yw'n arian parod i dalu costau dibrisiant. Mae'r gyllideb refeniw yn cynnwys £0.008m ychwanegol ar gyfer costau pensiwn o fis Ebrill 2024 y pennwyd llinell sylfaen ar ei gyfer yn 2025-26.

Ni chaiff y cyfraniad o £1m at ffioedd cofrestru ei ddarparu unwaith eto yn 2025-26. Gofynnwyd i CGA barhau i gasglu ffioedd cofrestru ar y cyfraddau wedi'u sybsideiddio, felly ni fydd hyn yn effeithio ar y ffioedd a delir gan athrawon na gweithwyr addysg proffesiynol eraill.

Caiff cyllid grant gwerth cyfanswm o £7.4m ar gyfer gweithgarwch a gynhelir gan CGA ar gais, neu ar ran, Llywodraeth Cymru ei ddyrannu yn 2025-26m, gan gynnwys ar gyfer gweinyddu a hysbysu am Statws Athro Cymwysedig ac apeliadau sefydlu ac ardystio.

*Manylion am unrhyw ddarpariaeth gyllidebol i dalu costau-r dyfarniad cyĄog i athrawon ar gyfer blwyddyn academaidd ₉₇₉1-₉2[gan gynnwys dadansoddiad rhwng blynyddoedd ariannol ₉₇₉1?₉2 a ₉₇₉2?₉3 a-r mecanweithiau priodol a ddefnyddiwyd ,p-un a ydynt yn grant uniongyrchol neu wedi u hymgorffori yn y setliad llywodraeth leol«–*

Ym mis Medi, cyhoeddais yr adroddiad gan Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru a oedd yn ymdrin ag argymhellion ar gyfer cyflog ac amodau athrawon a chyhoeddais y byddai'r holl gyflogau a lwfansau yn cynyddu 5.5% o fis Medi 2024.

Er bod talu cost cyflogau athrawon yn rhan o'r cyllid craidd a ddarperir gan awdurdodau lleol drwy'r Setliad Llywodraeth Leol, lle nad oes modd cynnwys symiau penodol ac annisgwyl yn y setliad o ganlyniad i gyfyngiadau amser, yn y gorffennol mae Llywodraeth Cymru wedi darparu grant ychwanegol yn ystod y flwyddyn. O ystyried y gwahaniaeth rhwng y codiad cyflog arfaethedig a'r dyfarniad cyflog uwch, ym mis Tachwedd ymrwymais i ddarparu cyllid ychwanegol er mwyn helpu awdurdodau lleol ac ysgolion gydag effeithiau cyllidebol y codiad cyflog.

Ar gyfer 2024-25, mae £18.164m (ar gyfer y cyfnod rhwng mis Medi 2024 a mis Mawrth 2025) wedi'i ddyrannu i'r MEG Addysg a chaiff ei ffurfioli drwy broses yr ail gyllideb atodol, gyda £5m ychwanegol yn cael ei ddyrannu i gefnogi Cydlynwyr ADY a gweithio tuag at argymhellion (3-5) Pumed Adroddiad Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru. Mae'r cyllid hwn yn cael ei ddosbarthu drwy'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol.

Yn 2025-26, mae'r £18.164m wedi'i ychwanegu at gyllideb y setliad Llywodraeth Leol (yn y MEG Tai a Llywodraeth Leol), ynghyd a £12.974m ychwanegol a ddyrannwyd ar gyfer 2025-26 er mwyn darparu ar gyfer effaith blwyddyn lawn dyfarniad cyflog 2024/25.

Er mwyn sicrhau cydraddoldeb cyflog ar gyfer athrawon addysg bellach a chweched dosbarth, a ariennir drwy Medr, dyrannwyd ychydig o dan £6.1m drwy'r MEG Addysg yn 2024-25, gyda llinell sylfaen yn cael ei phennu ar gyfer y cyllid hwn yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Medr yn 2025-26, ynghyd â £3m arall a ddyrannwyd er mwyn darparu ar gyfer effaith blwyddyn lawn dyfarniad cyflog 2024/25.

*Gwybodaeth am unrhyw gyllid i gefnogi polisi ynghylch y gweithlu athrawon cyąenwi–*

Ym mis Awst 2022, cytunodd cyn-Weinidog y Gymraeg ac Addysg ar gynlluniau i ddiwygio cyflog, amodau a chyflogaeth athrawon cyflenwi, er mwy cyflawni ymrwymiadau a nodwyd o dan y Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio. Fel rhan o'r diwygiadau, mae fframwaith asiantaethau cyflenwi diwygiedig wedi'i gaffael, a daeth y contractau i rym ym mis Medi 2023. Hefyd, caffaelwyd llwyfan archebu newydd er mwyn datblygu pwll cyflenwi i Grymu ac amcangyfrifir y bydd y costau rhwng £0.5m a £1.05m fesul blwyddyn ariannol.

Ym mis Mai 2024, cynhaliwyd uwchgynhadledd i drafod y sefyllfa o ran y pwll cyflenwi a datblygu cynllun ar y cyd ar gyfer y camau nesaf. Roedd Llywodraeth

Cymru, CLlLC, undebau addysg a sampl gynrychioliadol o awdurdodau lleol yn bresennol yn yr uwchgynhadledd. Bydd y costau ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 yn dibynnu ar gwblhau'r trafodaethau parhaus ar y ffordd ymlaen. Nid oes unrhyw ddarpariaeth benodol yn y gyllideb o fewn y MEG Addysg ac, felly, byddai unrhyw gostau yn y dyfodol yn gosod ymrwymiad ychwanegol ar y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Datblygu a Chefnogi Athrawon, yn unol â 2024-25.

## Diwygio'r Cwricwlwm

*Gwybodaeth am gyllid i gefnogi r gwaith o weithredu r Cwricwlwm i Gymru–*

Mae gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys ein pwyslais ar gefnogi cynnydd dysgwyr ac annog ysgolion i weithio mewn clwstwr, yn parhau i gael ei flaenoriaethu yn ein buddsoddiad mewn ysgolion a lleoliadau. Fel y nodwyd yn yr Adroddiad Blynyddol diweddaraf ar y Cwricwlwm (4 Gorffennaf 2024) lleihaodd y cyllid a ddyrannwyd i ysgolion i'w helpu i roi'r cwricwlwm yn 2024-25 tua £3m (o £22m) yn unol â'r costau gweithredu arfaethedig wrth i'r cwricwlwm barhau i gael ei gyflwyno mewn ysgolion a lleoliadau.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y pwysau parhaus ar gyllidebau ysgolion a pha mor hanfodol yw ymgysylltu ag ymarferwyr a gwaith ysgol i ysgol er mwyn llwyddo i weithredu'r cwricwlwm a gwella ysgolion yn fwy cyffredinol. Felly, rydym yn cynnal y cyllid a ddarperir i ysgolion ar gyfer diwygio'r cwricwlwm ar lefelau 2024-25 ar £6m yn 2025-26. Bydd hyn yn galluogi ysgolion i gymryd rhan mewn rhaglenni cymorth a fydd yn cael eu darparu'n genedlaethol ac yn lleol drwy'r flwyddyn i ddod, gan gynnwys gan Awdurdodau Lleol drwy'r cyllid y maent yn ei gael o'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol.

Mae cyllid i gefnogi'r cwricwlwm yn rhan o elfen Diwygio'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol. Ar hyn o bryd, mae'r gyllideb hon yn cynnwys £1.73m i gefnogi'r cwricwlwm sydd wedi'i drosglwyddo o'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Cwricwlwm ac Asesu. Diben hyn yw ein galluogi i fwrw ymlaen â'r gwaith o gynyddu capasiti cenedlaethol ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm, llythrennedd a rhifedd ynghyd ag agweddau eraill ar gefnogi'r cwricwlwm lle y cytunir ar arbedion maint (megis ieithoedd rhyngwladol, sgiliau digidol ac addysg cydberthynas a rhywioldeb).

Fel y nodir yn yr adran ar wella ysgolion a chodi safonau, rydym yn cynyddu'r cyllid a ddarperir i awdurdodau lleol drwy'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol £2.5m yn 2025-26 er mwyn cynyddu eu capasiti i gynnal safonau mewn llythrennedd a rhifedd o dan y Cwricwlwm i Gymru yn eu hysgolion a'u lleoliadau. Gan ystyried y ddau drosglwyddiad gyda'i gilydd, ar gyfer awdurdodau lleol, yr effaith gyffredinol ar yr agwedd hon ar yr elfen diwygio yw cynnydd net o £0.77m.

Ochr yn ochr â hyn, mae swyddogion yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol er mwyn adolygu dulliau o gefnogi'r cwricwlwm yn lleol ac yn genedlaethol a chytuno arnynt. Ceir rhagor o fanylion am gyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer y gweithlu yn yr adran ar y gweithlu addysg.

## Iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc

*Y ddarpariaeth gyllidebol o r MEG Addysg yn 979 2?9 3 ar gyfer y dull system-ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd emosiynol ac iechyd meddwl–*

Y gyllideb sylfaenol ddangosol hon ar gyfer y dull ysgol gyfan yw £13.6m ar gyfer 2025-26 (£7m o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a £6.6m o MEG y Gymraeg), sy'n unol â 2024-25.

Fel rhan o'n cynlluniau cyfuno grantiau, cafodd y cyllid i awdurdodau lleol ar gyfer y dull ysgol gyfan, sef £4.75m yn 2024-25, ei drosglwyddo i'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol cyfunedig newydd (yr elfen diwygio). Mae hyn yn cynnwys £3.250m a ddyrannwyd i awdurdodau lleol ar gyfer cwnsela mewn ysgolion, £1.1m ar gyfer darpariaeth (hyfforddiant ac ymyriadau) a £350k ar gyfer darparu unedau cyfeirio disgyblion.

Mae'r cyllid yn cefnogi amrywiaeth o weithgarwch yn unol â gofynion y canllawiau ar Fframwaith statudol y Dull Ysgol Gyfan, a gyhoeddwyd yn 2021, Iechyd meddwl yn gyffredinol ac ymrwymiadau penodol mewn perthynas â chefnogi cwnsela mewn ysgolion ac ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu.  Bydd y cyllid sy'n weddill yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Llesiant (£1.85m) yn cefnogi amrywiaeth o weithgarwch a gwaith megis datblygu adnoddau ac ymchwil a gwerthuso.

*Manylion unrhyw arian o'r MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ategu gwaith mewn ysgolion yn y maes hwn–*

Mae gwerth £7m o gyllid yn cael ei gynnal ar gyfer y dull ysgol gyfan o fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau ar gyfer 2025-26, gan gydnabod natur drawsbynciol y gwaith hwn a phwysleisio ein hymrwymiad i fynd ar drywydd yr agenda hon.  Bydd y cyllid hwn, ynghyd â'r cyllid yn y MEG Addysg, yn sicrhau y gallwn gefnogi anghenion llesiant, o feithrin gwydnwch i ddarparu ymyriadau mwy penodol ar gyfer dysgwyr er mwyn sicrhau y gellir diwallu eu hanghenion heb gynnwys gwasanaethau arbenigol, gan arwain at arbedion ac arbedion effeithlonrwydd ar gyfer y gwasanaethau hynny.

*Gwybodaeth am unrhyw ddarpariaeth gyllidebol i gefnogi iechyd emosiynol ac iechyd meddwl pobl ifanc mewn addysg ôl?83–*

Yn 2024-25, mae Medr wedi darparu £8m er mwyn cefnogi iechyd meddwl a llesiant mewn addysg uwch ac addysg bellach, gan barhau â dyraniadau a wnaed

gan CCAUC a Llywodraeth Cymru. Rydym yn disgwyl i Medr adeiladu ar y buddsoddiadau hyn, gyda £2m yn eu dyraniad grant ar gyfer 2025-26 er mwyn galluogi buddsoddiad pellach mewn gwasanaethau iechyd meddwl a llesiant, yn enwedig i gynyddu ac ehangu gweithgarwch atal hunanladdiad a hunan-niweidio, ac ehangu'r gwasanaeth cyswllt iechyd meddwl i fyfyrwyr Addysg Uwch ac Addysg Bellach (MHULS).

*Y ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer y cynllun gweithredu a r ymateb ehangach i fynd i r afael ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr–*

Ar gyfer 2025-26, darperir £0.15m er mwyn cefnogi ein hymateb parhaus i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion a chefnogi'r broses o roi'r cynllun gweithredu i atal aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ar waith, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn canolbwyntio ar leoliadau addysg gynradd ac uwchradd (a gynhelir ac annibynnol) ac ar sefydliadau addysg bellach. Mae gwaith yn cyd-fynd â'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a'r Glasbrint ar gyfer gweithredu.

## Absenoldeb disgyblion

*Gwybodaeth am unrhyw ddarpariaeth benodol yn y gyllideb i fynd i-r afael â chyfraddau absenoldeb disgyblion neu nodi pa linellau yn y gyllideb sy-n cefnogi gwaith o-r fath yn fwy cyffredinol–*

Yn 2024-25, gwnaethom fuddsoddi £6.5m yn wreiddiol er mwyn cefnogi gwaith Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd, a ddarparwyd fel rhan o'n Rhaglen Ysgolion Bro. Yn sgil cyhoeddi £1.5m ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar gyfer Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd, rydym hefyd yn darparu £3m ychwanegol yn 2025-26 er mwyn cefnogi a chadw Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd i ddarparu mwy o gapasiti i barhau â'r gwaith hwn er mwyn mynd i'r afael â phresenoldeb gwael mewn ysgolion yn benodol. Rydym hefyd yn darparu £1m ychwanegol yn 2025-26 er mwyn gwella Ysgolion Bro a chefnogi cydweithio a dysgu proffesiynol ledled Cymru. Caiff y cyllid hwn ei ddyrannu drwy elfen diwygio'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol.

Ynghyd â'r cyllid ar gyfer gweithgareddau cyfoethogi a Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf, mae hyn yn darparu £8.8 ychwanegol y flwyddyn hon a'r flwyddyn nesaf er mwyn gwella ymgysylltu a chyfraddau presenoldeb.

## Chwaraeon a gweithgarwch corfforol

*Gwybodaeth am y modd y mae-r MEG Addysg yn helpu i ddarparu chwaraeon a gweithgarwch corfforol i blant a phobl ifanc[boed hynny yn yr ysgol neu-r tu allan*

*iddi[ a sut mae hyn yn ymwneud ag unrhyw gyllid yn y MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol megis ar gyfer Pwysau Iach[ Cymru Iach–*

Mae cymorth a ddarperir i ysgolion a chymunedau ar gyfer gweithgarwch corfforol yn cael ei ariannu'n bennaf gan awdurdodau lleol, drwy'r setliad Llywodraeth Leol. Mae swyddogion Iechyd y Cyhoedd sy'n gweithio ar Pwysau Iach, Cymru Iach, drwy raglenni presennol, yn ystyried opsiynau ar gyfer cefnogi'r gwaith o ddarparu gweithgarwch corfforol.

O ran y MEG Addysg, mae angen cymorth ar ysgolion i ddatblygu trefniadau cwricwlaidd sy'n helpu dysgwyr i fod yn iach ac, yn ei dro, yn barod i ddysgu. Mae hyn yn flaenoriaeth ar gyfer cyllid o dan raglen cymorth grant newydd y Cwricwlwm i Gymru, a ariennir drwy'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Cwricwlwm ac Asesu. Cyhoeddir dyfarniadau yn y Gwanwyn.

Mae ysgolion newydd a ariennir drwy'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn darparu cyfleusterau newydd fel rhan annatod o bob prosiect ysgol newydd, a chaiff gwelliannau hefyd eu hymgorffori drwy brosiectau adnewyddu. Mae Ysgolion Bro yn ymrwymiad allweddol yn y Rhaglen Lywodraethu a chaiff £20m o gyfalaf ei fuddsoddi yn 2025-26 er mwyn cefnogi gwaith sy'n ehangu mynediad i gyfleusterau addysg ac yn darparu mannau at ddefnydd cymunedol, gan gefnogi gweithgarwch corfforol i bobl ifanc a'u teuluoedd y tu allan i oriau ysgol (gweler yr adran ar Ysgolion Bro am ragor o fanylion).

## Cymorth ar gyfer dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr

*Manylion cyllid i gefnogi addysg dysgwyr o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr o gymunedau Sipsiwn[ Roma a Theithwyr yn 9792?93 a sut mae-n cael ei ddosbarthu fel rhan o r Grant Addysg Awdurdodau Lleol–*

Cynhelir y cyllid i gefnogi dysgwyr o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn elfen tegwch y Grant Addysg Awdurdodau Lleol ar £11m ar gyfer 2025-26. Ers 2021, defnyddir data mwyaf diweddar CYBLD i bennu'r dyraniadau i bob awdurdod lleol, er mwyn adlewyrchu'r angen yn ôl demograffeg. Mae'r fformiwla yn seiliedig ar nifer y plant a phobl ifanc sy'n siarad Saesneg fel Iaith Ychwanegol (heb gynnwys Sipsiwn, Roma a Theithwyr), ynghyd â nifer y plant a phobl ifanc o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Yn dilyn y trefniadau pontio a roddwyd ar waith i liniaru'r newid yn y fformiwla ar gyfer 2023-24, cyfarfu'r Gweithgor Lleiafrifoedd Ethnig, Sipsiwn, Roma a Theithwyr ar 30 Ionawr 2024 er mwyn ystyried y fformiwla dosbarthu grant ar gyfer 2024-25. Ystyriodd y Grŵp dri opsiwn ar gyfer datblygu'r fformiwla cyllido mewn ffordd a oedd yn targedu cyllid orau i gefnogi dysgwyr.

Yna, cyflwynwyd opsiynau i Weinidog y Gymraeg ac Addysg ym mis Chwefror 2024, a gytunodd i'r opsiwn, ar gyfer 2024-25 ac ar ôl hynny, y byddai'r fformiwla dyrannu grant ar gyfer Lleiafrifoedd Ethnig, Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn defnyddio holl ddata CYBLD wedi'u cyfuno dros y tair blynedd flaenorol. Bydd bwrw ymlaen â'r trefniadau hyn yn lleihau cymhlethdodau cyllido yn y system addysg ac yn sicrhau bod adnoddau yn ymateb i newidiadau yn y boblogaeth, gan gefnogi gwaith cynllunio tymor hwy drwy osgoi gostyngiadau sydyn mewn dyraniadau cyllid.

## Anghenion Dysgu Ychwanegol

*Asesiad wedi'i ddiweddaru o'r pwysau sy'n wynebu awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau wrth gynnig y ddarpariaeth ADA/ADY bresennol, effaith cyllid ychwanegol yn y blynyddoedd blaenorol ac a fydd cyllid ychwanegol pellach yn cael ei gynnal/darparu yn 2025-26?*

*Gwybodaeth am y ddarpariaeth ariannol ar gyfer rhoi Deddf 2018 ar waith, gan gynnwys asesiad wedi i ddiweddaru ynghylch a yw'r diwygiadau ADY yn niwtral o ran cost?*

Mae £14.3m ychwanegol yn cael ei ddarparu yn 2025-26 drwy'r MEG Addysg ar gyfer diwygio ADY. Mae hyn yn cynnwys £10m drwy elfen diwygio'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol er mwyn sicrhau mwy o gysondeb yn genedlaethol a darpariaeth gynaliadwy i blant a phobl ifanc ag ADY, £2m drwy'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer ADY er mwyn sicrhau mwy o gysondeb yn genedlaethol ac uwchsgilio'r gweithlu drwy gyfleoedd dysgu proffesiynol cenedlaethol a £2.3m drwy'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Lleoliadau Arbenigol Ôl-16 i gefnogi dysgwyr mewn lleoliadau ôl-16 arbenigol annibynnol. At hynny, mae'r cynnydd yn setliad refeniw Llywodraeth Leol hefyd yn cydnabod y pwysau ar awdurdodau lleol i gyflawni'r cyfrifoldeb statudol am ADY. Mae dyraniad wedi'i neilltuo anghylchol ychwanegol gwerth £3.7m gan Drysorlys EF hefyd yn cael ei neilltuo i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Lleoliadau Arbenigol Ôl-16, am na all Llywodraeth Cymru adhawlio TAW ar leoliadau ôl-16 arbenigol annibynnol sy'n cael ei chyflwyno o 1 Ionawr 2025.

Mae hyn yn golygu mai cyfanswm y buddsoddiad mewn diwygio ADY yw bron i £37.6m (drwy'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb ar gyfer ADY a Diwygio Addysg (y Grant Addysg Awdurdodau Lleol)) a £19.9m i gefnogi lleoliadau arbenigol ôl-16 yn 2025-26.

Mae cynnydd yn y galw am ddarpariaeth ADY a chostau'r ddarpariaeth honno ledled Cymru. Nododd y Gwariant sydd Wedi'i Gyllidebu ar gyfer darpariaeth Anghenion Addysgu Arbennig (AAA) ac Anghenion Dysgu Ychwanegol a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2024, fod cyfanswm y gwariant ar ddarpariaeth ADY mewn ysgolion gan awdurdodau lleol wedi'i gyllidebu i fod £42m yn fwy yn 2024-

25 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae costau gweithredu i symud dysgwyr o'r system AAA i'r system ADY wedi'u cydnabod drwy'r gyllideb Addysg a thrwy ddyrannu mwy o gyllid i awdurdodau lleol a lleoliadau addysg er mwyn helpu i dalu'r costau hyn.

*Gwybodaeth am sut mae cyllid ar gyfer darpariaeth ADY yn cael ei gynnwys yn yr adolygiad o gyllid ysgolion prif ffrwd awdurdodau lleol–*

Bydd yr adolygiad o fformiwlâu cyllido ysgolion prif ffrwd awdurdodau lleol ledled Cymru yn nodi cyfanswm y cyllid y mae pob awdurdod lleol yn ei ddirprwyo i ysgolion er mwyn diwallu anghenion disgyblion ag ADY a'r dulliau dosbarthu gwahanol a ddefnyddir. Bydd yr adolygiad yn ein galluogi i ystyried sut y gellir gwella'r system er mwyn creu system gyllido decach, er mwyn galluogi cyllid mwy tryloyw, cymaradwy a chyson i bob ysgol yng Nghymru.

Fel y nodir o dan yr adran ar Gyllid ar gyfer Cyllidebau Ysgolion, daeth cam 1 y dadansoddiad i ben yn ddiweddar ac mae'r canfyddiadau yn cael eu hystyried. Mae cam 2 yr adolygiad o gyllid yn cynnwys rhaglen waith y bwriedir iddi gefnogi a gwella'r system cyllido ysgolion, gan gynnwys cyllido darpariaeth ADY mewn ysgolion prif ffrwd.

*Y sefyllfa ddiweddaraf o ran cyllid ar gyfer hyfforddi seicolegwyr addysg yng Nghymru ac unrhyw drefniant cyllid grant gyda sefydliadau addysg uwch–*

Rydym yn parhau i ariannu hyfforddiant i seicolegwyr addysgol newydd. Rydym wedi cytuno i ddarparu grant wedi'i ddiweddaru gwerth mwy na £4.2m i Brifysgol Caerdydd dros chwe blwyddyn ariannol o 2025-26 er mwyn sicrhau unig Ddoethuriaeth Cymru mewn Seicoleg Addysgol. Rhaid i hyfforddeion ymrwymo i dreulio dwy flynedd gyntaf eu gyrfa yn gweithio i awdurdodau lleol yng Nghymru.

## Estyn

*Manylion dyraniad cyllideb craidd Estyn ar gyfer 979 2?9 3 ac ym mha MEG y mae wedi-i nodi[yn ogystal â r rhesymeg dros hyn–*

Y dyraniad cyllideb cyfan ar gyfer Estyn, a geir bellach yn y MEG Addysg yn dilyn y newidiadau i'r Cabinet a gyhoeddwyd ym mis Medi, yw £16.993m ar gyfer 2025-26, gan gynnwys adnoddau cyllidol gwerth £16.467m, adnoddau anghyllidol gwerth £0.276m a chyfalaf gwerth £0.25m. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o £0.406m mewn adnoddau cyllidol o gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig 2025-26, er mwyn darparu cymorth ar gyfer y cylch nesaf o ddyfarniadau cyflog y sector cyhoeddus yn 2025-26. Rydym hefyd wedi pennu llinell sylfaen ar gyfer cyllid 2025-26 ar gyfer cyflog y sector cyhoeddus yn 2024-25 sy'n cyfateb i £0.168m.

Mae cyllideb Estyn nad yw'n arian parod wedi cynyddu £0.076m yn 2025-26, sy'n adlewyrchu cyllid ychwanegol ar gyfer rhoi safonau cyfrifyddu ar gyfer prydlesi (IFRS16) ar waith. Nid yw cyllideb gyfalaf Estyn wedi newid.

*Manylion unrhyw gyllid ychwanegol o r MEG Addysg ar gyfer rôl Estyn mewn diwygiadau addysg–*

Fel rhan o'r cylchoedd cyllidebol blaenorol, darparodd y MEG Addysg gyllid ychwanegol dros y tair blwyddyn ariannol ddiwethaf er mwyn i Estyn allu cynnal mwy o arolygiadau i gwblhau'r cylch blaenorol a chefnogi'r broses o ddatblygu gweithgarwch arolygu mwy rheolaidd o fis Medi 2024 (£1.6m yn 2022-23, a gynyddodd i £4.5m yn 2023-24 a £4.87m erbyn 2024-25).

Er ein bod wedi cynyddu cyllideb Estyn er mwyn darparu ar gyfer pwysau chwyddiannol sy'n gysylltiedig â chyflog, yn y gyllideb hon ni fu'n bosibl ariannu unrhyw gynnydd pelllach yn 2025-26 er mwyn cefnogi'r cylch arolygu newydd o fis Medi 2024. Byddwn yn gweithio'n agos gydag Estyn i reoli'r effeithiau hyn.

## Cymwysterau

*Manylion y cyllid a ddyrennir i Cymwysterau Cymru yn 979 2?93 a manylion unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer ei waith ar ddiwygio cymwysterau yng nghyd? destun y Cwricwlwm newydd i Gymru a diwygiadau cymwysterau galwedigaethol–*

Y dyraniad cyllideb cyfan ar gyfer Cymwysterau Cymru yw £10.986m ar gyfer 2025-26,sy'n cynnwys £10.391m ar adnoddau cyllidol, £0.345m ar adnoddau anghyllidol a £0.250m ar gyfalaf. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o £0.235m mewn adoddau cyllidol o gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig 2025-26, er mwyn darparu cymorth ar gyfer y cylch nesaf o ddyfarniadau cyflog y sector cyhoeddus yn 2025-26. Rydym hefyd wedi pennu llinell sylfaen ar gyfer cyllid 2025-26 ar gyfer cyflog y sector cyhoeddus a chostau pensiwn uwch yn 2024-25 sy'n cyfateb i £0.149m.

Mae cyllideb cymwysterau Cymru nad yw'n arian parod wedi cynyddu £0.095m yn 2025-26, sy'n adlewyrchu cyllid ychwanegol ar gyfer rhoi safonau cyfrifyddu ar gyfer prydlesi (IFRS16) ar waith. Nid yw'r gyllideb gyfalaf wedi newid ac fe'i cynhelir ar yr un lefel â 2024-25.

## Cymraeg mewn Addysg

*Manylion dyraniadau yn y MEG Addysg i gefnogi polisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymraeg mewn addysg[ a rôl y sector addysg o ran cyrraedd targed Cymraeg 97 27 o Āliwn o siaradwyr Cymraeg–*

Nododd Cymraeg 2050: Rhaglen Waith 2021 i 2026, ein cynllun ar gyfer tymor y Senedd hon. Mae gan y sector addysg rôl bwysig i'w chwarae i gyflawni targedau

uchelgeisiol *Cymraeg 2050*: dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg a sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cymraeg mewn Addysg, ynghyd â Llinellau Gwariant yn y Gyllideb eraill ar draws y MEG, yn parhau i gyfrannu at ein gwaith i gyflawni'r targedau hynny yn y sector addysg.

Y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cymraeg mewn Addysg yw £6.537m ar gyfer 2025-26 ac mae'n parhau i ddarparu cymorth ar gyfer Adnodd er mwyn iddo allu goruchwylio'r gwaith o gomisiynu a datblygu adnoddau addysgol, sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd. Mae hefyd yn darparu cymorth i Mudiad Meithrin er mwyn cynyddu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg fel pwynt mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg drwy brosiectau Sefydlu a Symud.

Bydd elfen Cymraeg 2050 y Grant Addysg Awdurdodau Lleol sy'n cyfateb i £8.6m ar gyfer 2025-26, yn parhau i gefnogi Cymraeg 2050 ac mae'n hanfodol i gyflwyno Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) sydd ar ddod, sy'n cynnwys cyllid ar gyfer dysgu proffesiynol, Grant Cymraeg mewn Addysg, trochi a Siarter Iaith.

Ceir rhagor o fanylion am gymorth ar gyfer dysgu proffesiynol Cymraeg a chyfrwng Cymraeg i ymarferwyr yn yr adran ar y Gweithlu Addysg.

Bwriedir i gam nesaf y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy fynd law yn llaw â chyflwyno'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd ac, felly, mae cynlluniau awdurdodau lleol ar gyfer cynlluniau buddsoddi cyfalaf y Rhaglen Dreigl 9 Mlynedd yn adlewyrchu gofynion a thargedau'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae hyn yn adeiladu ar y cyllid cyfalaf gwerth £128m ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg sydd eisoes wedi'i gymeradwyo er mwyn cynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ledled Cymru.

*Sut mae dyraniadau yn y MEG Addysg yn berthnasol i gyllidebau eraill syn cefnogir Gymraeg[ er enghraifft Camau Gweithredu y Gymraeg yn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu ,yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 9791?92«*

Er mai'r Is-adran Cymraeg 2050 sy'n arwain y broses o roi strategaeth y Gymraeg, sef *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg* ar waith, caiff y gweithgareddau eu rhoi ar waith mewn partneriaeth â swyddogion ym mhob rhan o'r llywodraeth a rhanddeiliaid allanol.

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg sy'n gyfrifol am roi *Cymraeg 2050* ar waith, gyda'r Gymraeg yn cael ei phrif ffrydio mewn sawl maes portffolio, gan gynnwys Addysg. Mae gan bob Ysgrifennydd Cabinet a Gweinidog rôl bwysig i'w chwarae i gefnogi'r broses o roi *Cymraeg 2050* ar waith.

*A oes cyllid penodol wedi i neilltuo ar gyfer gweithredu Bil y Gymraeg ac Addysg ,Cymru« neu a fydd hwn o fewn y Llinellau Gwariant presennol yn y Gyllideb ar gyfer y Gymraeg a Chymraeg mewn Addysg–*

Nid oes unrhyw gyllid penodol wedi'i glustnodi er mwyn rhoi Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) ar waith, gyda chostau yn cael eu hariannu o Linellau Gwariant yn y Gyllideb presennol yn y MEG Addysg a'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.

Cyflwynwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n nodi'r costau a'r buddiannau sy'n deillio o ddarpariaethau'r Bil gerbron y Senedd pan gyflwynwyd y Bil ar 15 Gorffennaf 2024. Roedd yr asesiad hwn yn nodi cyfanswm y costau sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth, sef £103m, dros y cyfnod arfarnu o 10 mlynedd rhwng 2025 a 2026, sy'n cynnwys costau i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, ysgolion, Estyn a'r Athrofa Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, a gaiff ei sefydlu gan y Bil.

*Gwybodaeth am gyllid a ddyrannwyd i wella r gweithlu Cymraeg mewn addysg–*

Mae £8.72m yn 2025-26 ar gael o fewn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Datblygu a Chefnogi Athrawon i gefnogi'r broses o roi ein Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd ar waith.

Caiff tua £3.8m ei flaenoriaethu i gefnogi nodau'r cynllun a chaiff ei dargedu'n bennaf at gynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys parhad rhaglen pontio cynradd uwchradd, trydedd flwyddyn y fwrsariaeth i gadw athrawon, grantiau i ysgolion er mwyn iddynt allu datblygu atebion arloesol i fynd i'r afael â phrinder athrawon a chyllid i gefnogi hyfywedd darpariaeth Safon Uwch Cymraeg mewn ysgolion a Cholegau Addysg Bellach.

Bydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn parhau i ddyrannu £0.150m o'i grant (Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Gymraeg) yn 2025-26 er mwyn parhau i gyflwyno prosiect Addysgu'r Dyfodol a datblygu rhwydwaith Cadw Cyswllt.

Rydym wedi cynnal cymhelliant Iaith Athrawon Yfory, sy'n cynnig £5,000 i bob myfyriwr sy'n paratoi i addysgu pynciau uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg (gweler yr adran ar y Gweithlu Addysg).

Mae dysgu proffesiynol yn un o nodweddion allweddol ein dull i atgyfnerthu capasiti addysgu cyfrwng Cymraeg a chefnogi ymarferwyr i feithrin eu sgiliau Cymraeg yn unol â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth. Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau y caiff ymarferwyr eu nodi a'u cefnogi i fanteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol er mwyn gwella'r broses o addysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a chefnogi pob ysgol i symud ar hyd y continwwm.

Caiff tua £3.8m ei ddyrannu i'r Cynllun Sabothol er mwyn cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol dwys ar fethodoleg addysgu Cymraeg ac iaith i ymarferwyr. Mae cyrsiau ar gael ar amrywiaeth o lefelau ar gyfer cynorthwywyr addysgu ac athrawon.

Mae'r cyllid a ddyrennir i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (drwy'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Gymraeg yn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu) hefyd yn cynnig gwersi Cymraeg am ddim i bob ymarferydd addysg. Yn ystod 2025-26, bydd y Ganolfan yn parhau i ddatblygu darpariaeth bwrpasol newydd i ddiwallu anghenion y sector. Er enghraifft, caiff cwrs peilot ar gyfer athrawon uwchradd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg â rhywfaint o Gymraeg ei ddatblygu i'w gyflwyno'n hyblyg, ynghyd â chwrs hyder / 'gloywi' ar-lein byr i'r rheini sy'n addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau. Caiff £1.1m ei ddyrannu o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Datblygu a Chefnogi Athrawon yn 2025-26 i gefnogi'r gwaith hwn. Mae'r dyrniad hwn yn £0.5m ychwanegol yn 2025-26 ac fe'i hariennir drwy drosglwyddo cyllid allan o elfen Cymraeg 2050 y Grant Addysg Awdurdodau Lleol.

Caiff £5.9m pellach ei ddyrannu i awdurdodau lleol fel rhan o elfen Cymraeg 2050 y Grant Addysg Awdurdodau Lleol er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol ac uchelgeisiau Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru). Mae hyn yn cynnwys yr £1.4m ar gyfer dysgu proffesiynol (a amlinellir o dan yr adran ar y Gweithlu Addysg) a £4.5m ar gyfer y Grant Cymraeg mewn Addysg, a ailsefydlwyd yn 2023-24 yn dilyn trafodaethau ag awdurdodau lleol.

## Addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant

*A ywr cyllid yn y Grant Addysg Awdurdodau Lleol i sicrhau bod cyfraddau ariannu addysg plentyndod cynnar mewn lleoliadau nas cynhelir gyda r Cynnig Gofal Plant yn parhau yn 979 2?9 3–*

Mae darpariaeth addysg feithrin yn rhan o'r Cynnig Gofal Plant (y Cynnig). O fis Ionawr 2021 darparwyd cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol er mwyn dyrannu mwy o gyllid i leoliadau meithrin nas cynhelir sy'n darparu addysg feithrin, er mwyn helpu i gysoni â'n cyfradd gyllido gyfredol ar gyfer gofal plant o fewn y Cynnig Gofal Plant. Er mwyn sicrhau tegwch ledled Cymru, gwnaethom gymhwyso fformiwla gyllido sylfaenol. Bydd y cymorth hwn yn parhau i gael ei ddarparu yn 2025-26 ac erys £5.268m o fewn elfen Safonau Ysgol y Grant Addysg Awdurdodau Lleol.

*Manylion unrhyw gyllid arall o r MEG Addysg i gefnogi darpariaeth addysg plentyndod cynnar y sector nas cynhelir a r Cwricwlwm i Gymru[ a sut mae hyn yn gysylltiedig â r cyllid ar gyfer cyfrifoldebau r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol mewn perthynas â r blynyddoedd cynnar a gofal plant–*

Er mwyn helpu i ddarparu addysg feithrin mewn lleoliadau gofal plant, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda sefydliadau ambarél gofal plant cenedlaethol – Blynyddoedd Cynnar Cymru, Mudiad Meithrin, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd a PACEY Cymru. Yn 2024-25 gwnaethom

ddarparu £0.375m er mwyn gwella gwaith y sefydliadau hyn wrth gefnogi ein dysgwyr ieuengaf. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y gwaith hwn ac mae cyllid cysylltiedig yn parhau yn 2025-26 er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Gan sicrhau'n benodol ein bod yn ymgorffori arferion ac addysgeg dysgu sylfaenol er mwyn gwella'r ddarpariaeth.

Mae cyllid o fewn elfen Safonau Ysgolion y Grant Addysg Awdurdodau Lleol hefyd yn galluogi cymorth i leoliadau mewn awdurdodau lleol, yn bennaf drwy Athrawon Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar.

Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn cefnogi ein polisïau a'n huchelgeisiau ehangach ar gyfer y blynyddoedd cynnar yng Nghymru. Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn ymwneud yn bennaf â hyrwyddo partneriaethau a chydlyniant rhwng ysgolion a lleoliadau yn ogystal â rhieni/gofalwyr, er budd y plentyn a'i deulu.

## Gwaith ieuenctid

*Manylion am y ffordd y mae'r MEG Addysg ar gyfer 2025-26 yn cefnogi gwasanaethau ieuenctid statudol a gwirfoddol a'r ddarpariaeth gyllidebol i gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu mewn perthynas â chryfhau gwasanaethau ieuenctid–*

Caiff cyfanswm o £15.077m ei ddyrannu yn 2025-26 i gefnogi gwasanaethau a gweithgareddau ieuenctid statudol a gwirfoddol er mwyn helpu i gyflawni'r ymrwymiadau yn ein Rhaglen Lywodraethu o ran cryfhau gwasanaethau ieuenctid. Yn unol â'r flwyddyn ariannol hon, mae'r gyllideb hon yn cynnwys, yn amodol ar gymeradwyaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol, drosglwyddiad o £3.7m i gefnogi ymyrraeth gynnar ac atal digartrefedd o'r MEG Tai a Llywodraeth Leol, a gaiff ei roi ar waith mewn cyllideb atodol ar gyfer 2025-26. Bydd hyn yn darparu cyllid i awdurdodau lleol drwy'r Grant Cymorth Ieuenctid ac i sefydliadau gwirfoddol drwy'r Grant Cefnogi Sefydliadau Gwaith Ieuenctid Gwirfoddol, yn ogystal ag amrywiaeth o weithgareddau eraill er mwyn parhau â'n gwaith i ddatblygu argymhellion y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim y bwriedir iddynt sicrhau model cyflawni cynaliadwy ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru, a gweithredu ar yr argymhellion hynny.

*Manylion am y modd y mae'r MEG Addysg ar gyfer 2025-26 yn cefnogi Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru a gwaith y Bwrdd Gweithredu–*

Bydd y gyllideb yn parhau i gefnogi'r weledigaeth uchelgeisiol a nodir yn Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru yn ogystal â gwaith Bwrdd Gweithredu'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid, a benodwyd ym mis Hydref 2022. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau i fynd ar drywydd argymhellion penodol a wnaed gan y

Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro, yn ogystal ag ymgysylltu'n barhaus â'r sector gwaith ieuenctid, rhanddeiliaid a phobl ifanc i lywio'r gwaith hwn.

## Dysgu ar gyfer Troseddwyr

*Gwybodaeth am y ddarpariaeth gyllidebol yn 979 2?93 ac unrhyw newidiadau i-r ffordd y caiff ei gwario o gymharu â blynyddoedd blaenorol–*

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu (o arian a ddarperir gan Lywodraeth y DU i Weinidogion Cymru yn benodol at y diben hen) y ddarpariaeth dysgu a sgiliau a llyfrgelloedd mewn carchardai yng Nghymru drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS). Ar hyn o bryd, mae swyddogion yn gweithio ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth nesaf â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, a fydd yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2025 a 2035.

Dyrennir cyllideb o £7.328m ar gyfer dysgu ar gyfer troseddwyr yn 2025-26 a disgwylir i £3.738m ychwanegol gael ei drosglwyddo ar gyfer CEF/Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc fel rhan o gyllideb atodol yn ystod y flwyddyn yn ystod 2025-26, sy'n gyson â chyllid ar gyfer 2024-25. O'r cyllid hwn:

- dyrennir £3.328m i dalu costau'r ddarpariaeth dysgu a sgiliau yng ngharchardai sector cyhoeddus de Cymru (CEF Brynbuga/Prescoed, Caerdydd ac Abertawe);
- dyrennir £4m i dalu costau'r ddarpariaeth dysgu yn CEF Berwyn yng ngogledd Cymru;
- dyrennir £3.738m tuag at y ddarpariaeth dysgu a sgiliau yn CEF/Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc yn Ne Cymru.

## Addysg bellach, chweched dosbarth a dysgu oedolion yn y gymuned

*Manylion dyraniadau cyĄawn 979 1?92 i golegau addysg bellach[ gan gynnwys symiau holl elfennau-r dyraniad ,hy– amser llawn[ rhan?amser[ lwfans rhan? amser[ amddifadedd[ teneurwydd y boblogaeth a lwfansau cyfrwng Cymraeg[ lwfans cynhaliaeth ac addasiad Addysg Oedolion Cymru«*

*Manylion unrhyw gyllid wedi-i neilltuo i sefydliadau addysg bellach neu Chweched Dosbarth y tu hwnt i-w grantiau craidd arferol–*

*Manylion unrhyw gyllid a ddarperir yng nghyllideb 979 2?93 i sicrhau cydraddoldeb cyĄog a-neu dalu unrhyw ddyfarniad cyĄog i sefydliadau addysg bellach a Chweched Dosbarth[ gan gynnwys esboniad ynghylch digonolrwydd y cyllid i dalu unrhyw ddyfarniad cyĄog ―cyfwerthedd cyĄog y cytunwyd arno yn llawn dros gyfnod y gyllideb hon–*

*Y dyraniad ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned–*

*Y rhestr lawn o werthoedd rhaglenni ar gyfer 979 0?9 1 a 979 1?9 2 a ddefnyddir wrth gyfrifo r cyllid ar gyfer Addysg Bellach a r Chweched Dosbarth–*

Rydym yn dyrannu £29.213m ychwanegol i Medr yn 2025-26 er mwyn cefnogi'r canlynol:

- Y cynnydd disgwyliedig yn nifer y dysgwyr mewn addysg ôl-16 yn 2025-26.
- Ehangu rhaglen Prentisiaethau Iau.
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu cymorth llesiant ac iechyd meddwl mewn addysg bellach ac addysg uwch ymhellach, er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael y cymorth gorau posibl i aros mewn addysg.
- Parhad cydraddoldeb cyflog rhwng ysgolion a cholegau, er mwyn cynnal y safonau uchaf ac ansawdd addysgu lle bynnag y mae dysgwyr yn ymgymryd â'u haddysg ôl-16.

Caiff manylion llawn dyraniadau i addysg uwch, colegau addysg bellach, darparwyr prentisiaethau ac awdurdodau lleol ar gyfer dosbarthiadau chwech a dysgu oedolion yn y gymuned eu darparu gan Medr, sydd wedi cymryd cyfrifoldeb am y dyraniadau hyn. Bydd Medr yn gwneud penderfyniadau ynghylch y dyraniadau hyn dros y misoedd nesaf drwy ystyried ei gyllideb gyffredinol, anghenion y gwahanol sectorau y mae'n eu hariannu, ei ddyletswyddau statudol a'i nodau strategol a blaenoriaethau datganedig gweinidogion.

Rydym yn disgwyl i Medr gynllunio ar gyfer costau disgwyliedig setliad cyflogau'r flwyddyn nesaf yn y sector Addysg Bellach ac ysgolion o fewn y cynnydd a ddarparwyd.

Mae gwerthoedd rhaglenni ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24 ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae gwerthoedd rhaglenni ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25 ar gael ar wefan Medr.

Rydym ar ddeall bod creu Medr yn golygu y bydd manylion pwysig am y gyllideb Addysg yn ei gwneud yn ofynnol i'w benderfyniadau cyllido fod yn destun proses graffu ar wahân. Bydd Medr yn nodi ei ddyraniadau cyllid dangosol dros y misoedd nesaf a bydd modd i'r Pwyllgor graffu arno mewn perthynas â'r penderfyniadau hynny.

## Cymorth ariannol i fyfyrwyr addysg uwch ac ôl-16

*Manylion dyraniad y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil[ gan gynnwys manylion unrhyw gyllid wedi-i neilltuo[ neu gyllid a fwriedir ar gyfer gweithgareddau penodol gan gynnwys iechyd meddwl a llesiant myfyrwyr–*

*Manylion unrhyw ddyraniad ar gyfer 2025-26 a fwriadwyd ar gyfer cyflwyno prentisiaethau gradd, ac a fwriedir ei ddefnyddio i recriwtio prentisiaid newydd neu i ddysgu prentisiaid presennol.*

*Manylion unrhyw gyllid cyfalaf i'w ddarparu i Medr, gan gynnwys unrhyw amodau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu gosod arno.*

*Dyrannwyd £0.5m ychwanegol i gyllideb gyfalaf Medr er mwyn darparu ar gyfer ei ofynion cyfalaf sefydliadol.*

Cyfanswm cyllideb refeniw Medr yn 2025-26 yw £804.681m, sy'n cynnwys y cynnydd o £29.213m y cyfeiriwyd ato yn yr adran uchod. Mae'r gyllideb yn adlewyrchu'r £757.3m a drosglwyddwyd i Medr o'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb o fewn y MEG: Darpariaeth Ôl-16, (y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil), Polisi Addysg Drydyddol a Gweithredu (y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil gynt) a CCAUC – Gwariant ar Raglenni (y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil).

Rhagwelwn y bydd Medr yn parhau i ddyrannu tua £5m o'i grant Addysg ar gyfer prentisiaethau gradd. Caiff y swm hwn ei ategu gan £4.111m a ddyrennir o'r gyllideb prentisiaethau (yn y MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio). Ceir manylion y dyraniad i Medr ar gyfer prentisiaethau mewn tystiolaeth a ddarparwyd i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig gan y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol.

Byddwn yn parhau i ddarparu £13m i Medr o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Seilwaith Addysg er mwyn ariannu ymrwymiadau cyfalaf yn y sector Addysg Uwch a'r sector Addysg Bellach. Mae darparwyr Addysg Bellach yn parhau i gymryd rhan yn y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ar gyfer raglenni cyfalaf mawr.

*Manylion unrhyw gronfeydd hapddigwyddiadau (wrth gefn) heb eu neilltuo o fewn unrhyw un o Linellau Gwariant yn y Gyllideb 2025-26 sy'n gysylltiedig ag addysg drydyddol, gan gynnwys y Llinellau Gwariant yn y Gyllideb o fewn Camau Gweithredu Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16; manylion ynglŷn â sut y caiff y cronfeydd eu defnyddio neu sut y gellir eu defnyddio; a manylion unrhyw ddefnydd a wnaed ohonynt yn ystod 2023-24 a 2024-25.*

Gwnaethom gyhoeddi ein pecyn o gymorth i fyfyrwyr ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26 ar 4 Rhagfyr. Bydd pecynnau cymorth cynhaliaeth i fyfyrwyr a chymorth i ddysgwyr ôl-raddedig yn cynyddu 1.6% yn unol â chwyddiant CPI rhagamcanol. Rydym yn parhau i gynnig y cymorth costau byw mwyaf hael i israddedigion amser llawn yn y DU, gyda'r lefelau uchaf o gymorth grant nad oes rhaid ei ad-dalu yn cael eu darparu i'r rhai mwyaf anghenus. Bydd y terfyn ffioedd dysgu ar gyfer cyrsiau israddedig amser llawn yn cynyddu i £9,535 o £9,250, yn unol â'r ffi uchaf y gellir ei chodi yn Lloegr.

Rydym wedi cyllidebu £283.3m ar gyfer grantiau cymorth i fyfyrwyr. Mae hyn yn cyfrif am ein model diwygiedig o wariant disgwyliedig ar grantiau, gan gynnwys y cynnydd arfaethedig mewn trothwyon incwm ar gyfer y Lwfans Cynhaliaeth Addysg (gweler yr adran ar Gostau byw). Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Grantiau ar gyfer Cymorth i Fyfyrwyr yn seiliedig ar alw, sy'n golygu ei bod hi'n anodd ei ragfynegi ac y bydd yn amrywio yn ôl demograffeg a nifer y myfyrwyr addysg uwch ac addysg bellach.

## Darpariaeth addysg ôl-16 arall

*Manylion cyllid Cyfrifon Dysgu Personol–*

Caiff dyraniadau ar gyfer Cyfrifon Dysgu Personol eu pennu gan Medr fel rhan o'i ddyraniadau cyffredinol ar gyfer addysg bellach rhan-amser.

*Manylion y gyllideb Cymraeg mewn Addysg[gan gynnwys unrhyw ddyraniad ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol–*

Mae'r gyllideb drafft yn cynnwys £10.382m a ddyrennir i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2025-26. Mae'r gyllideb hon bellach yn rhan o gylch gwaith Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ac mae cyllid wedi'i nodi yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Gymraeg o fewn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu, yn dilyn newidiadau a wnaed i'r Cabinet yn gynharach eleni. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o £0.494m o gymharu â 2025-25 ac mae'n cael ei ariannu drwy'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Gymraeg ar gyfer 2025-26. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn galluogi'r Coleg i ailddechrau ar y gwaith o ymestyn darpariaeth drwy ehangu ei raglen o grantiau datblygu i golegau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau.

*Manylion cyllid ar gyfer y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu ,Taith«–*

Cynhelir cyllideb y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu ar gyfer 2025-26 ar yr un lefel â 2024-25, gyda chyfanswm cyllideb o £6.501m.

## Y Warant i Bobl Ifanc

*Manylion y ddarpariaeth gyllidebol o r MEG Addysg sy n cyfrannu at y Warant i Bobl Ifanc a sut mae n ymwneud â chyllid o MEG yr Economi[Ynni a Chynllunio*

Mae'r Warant i Bobl Ifanc yn darparu strwythur ambarél y mae'r holl raglenni i bobl ifanc a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn dod oddi tano, gyda'r nod o greu taith gymorth syml i bobl ifanc, ni waeth beth fo'u hamgylchiadau a'u cefndir.

Mae cyllid i gyfrannu at gyflwyno'r Warant i Bobl Ifanc yn 2025-26 ar draws y MEG Addysg a MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio (tua £1bn), gan gynnwys y gyllideb sylweddol a ddyrannwyd i Medr. Dylid hefyd nodi bod rhai rhaglenni yn seiliedig

ar alw a'u bod ar gael i bobl o bob oed a bod rhai yn cael eu hariannu dros flynyddoedd academaidd yn hytrach na blynyddoedd ariannol.

Mae Bwrdd Rhaglenni ar lefel swyddogion ar draws Llywodraeth Cymru yn cyfarfod i graffu ar gyfeiriad y polisi sydd mewn grym a dyraniad adnoddau – gan fwydo i fyny i Fwrdd y Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau, a gan uwchgyfeirio materion at Weinidogion hefyd fel y bo'n briodol. Mae Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid allanol hefyd yn rhan o'r broses graffu a chynghori, ochr yn ochr â Bwrdd Cynghori ar y Warant i Bobl Ifanc.

## Cyllid cyfalaf ar gyfer seilwaith ysgolion a cholegau

*Gwybodaeth am y ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a chynnydd y rhaglen hyd yma[ gan gynnwys gwariant a nifer y prosiectau a gwblhawyd a gymeradwywyd hyd yn hyn o dan Fand B–*

Dechreuodd ail gam buddsoddi (Band B) y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ym mis Ebrill 2019 ac roedd yn cynnwys ffrydiau cyllid grant cyfalaf a refeniw gydag ymrwymiad i fuddsoddi £2.3bn (£1.8bn o gyfalaf a £0.5bn o refeniw) sydd wedi cyflwyno 129 o brosiectau.

Gan adeiladu ar y buddsoddiad hwn, yn ddiweddar cymeradwyais gynlluniau buddsoddi 9 mlynedd newydd a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol sy'n nodi buddsoddiad posibl pellach gwerth £4.5bn (yn 2024) mewn ysgolion newydd ac ysgolion wedi'u hadnewyddu ledled Cymru ynghyd â £0.8bn mewn colegau.

*Cadarnhad bod Band A bellach wedi-i gwblhau a-r gwariant terfynol a nifer y prosiectau–*

Mae Band A bellach wedi'i gwblhau ac mae pob un o'r 22 o ardaloedd awdurdod lleol a'r 10 coleg wedi cael budd o'r rhaglen buddsoddi mewn seilwaith fawr hon. Buddsoddwyd cyfanswm o £1.4bn drwy Fand A, gyda £0.72bn yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi cefnogi'r gwaith o ailadeiladu ac adnewyddu 170 o ysgolion a cholegau.

*Asesiad wedi i ddiweddaru o oblygiadau costau byw[ er enghraifft prisiau ynni ac adeiladu[ ar gyfer y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy[ gan gynnwys unrhyw effaith ar gynnydd a chostau prosiectau–*

Mae'r cynnydd yng nghyllideb y Rhaglen o gymharu â 2022-23 wedi helpu i liniaru effaith chwyddiant, gan ei gwneud yn bosibl i brosiectau sy'n mynd rhagddynt i barhau i wneud cynnydd. Fodd bynnag, mae effeithiau tymor canolig a hirdymor chwyddiant wedi llesteirio'r uchelgais i gyflymu'r broses o adeiladu ysgolion a cholegau newydd. Wrth i chwyddiant barhau'n gymharol uchel, mae costau adeiladu uwch yn golygu bod yr ystad addysg yng Nghymru yn adeiladu ac yn adnewyddu llai o ysgolion a cholegau am yr un lefel o gyllid.

Mae'r Rhaglen yn darparu amgylcheddau dysgu carbon sero net modern sy'n addas at y diben sy'n fwy effeithlon o ran ynni na'r cyfleusterau y maent wedi'u disodli. Mae hyn yn helpu ysgolion a cholegau gyda'u costau ynni yn ogystal â lleihau allyriadau carbon.

Er mwyn cefnogi'r ystad addysg ehangach yng Nghymru, mae swyddogion ar fin cwblhau Arolwg Carbon a Chyflwr Adeiladau Elfennol arloesol o bob ysgol a choleg. Bydd hyn yn rhoi Map Trywydd Carbon Sero Net i awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach ar gyfer pob adeilad ysgol a choleg. Bwriedir i'r broses o roi'r Map Trywydd ar waith gael ei hintegreiddio yn rhaglenni cadw a chynnal asedau cyfalaf ysgolion a cholegau. Dros amser, bydd hyn yn cyfrannu at adeiladau mwy thermol-effeithlon sy'n defnyddio llai o ynni, gan leihau costau cyfleustodau i ysgolion a cholegau.

*Goblygiadau ariannol polisïau sero net carbon Llywodraeth Cymru a sut mae hyn yn effeithio ar MEG Addysg drafft 9792?93–*

Mewn ymateb i ymrwymiad Llywodraeth Cymru o ran datgarboneiddio, mae'n ofynnol i bob prosiect a gyflwynir drwy'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy fod yn garbon sero net ar waith yn ogystal â sicrhau'r gwerth uchaf posibl ar gyfer carbon ymgorfforedig drwy'r deunyddiau a'r broses adeiladu ei hun.

Mae profiad a enillwyd drwy brosiectau carbon sero net a gynhaliwyd hyd yma yn nodi bod angen tua 12.5% ar ben y gost adeiladu er mwyn cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatgarboneiddio.

Gan gydnabod y pwysau a wynebir gan awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach, mae'r Rhaglen yn talu'r gost 'ychwanegol-dros' hon i gyd. Fel arfer, mae hyn yn cynyddu cyfraniad Llywodraeth Cymru o 65% i 69%.

Bydd y cynnydd arfaethedig mewn cyfalaf o 8.1% yng nghyllideb ddrafft 2025-26 yn helpu i liniaru effaith rhoi safonau carbon sero net ar waith ym mhob rhan o'r Rhaglen.

## Cyllid cyfalaf ar gyfer gofal plant

*Gwybodaeth am gyllid cyfalaf o r MEG Addysg ar gyfer y rhaglen Cynnig Gofal Plant a Dechrau n Deg ac unrhyw ddyraniadau at ddibenion yr ymrwymiad i gyĄwyno gofal plant Dechrau n Deg i bob plentyn dyĄwydd oed–*

Mae gan Raglen Cyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar ddyraniad cyllidebol drafft o £25m yn 2025-26 a bydd yn parhau i gael ei ariannu o'r MEG Addysg. Bydd y rhaglen yn parhau i gefnogi Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant ac yn anelu at wella a datblygu darpariaethau gofal plant newydd a'r rhai sy'n bodoli eisoes ledled Cymru, gan roi pwyslais penodol ar gryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Caiff y gyllideb ei rhannu'n ddwy ffrwd gyllido benodol: cyllid grantiau bach a chyllid cyfalaf mawr. Bydd gwerth £10m o gyllid grantiau bach ar gael i bob darparwr gofal plant a chwarae sydd wedi'i gofrestru ag AGC. Caiff yr elfen grantiau bach ei defnyddio i ariannu gwaith a chyfarpar gwerth hyd at £20,000.

Bydd dyraniad cyllidebol o £15m ar gael i brosiectau cyfalaf mawr ar gyfer cynigion dros £20,000. Bydd hyn yn cefnogi prosiectau, yn amrywio o waith adnewyddu bach i godi estyniadau ac adeiladau ar gyfer darpariaeth gofal plant.

## Cyllid cyfalaf ar gyfer y fenter Ysgolion Bro

*Gwybodaeth am drefniadau ar gyfer cyllid sydd â r nod o gynyddu natur ystadau addysg sy-n canolbwyntio ar y gymuned ac addasu safleoedd i gael eu defnyddio gan y gymuned–*

Gan adeiladu ar fuddsoddiad gwerth £60m ar gyfer Ysgolion Bro dros y tair blynedd diwethaf (rhwng 2022-23 a 2024-25), mae £20 miliwn o gyllid cyfalaf ychwanegol wedi'i ddyrannu yng nghyllideb ddrafft 2025-26 er mwyn parhau i gefnogi gwaith sy'n ehangu mynediad i gyfleusterau addysg, gan ddod â manteision i'r cymunedau a wasanaethir ganddynt.

# 3. Crynodeb

Cyflwynir Cyllideb Ddrafft y MEG Addysg ar gyfer 2025-26 i'r Pwyllgor i'w hystyried.

Lynne Neagle AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Vikki Howells AS

Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch

# 4. Atodiadau

## ATODIAD A – Dadansoddiad o'r MEG Addysg yn ôl Camau Gweithredu a Llinellau Gwariant yn y Gyllideb ar gyfer 2023-24, 2024-25 a 2025-26

Adnodd

| | | 2023-24 | 2024-25 | | | 2025-26 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Camau Gweithredu | Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | Alldro Terfynol | Cyllideb Derfynol (Medi 2024) | Y Gyllideb Atodol Gyntaf (Hydref 2024) | Alldro a Ragwelir (C6) | Cyllideb Derfynol 2024-25 a Ailddatganwyd ym mis Medi 2024 | Newidiadau i'r llinell sylfaen | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig | Prif Grŵp Gwariant i Brif Grwpiau Gwariant | Trosglwyddiadau o fewn Prif Grŵp Gwariant | Dyraniadau o Gronfeydd Wrth Gefn | Trosglwyddiadau i Gronfeydd wrth Gefn | Cyllideb Ddrafft (Rhagfyr 2024) |
| | | £000oedd | | | | | | | | | | | |
| **Cwricwlwm** | Cwricwlwm ac Asesu | 35,410 | 14,512 | 14,492 | 15,008 | 14,512 | 10 | 14,522 | 0 | 1,730 | 7,500 | 0 | 23,752 |
| **Cyfanswm Cwricwlwm** | | **35,410** | **14,512** | **14,492** | **15,008** | **14,512** | **10** | **14,522** | **0** | **1,730** | **7,500** | **0** | **23,752** |
| **Addysgu ac Arweinyddiaeth** | Datblygu a Chefnogi Athrawon | 72,488 | 30,128 | 30,363 | 31,258 | 30,128 | 17 | 30,145 | 0 | 4,089 | 0 | 0 | 34,234 |
| | Datblygu a Chefnogi Athrawon – Heb fod yn Arian Parod | 638 | 400 | 522 | 522 | 400 | 0 | 400 | 0 | 0 | 281 | 0 | 681 |
| **Cyfanswm Addysgu ac Arweinyddiaeth** | | **73,126** | **30,528** | **30,885** | **31,780** | **30,528** | **17** | **30,545** | **0** | **4,089** | **281** | **0** | **34,915** |
| **Cymorth ALI Addysg Cyn-16** | Diwygio Addysg (Grant Addysg Awdurdodau Lleol) | 0 | 58,956 | 58,956 | 58,956 | 58,956 | 0 | 58,956 | 0 | -4,195 | 12,500 | 0 | 67,261 |
| | Safonau Ysgolion (Grant Addysg Awdurdodau Lleol) | 0 | 159,885 | 159,885 | 159,885 | 159,885 | 0 | 159,885 | 0 | 0 | 7,804 | 0 | 167,689 |

| | | 2023-24 | 2024-25 | | | 2025-26 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Camau Gweithredu | Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | Alldro Terfynol | Cyllideb Derfynol (Medi 2024) | Y Gyllideb Atodol Gyntaf (Hydref 2024) | Alldro a Ragwelir (C6) | Cyllideb Derfynol 2024-25 a Ailddatganwyd ym mis Medi 2024 | Newidiadau i'r llinell sylfaen | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig | Prif Grŵp Gwariant i Brif Grwpiau Gwariant | Trosglwyddiadau o fewn Prif Grŵp Gwariant | Dyraniadau o Gronfeydd Wrth Gefn | Trosglwyddiadau i Gronfeydd wrth Gefn | Cyllideb Ddrafft (Rhagfyr 2024) |
| | | £000oedd | | | | | | | | | | | |
| | Tegwch mewn Addysg (Grant Addysg Awdurdodau Lleol) | 0 | 150,250 | 150,250 | 150,250 | 150,250 | 0 | 150,250 | 0 | 0 | 6,000 | 0 | 156,250 |
| | Cymraeg 2050 (Grant Addysg Awdurdodau Lleol) | 0 | 9,700 | 9,880 | 9,880 | 9,700 | 0 | 9,700 | 0 | -1,100 | 0 | 0 | 8,600 |
| **Cyfanswm Cymorth ALI Addysg Cyn-16** | | **0** | **378,791** | **378,971** | **378,971** | **378,791** | **0** | **378,791** | **0** | **-5,295** | **26,304** | **0** | **399,800** |
| **Cymwysterau** | Cymwysterau Cymru | 9,890 | 10,007 | 9,971 | 9,971 | 10,007 | 149 | 10,156 | 0 | 0 | 235 | 0 | 10,391 |
| | Cymwysterau Cymru – Heb fod yn Arian Parod | 349 | 250 | 345 | 345 | 250 | 0 | 250 | 0 | 0 | 95 | 0 | 345 |
| **Cyfanswm Cymwysterau** | | **10,239** | **10,257** | **10,316** | **10,316** | **10,257** | **149** | **10,406** | **0** | **0** | **330** | **0** | **10,736** |
| **Addysg Drydyddol** (Addysg Ôl-16 gynt) | Darpariaeth Ôl-16 (Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil) | 579,955 | 565,885 | 186,501 | 186,535 | 565,885 | 0 | 565,885 | -50 | -565,835 | 0 | 0 | 0 |
| | Y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu | 10,714 | 6,500 | 6,500 | 6,500 | 6,500 | 1 | 6,501 | 0 | 0 | 0 | 0 | 6,501 |
| | Polisi Addysg Drydyddol a Gweithredu | 3,937 | 6,000 | 1,174 | 1,174 | 6,000 | 44 | 6,044 | 0 | -3,907 | 1,500 | 0 | 3,637 |

| | | 2023-24 | 2024-25 | | | 2025-26 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Camau Gweithredu** | **Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Alldro Terfynol** | **Cyllideb Derfynol (Medi 2024)** | **Y Gyllideb Atodol Gyntaf (Hydref 2024)** | **Alldro a Ragwelir (C6)** | **Cyllideb Derfynol 2024-25 a Ailddatganwyd ym mis Medi 2024** | **Newidiadau i'r llinell sylfaen** | **Llinell Sylfaen Ddiwygiedig** | **Prif Grŵp Gwariant i Brif Grwpiau Gwariant** | **Trosglwyddiadau o fewn Prif Grŵp Gwariant** | **Dyraniadau o Gronfeydd Wrth Gefn** | **Trosglwyddiadau i Gronfeydd wrth Gefn** | **Cyllideb Ddrafft (Rhagfyr 2024)** |
| | | **£000oedd** | | | | | | | | | | | |
| | Polisi Addysg Drydyddol a Gweithredu – Heb fod yn Arian Parod | 445 | 728 | 0 | 0 | 728 | 0 | 728 | 0 | 0 | | -728 | 0 |
| | Medr – Gwariant ar Raglenni | 0 | 0 | 520,856 | 520,856 | 0 | 18,170 | 18,170 | 0 | 757,298 | 29,213 | 0 | 804,681 |
| | Medr – Gwariant ar Raglenni – Heb fod yn Arian Parod | 0 | 0 | 728 | 728 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 437 | 0 | 437 |
| **Cyfanswm Addysg Drydyddol** | | **595,051** | **579,113** | **715,759** | **715,793** | **579,113** | **18,215** | **597,328** | **-50** | **187,556** | **31,150** | **-728** | **815,256** |
| **Addysg Uwch** | CCAUC – Gwariant ar Raglenni (Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil) | 203,477 | 187,556 | 69,000 | 69,000 | 187,556 | 0 | 187,556 | 0 | -187,556 | 0 | 0 | 0 |
| | CCAUC – Gwariant ar Raglenni – Heb fod yn Arian Parod | 15 | 100 | 100 | 100 | 100 | 0 | 100 | 0 | 0 | 0 | -100 | 0 |
| **Cyfanswm Addysg Uwch** | | **203,492** | **187,656** | **69,100** | **69,100** | **187,656** | **0** | **187,656** | **0** | **-187,556** | **0** | **-100** | **0** |
| **Safonau Addysg** | Y Grant Gwella Ysgolion | 165,570 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Codi Safonau Ysgolion | -14 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Cymorth Safonau Ysgolion | 2,744 | 3,126 | 3,186 | 3,282 | 3,126 | 17 | 3,143 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3,143 |
| **Cyfanswm Safonau Addysg** | | **168,300** | **3,126** | **3,186** | **3,282** | **3,126** | **17** | **3,143** | **0** | **0** | **0** | **0** | **3,143** |

| | | 2023-24 | 2024-25 | | | 2025-26 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Camau Gweithredu | Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | Alldro Terfynol | Cyllideb Derfynol (Medi 2024) | Y Gyllideb Atodol Gyntaf (Hydref 2024) | Alldro a Ragwelir (C6) | Cyllideb Derfynol 2024-25 a Ailddatganwyd ym mis Medi 2024 | Newidiadau i'r llinell sylfaen | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig | Prif Grŵp Gwariant i Brif Grwpiau Gwariant | Trosglwyddiadau o fewn Prif Grŵp Gwariant | Dyraniadau o Gronfeydd Wrth Gefn | Trosglwyddiadau i Gronfeydd wrth Gefn | Cyllideb Ddrafft (Rhagfyr 2024) |
| | | £000oedd | | | | | | | | | | | |
| **Mynd i'r Afael â Rhwystrau i Gyrhaeddiad** | Mynd i'r Afael â Rhwystrau i Gyrhaeddiad | 141,957 | 13,885 | 13,885 | 14,052 | 13,885 | 6 | 13,891 | 0 | 0 | 0 | 0 | 13,891 |
| **Cyfanswm Mynd i'r Afael â Rhwystrau i Gyrhaeddiad** | | **141,957** | **13,885** | **13,885** | **14,052** | **13,885** | **6** | **13,891** | **0** | **0** | **0** | **0** | **13,891** |
| **Systemau TGCh a Rheoli Gwybodaeth** | Cefnogi Dysgu Digidol mewn Addysg | 3,734 | 3,929 | 3,929 | 4,279 | 3,929 | 45 | 3,974 | 0 | 0 | 1,625 | 0 | 5,599 |
| | Cefnogi Dysgu Digidol mewn Addysg – Heb fod yn Arian Parod | 2,487 | 2,488 | 2,488 | 2,488 | 2,488 | 0 | 2,488 | 0 | 0 | 2,242 | 0 | 4,730 |
| **Cyfanswm Systemau TGCh a Rheoli Gwybodaeth** | | **6,221** | **6,417** | **6,417** | **6,767** | **6,417** | **45** | **6,462** | **0** | **0** | **3,867** | **0** | **10,329** |
| **Llesiant plant a phobl ifanc** | Anghenion Dysgu Ychwanegol | 24,315 | 3,591 | 2,621 | 2,621 | 3,591 | 6 | 3,597 | 0 | 0 | 2,000 | 0 | 5,597 |
| | Bwyd a Maeth mewn Ysgolion | 72,042 | 101,415 | 101,415 | 101,505 | 101,415 | 0 | 101,415 | 0 | 0 | 1,000 | 0 | 102,415 |
| | Lleoliadau Arbenigol Ôl-16 | 15,921 | 13,881 | 13,881 | 16,881 | 13,881 | 4 | 13,885 | 0 | 0 | 6,000 | 0 | 19,885 |
| | Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Llesiant | 3,950 | 1,850 | 1,850 | 1,850 | 1,850 | 6 | 1,856 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,856 |
| | Grwpiau Agored i Niwed | 485 | 920 | 920 | 1,044 | 920 | 3 | 923 | 0 | 0 | 0 | 0 | 923 |
| **Cyfanswm Llesiant plant a phobl ifanc** | | **116,713** | **121,657** | **120,687** | **123,901** | **121,657** | **19** | **121,676** | **0** | **0** | **9,000** | **0** | **130,676** |
| **Cymorth dysgwyr Ôl-16** | Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr | 298,584 | 282,362 | 282,362 | 283,972 | 282,362 | 0 | 282,362 | 0 | 0 | 900 | 0 | 283,262 |

| | | 2023-24 | 2024-25 | | | 2025-26 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Camau Gweithredu | Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | Alldro Terfynol | Cyllideb Derfynol (Medi 2024) | Y Gyllideb Atodol Gyntaf (Hydref 2024) | Alldro a Ragwelir (C6) | Cyllideb Derfynol 2024-25 a Ailddatganwyd ym mis Medi 2024 | Newidiadau i'r llinell sylfaen | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig | Prif Grŵp Gwariant i Brif Grwpiau Gwariant | Trosglwyddiadau o fewn Prif Grŵp Gwariant | Dyraniadau o Gronfeydd Wrth Gefn | Trosglwyddiadau i Gronfeydd wrth Gefn | Cyllideb Ddrafft (Rhagfyr 2024) |
| | | £000oedd | | | | | | | | | | | |
| | Gweinyddu Cymorth i Fyfyrwyr | 20,310 | 18,143 | 18,143 | 20,831 | 18,143 | 4 | 18,147 | 0 | 0 | 0 | 0 | 18,147 |
| | Darpariaeth Gyllidebol Adnoddau Benthyciadau i Fyfyrwyr – Heb fod yn Arian Parod | -229,112 | 514,341 | 276,772 | 276,772 | 514,341 | -237,569 | 276,772 | 0 | 0 | 0 | -15,647 | 261,125 |
| **Cyfanswm Cymorth Dysgwyr Ôl-16** | | **89,782** | **814,846** | **577,277** | **581,575** | **814,846** | **-237,565** | **577,281** | **0** | **0** | **900** | **-15,647** | **562,534** |
| **Ymgysylltu â Disgyblion** | Trechu Dadrithiad | 5,009 | 3,705 | 3,681 | 3,283 | 3,705 | 3 | 3,708 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3,708 |
| | Ysgolion Bro | 7,531 | 375 | 375 | 467 | 375 | 1 | 376 | 0 | 0 | 0 | 0 | 376 |
| **Cyfanswm Ymgysylltu â Disgyblion** | | **12,540** | **4,080** | **4,056** | **3,750** | **4,080** | **4** | **4,084** | **0** | **0** | **0** | **0** | **4,084** |
| **Ymgysylltu â Phobl Ifanc a Chyflogaeth** | Dysgu ar gyfer Troseddwyr | 11,041 | 7,328 | 11,066 | 11,066 | 7,328 | 0 | 7,328 | 0 | 0 | 0 | 0 | 7,328 |
| | Ymgysylltu â Phobl Ifanc a Chyflogaeth | 13,843 | 11,376 | 15,076 | 15,076 | 11,376 | 1 | 11,377 | 0 | 0 | 0 | 0 | 11,377 |
| **Cyfanswm Ymgysylltu â Phobl Ifanc a Chyflogaeth** | | **24,884** | **18,704** | **26,142** | **26,142** | **18,704** | **1** | **18,705** | **0** | **0** | **0** | **0** | **18,705** |
| **Cymorth Cyflawni** | Cyfathrebu ym maes Addysg | 437 | 413 | 413 | -63 | 413 | 0 | 413 | 0 | 0 | 0 | 0 | 413 |
| | Rhaglen Addysg Ryngwladol | 525 | 524 | 524 | 524 | 524 | 0 | 524 | 0 | -524 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Darparu Cymorth** | | **962** | **937** | **937** | **461** | **937** | **0** | **937** | **0** | **-524** | **0** | **0** | **413** |
| **Cymraeg mewn Addysg** | Cymraeg mewn Addysg | 19,238 | 6,511 | 6,424 | 6,865 | 6,511 | 7 | 6,518 | 0 | 0 | 19 | 0 | 6,537 |
| | Cymraeg mewn | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| | | 2023-24 | 2024-25 | | | 2025-26 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Camau Gweithredu | Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | Alldro Terfynol | Cyllideb Derfynol (Medi 2024) | Y Gyllideb Atodol Gyntaf (Hydref 2024) | Alldro a Ragwelir (C6) | Cyllideb Derfynol 2024-25 a Ailddatganwyd ym mis Medi 2024 | Newidiadau i'r llinell sylfaen | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig | Prif Grŵp Gwariant i Brif Grwpiau Gwariant | Trosglwyddiadau o fewn Prif Grŵp Gwariant | Dyraniadau o Gronfeydd Wrth Gefn | Trosglwyddiadau i Gronfeydd wrth Gefn | Cyllideb Ddrafft (Rhagfyr 2024) |
| | | £000oedd | | | | | | | | | | | |
| | Addysg – Heb fod yn Arian Parod | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cymraeg mewn Addysg** | | **19,242** | **6,511** | **6,424** | **6,865** | **6,511** | **7** | **6,518** | **0** | **0** | **19** | **0** | **6,537** |
| **Ystadau a Darpariaethau TG** | Seilwaith Addysg | 11,656 | 8,900 | 8,900 | 9,724 | 8,900 | 3 | 8,903 | 0 | 0 | 6,858 | 0 | 15,761 |
| **Cyfanswm Ystadau a Darpariaethau TG** | | **11,656** | **8,900** | **8,900** | **9,724** | **8,900** | **3** | **8,903** | **0** | **0** | **6,858** | **0** | **15,761** |
| **Estyn** | Estyn – Gwariant ar Raglenni | 16,175 | 15,893 | 15,817 | 15,849 | 15,893 | 168 | 16,061 | 0 | 0 | 406 | 0 | 16,467 |
| | Estyn – Gwariant ar Raglenni – Heb fod yn Arian Parod | 234 | 200 | 276 | 276 | 200 | 0 | 200 | 0 | 0 | 76 | 0 | 276 |
| **Cyfanswm Estyn** | | **16,409** | **16,093** | **16,093** | **16,125** | **16,093** | **168** | **16,261** | **0** | **0** | **482** | **0** | **16,743** |
| **Cyfanswm Adnoddau Cyllidol** | | **1,750,924** | **1,697,506** | **1,722,296** | **1,732,381** | **1,697,506** | **18,665** | **1,716,171** | **-50** | **0** | **83,560** | **0** | **1,799,681** |
| **Cyfanswm Adnoddau Anghyllidol** | | **-224,940** | **518,507** | **281,231** | **281,231** | **518,507** | **-237,569** | **280,938** | **0** | **0** | **3,131** | **-16,475** | **267,594** |
| **ADDYSG – CYFANSWM Y GYLLIDEB ADNODDAU** | | **1,525,984** | **2,216,013** | **2,003,527** | **2,013,612** | **2,216,013** | **-218,904** | **1,997,109** | **-50** | **0** | **86,691** | **--16,475** | **2,067,275** |

## Cyfalaf

| | | 2023-24 | 2024-25 | | | 2025-26 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Camau Gweithredu | Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | Alldro Terfynol | Cyllideb Derfynol (Medi 2024) | Y Gyllideb Atodol Gyntaf (Hydref 2024) | Alldro a Ragwelir (C6) | Cyllideb Derfynol 2024-25 a Ailddatganwyd ym mis Medi 2024 | Newidiadau i'r llinell sylfaen | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig | Trosglwyddiadau o fewn Prif Grŵp Gwariant | Dyraniadau o Gronfeydd Wrth Gefn | Trosglwyddiadau i Gronfeydd wrth Gefn | Cyllideb Ddrafft (Rhagfyr 2024) |
| | | £000oedd | | | | | | | | | | |
| **Ystadau a Darpariaethau TG** | Seilwaith Addysg | 322,992 | 343,400 | 341,827 | 349,107 | 343,400 | 0 | 343,400 | 0 | 27,600 | 0 | 371,000 |
| **Cyfanswm Ystadau a Darpariaethau TG** | | **322,992** | **343,400** | **341,827** | **349,107** | **343,400** | **0** | **343,400** | **0** | **27,600** | **0** | **371,000** |
| **Cymorth Dysgwyr Ôl-16** | Gweinyddu Cymorth i Fyfyrwyr | 5,137 | 2,500 | 2,500 | 5,278 | 2,500 | 0 | 2,500 | 0 | 0 | 0 | 2,500 |
| **Cyfanswm Cymorth Dysgwyr Ôl-16** | | **5,137** | **2,500** | **2,500** | **5,278** | **2,500** | **0** | **2,500** | **0** | **0** | **0** | **2,500** |
| **Addysg Uwch** | CCAUC – Gwariant ar Raglenni | 3,438 | 100 | 100 | 0 | 100 | 0 | 100 | -100 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Addysg Uwch** | | **3,438** | **100** | **100** | **0** | **100** | **0** | **100** | **-100** | **0** | **0** | **0** |
| **Addysg Drydyddol** | Medr – Gwariant ar Raglenni | 0 | 0 | 1,200 | 1,200 | 0 | 0 | 0 | 100 | 400 | 0 | 500 |
| | Diwygio Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol | 1,884 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Addysg Drydyddol** | | **1,884** | **0** | **1,200** | **1,200** | **0** | **0** | **0** | **100** | **400** | **0** | **500** |
| **Cymwysterau** | Cymwysterau Cymru | 249 | 250 | 250 | 250 | 250 | 0 | 250 | 0 | 0 | 0 | 250 |

| Camau Gweithredu | Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | 2023-24 Alldro Terfynol | 2024-25 Cyllideb Derfynol (Medi 2024) | 2024-25 Y Gyllideb Atodol Gyntaf (Hydref 2024) | 2024-25 Alldro a Ragwelir (C6) | 2025-26 Cyllideb Derfynol 2024-25 a Ailddatganwyd ym mis Medi 2024 | 2025-26 Newidiadau i'r llinell sylfaen | 2025-26 Llinell Sylfaen Ddiwygiedig | 2025-26 Trosglwyddiadau o fewn Prif Grŵp Gwariant | 2025-26 Dyraniadau o Gronfeydd Wrth Gefn | 2025-26 Trosglwyddiadau i Gronfeydd wrth Gefn | 2025-26 Cyllideb Ddrafft (Rhagfyr 2024) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £000oedd | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cymwysterau** | | **249** | **250** | **250** | **250** | **250** | **0** | **250** | **0** | **0** | **0** | **250** |
| **Addysgu ac Arweinyddiaeth** | Datblygu a Chefnogi Athrawon | 205 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Addysgu ac Arweinyddiaeth** | | **205** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Cymraeg mewn Addysg** | Cymraeg mewn Addysg | 13 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Cymraeg mewn Addysg** | | **13** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Estyn** | Estyn – Gwariant ar Raglenni | 174 | 250 | 250 | 250 | 250 | 0 | 250 | 0 | 0 | 0 | 250 |
| **Cyfanswm Estyn** | | **174** | **250** | **250** | **250** | **250** | **0** | **250** | **0** | **0** | **0** | **250** |
| **ADDYSG – CYFANSWM Y GYLLIDEB CYFALAF CYFFREDINOL** | | **334,092** | **346,500** | **346,127** | **356,085** | **346,500** | **0** | **346,500** | **0** | **28,000** | **0** | **374,500** |
| **Ystadau a Darpariaethau TG** | Seilwaith Addysg – Trafodiadau Ariannol | 20,438 | 2,788 | 2,032 | 2,032 | 2,788 | -2,788 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Seilwaith Addysg – Ad-daliadau | -672 | -686 | -1,686 | -1,686 | -686 | 686 | 0 | 0 | 0 | -1,701 | -1,701 |
| **Cyfanswm Ystadau a Darpariaethau TG** | | **19,766** | **2,102** | **346** | **346** | **2,102** | **-2,102** | **0** | **0** | **0** | **-1,701** | **-1,701** |
| **ADDYSG – CYFANSWM Y GYLLIDEB CYFALAF TRAFODIADAU ARIANNOL** | | **19,766** | **2,102** | **346** | **346** | **2,102** | **-2,102** | **0** | **0** | **0** | **-1,701** | **-1,701** |
| **ADDYSG – CYFANSWM Y GYLLIDEB CYFALAF** | | **353,858** | **348,602** | **346,473** | **356,431** | **348,602** | **-2,102** | **346,500** | **0** | **28,000** | **-1,701** | **372,799** |

## Gwariant a Reolir yn Flynyddol

| Camau Gweithredu | Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | 2023-24 | 2024-25 | | | 2025-26 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Alldro Terfynol | Cyllideb Derfynol (Medi 2024) | Y Gyllideb Atodol Gyntaf (Hydref 2024) | Alldro a Ragwelir (Cyfnod 6) | Cyllideb Derfynol 2024-25 a Ailddatganwyd ym mis Medi 2024 | Newidiadau | Cyllideb Ddrafft (Rhagfyr 2024) |
| | | £000oedd | | | | | | |
| **Ystadau a Darpariaethau TG** | Seilwaith Addysg – AME | -46 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Ystadau a Darpariaethau TG** | | **-46** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Benthyciadau i Fyfyrwyr – AME** | Benthyciadau i Fyfyrwyr – AME – Adnoddau | -206,676 | 6,584 | -105,079 | -105,079 | 6,584 | -107,426 | -100,842 |
| **Cyfanswm Cymorth Dysgwyr Ôl-16** | | **-206,676** | **6,584** | **-105,079** | **-105,079** | **6,584** | **-107,426** | **-100,842** |
| **ADDYSG – CYFANSWM AME Y GYLLIDEB ADNODDAU** | | **-206,722** | **6,584** | **-105,079** | **-105,079** | **6,584** | **-107,426** | **-100,842** |
| **Benthyciadau i Fyfyrwyr – AME** | Benthyciadau i Fyfyrwyr – AME – Cyfalaf | 1,349,500 | 1,285,227 | 1,519,101 | 1,503,817 | 1,285,227 | 67,936 | 1,353,163 |
| **Cyfanswm Cymorth Dysgwyr Ôl-16** | | **1,349,500** | **1,285,227** | **1,519,101** | **1,503,817** | **1,285,227** | **67,936** | **1,353,163** |
| **ADDYSG – CYFANSWM AME Y GYLLIDEB CYFALAF** | | **1,349,500** | **1,285,227** | **1,519,101** | **1,503,817** | **1,285,227** | **67,936** | **1,353,163** |
| **ADDYSG – CYFANSWM AME Y GYLLIDEB** | | **1,142,778** | **1,291,811** | **1,414,022** | **1,398,738** | **1,291,811** | **-39,490** | **1,252,321** |

# Atodiad B – Dyraniadau refeniw'r MEG Addysg ar gyfer 2025-26

| MEG Addysg: Newidiadau i'r Gyllideb Refeniw | Llinell Wariant yn y Gyllideb | 2025-26 £000oedd |
|---|---|---|
| Dyraniadau Refeniw Cylchol o Gronfeydd Wrth Gefn: | | |
| Dyraniadau Ychwanegol | | |
| Cyrhaeddiad – Llythrennedd a Rhifedd | Cwricwlwm ac Asesu | 7,500 |
| | Diwygio Addysg (Grant Addysg Awdurdodau Lleol) | 2,500 |
| Gweithredu a chyflwyno ADY | Diwygio Addysg (Grant Addysg Awdurdodau Lleol) | 10,000 |
| | Anghenion Dysgu Ychwanegol | 2,000 |
| Lleoliadau Arbenigol Ôl-16 (£3.7m anghylchol ychwanegol) | Lleoliadau Arbenigol Ôl-16 | 2,329 |
| Safonau Ysgolion | Safonau Ysgolion (Grant Addysg Awdurdodau Lleol) | 7,804 |
| Presenoldeb mewn ysgolion – Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd, Ysgolion Bro a chyfoethogi ac ymgysylltu, SHEP | Tegwch mewn Addysg (Grant Addysg Awdurdodau Lleol) | 6,000 |
| | Bwyd a Maeth mewn Ysgolion | 1,000 |
| Presenoldeb a Chyfranogiad – Rhaglen Seren a chyfranogi mewn Addysg Drydyddol a datblygu polisi diwygio gan gynnwys ymateb i'r Adolygiad o Gymwysterau Galwedigaethol, yr Adroddiad Pontio i Fyd Gwaith a'r Adolygiad o AGA mewn Addysg Bellach | Polisi Addysg Drydyddol a Gweithredu | 1,500 |
| Cynnydd disgwyliedig yn nifer y dysgwyr ôl-16 a chyllid wrth gefn ar gyfer blwyddyn academaidd 24/25 | Medr – Gwariant ar Raglenni | 11,882 |
| Presenoldeb a Chyfranogiad (Ôl-16) – Cymorth iechyd meddwl ychwanegol mewn AB ac AU | Medr – Gwariant ar Raglenni | 2,000 |
| Presenoldeb a Chyfranogiad (Ôl-16) – y Lwfans Cynhaliaeth Addysg (cynnydd yn y trothwy incwm aelwydydd). (Cyfanswm y gost £2.9m gyda £2m a ariennir o fewn y Llinell Wariant yn y Gyllideb) | Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr | 900 |
| Llwyfan cenedlaethol Hwb | Cefnogi Dysgu Digidol mewn Addysg | 1,325 |
| Cyfanswm Dyraniadau Ychwanegol | | 56,740 |
| Cyflog y Sector Cyhoeddus | | |
| Cymwysterau Cymru | Cymwysterau Cymru | 235 |
| SABau ac Adrannau Chweched Dosbarth mewn Ysgolion (dyfarniad cyflog 2024/25) | Medr – Gwariant ar Raglenni | 3,031 |
| SABau ac Adrannau Chweched Dosbarth | Medr – Gwariant ar Raglenni | 12,000 |
| Medr | Medr – Gwariant ar Raglenni | 300 |
| Rhaglen Hwb | Cefnogi Dysgu Digidol mewn Addysg | 300 |
| Adnodd | Cymraeg mewn Addysg | 19 |
| Estyn | Estyn – Gwariant ar Raglenni | 406 |
| Cyfanswm Dyraniadau Cyflog | | 16,291 |
| Cyfanswm y Dyraniadau Refeniw Cylchol o Gronfeydd Wrth Gefn | | 73,031 |

| | | |
|---|---|---|
| Dyraniadau Refeniw Anghylchol o Gronfeydd Wrth Gefn: | | |
| Dyraniadau | | |
| Lleoliadau Arbenigol Ôl-16 (effaith TAW) | Lleoliadau Arbenigol Ôl-16 | 3,671 |
| Model Buddsoddi Cydfuddiannol | Seilwaith Addysg | 6,858 |
| Cyfanswm Refeniw Anghylchol o Gronfeydd Wrth Gefn | | 10,529 |
| Cyfanswm Trosglwyddiadau Refeniw o Gronfeydd Wrth Gefn | | 83,560 |

# Atodiad C – Dyraniadau'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol 2024-25 yn ôl elfen ac awdurdod lleol

| Grant Addysg Awdurdodau Lleol 24-25 | Safonau Ysgolion £ | Tegwch £ | Diwygio £ | Cymraeg 2050 £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 3,450,216 | 2,247,447 | 1,472,670 | 347,736 | 7,518,069 |
| Gwynedd | 5,835,680 | 3,771,419 | 2,340,976 | 658,276 | 12,606,351 |
| Conwy | 5,101,403 | 4,317,484 | 2,146,468 | 387,618 | 11,952,973 |
| Sir Ddinbych | 5,197,274 | 4,769,096 | 2,117,071 | 383,195 | 12,466,636 |
| Sir y Fflint | 7,723,294 | 5,708,863 | 2,849,182 | 398,258 | 16,679,597 |
| Wrecsam | 6,828,796 | 6,511,459 | 2,510,571 | 406,743 | 16,257,570 |
| Powys | 6,066,682 | 3,963,612 | 2,384,984 | 522,175 | 12,937,453 |
| Ceredigion | 3,268,324 | 2,449,170 | 1,426,363 | 380,544 | 7,524,401 |
| Sir Benfro | 6,049,206 | 4,143,390 | 2,267,237 | 407,471 | 12,867,304 |
| Sir Gaerfyrddin | 9,325,701 | 7,586,147 | 3,396,786 | 639,342 | 20,947,977 |
| Abertawe | 12,474,646 | 12,664,576 | 4,117,657 | 602,382 | 29,859,262 |
| Castell-nedd Port Talbot | 7,214,590 | 7,958,630 | 2,676,555 | 443,616 | 18,293,390 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 7,577,401 | 7,731,418 | 2,869,781 | 414,232 | 18,592,832 |
| Bro Morgannwg | 7,704,223 | 5,528,892 | 2,765,822 | 401,531 | 16,400,468 |
| Rhondda Cynon Taf | 12,781,493 | 11,917,097 | 4,515,816 | 693,934 | 29,908,340 |
| Merthyr Tudful | 3,370,580 | 3,365,300 | 1,375,192 | 207,541 | 8,318,612 |
| Caerffili | 9,495,777 | 9,986,049 | 3,331,377 | 516,312 | 23,329,515 |
| Blaenau Gwent | 3,567,851 | 3,379,571 | 1,409,291 | 187,959 | 8,544,672 |
| Torfaen | 4,839,216 | 4,901,377 | 1,875,440 | 301,651 | 11,917,684 |
| Sir Fynwy | 3,715,910 | 2,566,379 | 1,583,987 | 286,551 | 8,152,827 |
| Casnewydd | 9,226,708 | 9,412,191 | 3,156,381 | 497,407 | 22,292,687 |
| Caerdydd | 19,070,043 | 25,379,051 | 6,366,387 | 797,540 | 51,613,020 |
| Cymru | 159,885,014 | 150,258,616 | 58,955,996 | 9,882,017 | 378,981,643 |

## Atodiad D – Dyraniadau Prydau Ysgol am Ddim i holl blant Ysgolion Cynradd 2024-25 yn ôl awdurdod lleol

| Awdurdod Lleol | Dyraniad Grant Prydau Ysgol am Ddim i holl blant Ysgolion Cynradd 2024-25 |
|---|---:|
| Ynys Môn | £2,074,683 |
| Gwynedd | £3,450,161 |
| Conwy | £2,928,023 |
| Sir Ddinbych | £2,883,223 |
| Sir y Fflint | £4,679,504 |
| Wrecsam | £4,037,366 |
| Powys | £3,851,231 |
| Ceredigion | £1,985,083 |
| Sir Benfro | £3,848,031 |
| Sir Gaerfyrddin | £5,945,114 |
| Abertawe | £5,938,995 |
| Castell-nedd Port Talbot | £3,662,963 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | £4,344,989 |
| Bro Morgannwg | £4,772,305 |
| Rhondda Cynon Taf | £7,681,128 |
| Merthyr Tudful | £2,092,283 |
| Caerffili | £5,373,910 |
| Blaenau Gwent | £1,897,615 |
| Torfaen | £2,626,688 |
| Sir Fynwy | £2,700,288 |
| Casnewydd | £5,329,643 |
| Caerdydd | £10,652,352 |
| **Cymru** | **£92,755,577** |